Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>28 IONAWR 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>28 JANUARY 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2018.

**4 COFNODION - PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 13 - 20)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2018.

**5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 21 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6 AROLYGIAD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU O'R GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 37 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**7 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN - RHEOLI TRYSORLYS** (Tudalennau 73 - 90)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID** (Tudalennau 91 - 136)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod ar 17 Rhagfyr, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Dros Dro Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheolwr Gwasanaeth Tai (Comisiynu Strategaeth a Pholisi)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Gwilym O. Jones, Shaun Redmond |

---

DRAFT

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Richard Dew ddatganiad o ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu yn eitem 9 ar y rhaglen gan fod ei wraig yn gweithio fel athrawes yn Ysgol Corn Hir.

Fe wnaeth y Cynghorwyr R. Meirion Jones, Alun Mummery a Robin Williams ddatganiad o ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu yn eitem 13 ar y rhaglen oherwydd, fel Aelodau Lleol, roeddent wedi lleisio eu gwrthwynebiad i'r datblygiad o'r cychwyn cyntaf ac felly ni allent gael eu gweld fel petaent yn ddiduedd ar y mater.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, gofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd a 26 Tachwedd, 2018.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd a 26 Tachwedd, 2018 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Ionawr, 2019 i Awst, 2019.

Rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn –

**Eitemau sy'n newydd i'r Rhaglen Waith -**

- Eitem 13 – Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2017/18. Mae'r penderfyniad arno wedi'i ddirprwyo i'r Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r amserlen ar gyfer ei gyhoeddi yw mis Mawrth, 2019.
- Eitem 20 – Cerdyn Sgorio Corfforaethol, Chwarter 4 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Mai, 2019.
- Eitem 21 – Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a Chyfalaf, Chwarter 4, 2018/19 i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Mai, 2019.
- Eitem 22 – Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2018/19. Mae'r penderfyniad arno wedi'i ddirprwyo i'r Aelod Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg, a'r amserlen ar gyfer ei gyhoeddi yw mis Mehefin, 2019.

**Eitem wedi'i gohirio i ddyddiad hwyrach –**

- Eitem 2 – Prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN). Roedd yr eitem i fod i gael ei hystyried yn wreiddiol gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, 2018 ond mae wedi'i gohirio nawr i'r cyfarfod ym mis Ionawr, 2019.

Adroddodd y Swyddog ers cyhoeddi'r Rhaglen Waith, fod y Gwasanaeth Dysgu hefyd wedi gofyn i ddwy eitem – Polisi Cludiant Ysgol a'r Adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – gael eu hychwanegu at y Rhaglen gyda'r bwriad i'r Pwyllgor Gwaith roi ystyriaeth iddynt yn y Flwyddyn Newydd ar ddyddiadau i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Ionawr, 2019 i Awst, 2019 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. FFIOEDD A THALIADAU 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori atodlen o ffioedd a thaliadau diwygiedig ar gyfer 2019/20.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid oherwydd y sefyllfa ariannol anodd ar hyn o bryd, y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo gweithredu'n gynnar nifer o'r ffioedd a thaliadau diwygiedig a welir yn yr atodlen sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. Yn draddodiadol, caiff newidiadau i ffioedd a thaliadau eu gweithredu o'r 1af Ebrill yn y flwyddyn ariannol newydd, ond eleni cynigir dod â hyn ymlaen i 1af Chwefror lle bo'n bosib, fel rhan o nifer o fesurau sydd eu hangen i ymateb i'r sefyllfa ariannol. Mae'r atodlen ffioedd a thaliadau yn amlygu pa newidiadau a ddaw i rym o 1 Chwefror, 2019, pa rai a ddaw i rym o'r 1af Ebrill, 2019 (yn bennaf lle mae'r cynnydd wedi'i ragnodi mewn statud) a'r rheini a ddaw i rym o fis Medi, 2019 (yn ymwneud ag ysgolion). Mae cyllidebau incwm ar gyfer ffioedd a thaliadau anstatudol ar gyfer 2019/20 wedi cael eu codi 3% ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi caniatáu i Benaethiaid Gwasanaeth gynyddu'r ffioedd unigol o fwy neu lai na 3% ond

DRAFT

gyda'r disgwyliad, yn gyffredinol, y bydd disgwyl i wasanaethau gwrdd â'u targed incwm yn y gyllideb.

Tynnodd yr Aelod Portffolio sylw at y ffaith fod taliadau am brydau ysgol yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a fydd yn dod i ben ddiwedd y mis hwn; felly bydd angen cadarnhau'r taliadau hyn yn hwyrach ymlaen.

Yn wyneb yr uchod, cytunodd y Pwyllgor Gwaith na ddylai taliadau am brydau ysgol fod yn rhan o'r benderfyniad, ac y dylai'r penderfyniad adlewyrchu'r eithriad hwn.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r ffioedd a thaliadau ar gyfer 2019/20 fel y'u hamlinellir yn y llyfryn atodwyd i'r adroddiad ac eithrio taliadau am brydau ysgol sy'n destun ymgynghoriad tan ddiwedd mis Rhagfyr, 2018.**

## 6. STRATEGAETH RANBARTHOL DIGARTREFEDD

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn ymgorffori'r Strategaeth Ranbarthol Digartrefedd a Chynllun Gweithredu Lleol.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod gofyn i bob Awdurdod Lleol, yn ôl y gyfraith, fabwysiadu Strategaeth Digartrefedd yn 2018 er mwyn atal digartrefedd; i ddarparu llety addas i bobl sy'n ddigartref neu rai a allai fynd yn ddigartref, ac i sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu rai a allai fynd yn ddigartref. Cyn cynhyrchu'r strategaeth, roedd rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad yn unol ag adran 51 Cod Arweiniad Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Roedd gofyn i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Digartrefedd fel sail i gynhyrchu'r Strategaeth. Roedd y Penaethiaid Gwasanaeth trwy Ogledd Cymru wedi cytuno y dylid cynhyrchu Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol oherwydd y manteision – fel y nodir yn yr adroddiad – a geid o sefydlu dealltwriaeth a dull ar y cyd tuag at atal digartrefedd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio yr hoffai gymryd y cyfle i ddiolch i staff y Gwasanaeth Digartrefedd am eu gwaith a hefyd y Gwasanaeth Tai ehangach am ei gyfraniad tuag at ffurfio'r Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol sy'n destament i'r gweithio partneriaeth effeithiol sydd wedi digwydd ar y strategaeth hon.

Adroddodd y Cynghorydd G.O. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, ar drafodaethau'r Pwyllgor ar y mater hwn yn ei gyfarfod ar 13 Tachwedd, 2018 fel rhan o ymgynghoriad helaeth a wnaed wrth gynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Digartrefedd. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor, wrth gefnogi ac argymell y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Lleol i'r Pwyllgor Gwaith ac wrth groesawu'r cydweithio rhanbarthol a oedd wedi digwydd i'w gynhyrchu, wedi codi nifer o bwyntiau er mwyn cael eglurhad arnynt, ac roedd y Swyddogion wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor; roedd y pwyntiau hynny'n cynnwys y canlynol –

- Y trefniadau ar gyfer monitro'r strategaeth yn lleol er mwyn sicrhau ei bod yn dal i gwrdd â'i hamcanion.
- P'un a oes unrhyw wahaniaethau yn y modd mae'r Strategaeth yn berthnasol i'r cynghorau hynny sydd wedi cadw cyfrifoldeb am eu stoc tai h.y. Cyngor Sir Ynys Môn o gymharu â'r rheini yn y rhanbarth sydd wedi trosglwyddo eu stoc i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- Bod 50% o'r rhai a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar draws y rhanbarth yn teimlo nad oedd staff wastad yn gwrtais neu'n barod eu cymwynas wrth ddelio gyda'r sefyllfaoedd anodd mae pobl yn eu wynebu. Ni chredai'r Pwyllgor fod y Strategaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn; awgrymwyd y gallai Ynys Môn arwain ar anghenion

hyfforddiant posib y staff yn y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wrth ddelio gyda materion sensitif sy'n gysylltiedig â digartrefedd.

- P'un a yw'r Awdurdod yn gallu ymateb i geisiadau am gymorth – roedd y Pwyllgor wedi nodi bod rheoli disgwyliadau yn cael ei ystyried yn her.
- Yr angen i sicrhau bod unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael sylw priodol gan y strategaeth.
- Bod y Pwyllgor wedi nodi, er nad oes gan yr Awdurdod ganolfan bwrpasol i ddarparu llety dros nos i bobl ddigartref, fod yna brotocol ar gyfer darparu llety Gwely a Brecwast i rai sy'n cysgu ar y stryd.
- Effaith bosib datblygiad Wylfa Newydd o yrru'r rhenti'n uwch yn y sector preifat gan felly eu gwneud yn llai fforddiadwy i nifer gynyddol o bobl.
- Effaith cyflwyniad y system Credyd Cynhwysol, a'r posibilrwydd y bydd pobl yn methu talu eu rhenti.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Pwyllgor Sgriwtini am ei fewnbwn; wrth nodi sylwadau'r Pwyllgor, ceisiodd y Pwyllgor Gwaith sicrwydd bod staff yr Awdurdod yn delio'n briodol ac yn sensitif gyda phob unigolyn digartref sy'n ceisio cael cymorth a chefnogaeth gan y Cyngor. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Tai fod staff yn Ynys Môn wedi cael canmoliaeth am y ffordd maent yn delio gydag unigolion sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref a dyma fyddai'r Rheolwyr Tai yn ei ddisgwyl gan eu staff.

Dywedodd y Pwyllgor Gwaith fod nifer y bobl ddigartref yn cynyddu, yn anffodus, sy'n gwneud y Strategaeth hyd yn oed yn fwy perthnasol ac amserol. Ceisiodd y Pwyllgor Gwaith eglurhad ar sut mae'r strategaeth yn berthnasol i landlordiaid preifat yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae llety rhent preifat yn is-safonol a/neu lle nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n iawn, neu lle caiff tenantiaid preifat eu trin yn annheg gan o bosib eu gwneud yn ddigartref, ac a oes trefniadau ar gyfer datrys sefyllfaoedd fel y rhain. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai er bod yna broses ffurfiol y mae disgwyl i landlordiaid preifat ei dilyn wrth ymrwymo i gytundeb tenantiaeth, mae nifer fechan o landlordiaid yn peidio â chadw at y broses ac mae'n fater o geisio gweithio efo nhw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r broses. Hefyd, o safbwynt y Cyngor, mewn achosion lle mae ymgeiswyr am dŷ cymdeithasol wedi methu â chynnal a chadw eu cartref presennol neu flaenorol yn iawn, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu safle ar y gofrestr aros am dŷ.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a'r Cynllun Gwaith Lleol.**

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn amlinellu cynnydd diweddaraf y Gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Adroddodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen diolch yn fawr i staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd am ddod â'r Gwasanaeth i'r pwynt hwnt – o'r 21 pwynt gweithredu a adnabuwyd fel rhan o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) yn dilyn arolwg AGC o Wasanaethau Plant Ynys Môn ym mis Tachwedd 2016, dim ond 2 sydd dal yn Ambr. Mae'n rhaid diolch yn fawr hefyd i'r Aelodau Etholedig sydd wedi bod yn rhan o'r broses honno ac wedi cyfrannu ati. O'r 19 pwynt gweithredu arall yn y CGG, mae statws 13 ohonynt yn Wyrdd a 6 yn Felyn. Mae'r gwelliant hwn wedi'i gydnabod gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n ddiweddar wedi cyhoeddi canfyddiadau ei adolygiad dilyn-i-fyny o'r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ym mis Hydref, 2018. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn dal i fonitro a chraffu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'i fod wedi dechrau ystyried creu Cynllun newydd



DRAFT

gyda'r bwriad o ddwyn ynghyd yr holl welliannau a wnaed hyd yma tra hefyd yn sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer y tymor hir a thu hwnt.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fod yr adroddiad yn crynhoi'r meysydd hynny sydd wedi bod yn ffocws i waith diweddaraf y Gwasanaeth ac a arweiniodd at welliannau; caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y ddibyniaeth is ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag ar ôl i'r Gwasanaeth benodi'n llwyddiannus i sawl swydd Gweithiwr Cymdeithasol, a hefyd yn y perfformiad yn derbyn Dangosyddion Perfformiad allweddol lle mae'r gwelliant wedi'i gynnal o Chwarter 1 2018/19 drwodd i Chwarter 2 fel mae'r adroddiad yn ei ddisgrifio ym mharagraff 3. Dywedodd y Swyddog fod adroddiad AGC o'r adolygiad dilyn-i-fyny yn cydnabod bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y Gwasanaethau Plant, bod morâl staff yn uchel a bod angerdd ac ymroddiad ar bob lefel i barhau i weithio i ddarparu gwasanaethau rhagorol i blant. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod yna dal waith i'w wneud; mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn gyson wrth adnabod er bod llawer iawn wedi'i gyflawni hyd yma, nad yw'r gwaith yn gyflawn fel mae'r 2 bwynt Ambr yn tystiolaethu – mae'r rhain yn ymwneud ag elfennau a gaiff eu cwblhau'n llawn dros y tymor hwy ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio arnynt. Bydd y meysydd hyn ynghyd â chanfyddiadau'r adolygiad dilyn-i-fyny gan AGC yn cael eu hystyried yn y Flwyddyn Newydd gyda'r bwriad o greu Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd a fydd yn cwmpasu'r holl weithgarwch presennol yn ogystal â strategaeth arloesol newydd i gynyddu nifer y lleoliadau i blant sydd ag anghenion cymhleth. Bydd AGC yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Ionawr, 2019 ac wedyn bydd y Gwasanaeth yn trafod gyda'r Arolygiaeth y camau nesaf i'w cymryd i wneud gwelliannau pellach.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr lle rhoddwyd ystyriaeth i'r gwelliannau diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn erbyn y CGG. Nododd y Pwyllgor fod perfformiad lleol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol wedi gwella'n sylweddol dros y misoedd diwethaf a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud hefyd wrth weithredu'r CGG. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod y Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd gyda gweithredu'r Strategaeth Gweithlu ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaethau Plant, gydag un swydd yn dal i gael ei llenwi gan Weithiwr Cymdeithasol asiantaeth. Roedd y Pwyllgor yn glir ynghylch y pwysau ariannol ar y Gwasanaethau Plant yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o blant y gofelir amdanynt, gyda'r rhagolwg y bydd y gwasanaeth wedi gorwario tua £2m erbyn diwedd y flwyddyn. Nododd y Pwyllgor gyfraniad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant tuag at y broses wella ac roedd yn cydnabod yr angen i'r Panel barhau gyda'i waith o fis Ebrill, 2019 ymlaen. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn cynnwys yr eglurhad a roddwyd gan Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd, cadarnhaodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei fod yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd wrth weithredu'r CGG a gyda'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am ei sylwadau. Wrth gydnabod y pellter a deithiwyd gan y Gwasanaethau Plant o ran graddau'r gwelliannau a wnaed ers yr arolwg gwreiddiol gan AGC ym mis Tachwedd, 2016, pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith yr angen i gynnal y momentwm ac i sicrhau bod y newidiadau a wnaed yn aros dros amser, gan gofio mater sydd wedi codi ei ben dro ar ôl tro yn y gorffennol sef trosiant staff, a bod Gwaith Cymdeithasol yn lwybr gyrfa heriol lle gall y pwysau ar unigolion fod yn uchel weithiau. Ceisiodd y Pwyllgor Gwaith sicrwydd felly fod Strategaeth Gweithlu y Gwasanaeth yn rhoi sylw digonol i'r elfen cadw staff a hefyd y bydd y Gwasanaeth yn y tymor hir yn gallu cynnal y gwelliannau mae wedi eu gwneud i broses ac ymarfer, a adlewyrchir yn y 13 maes Gwyrdd yn y CGG.

Dywedodd y Cadeirydd yn ei chapasiti fel Cadeirydd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant fod y Panel, yn ei gyfarfod diwethaf, wedi cydnabod a thrafod yr angen i sicrhau nad yw'r

DRAFT

newidiadau a wnaed yn cael eu colli neu'n cael llithro wrth ddod â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth cyfredol i ben. Bydd y Cynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig nesaf yn cynnwys y gwelliannau sydd yn parhau a hefyd yn ymgorffori camau gweithredu a fydd yn galluogi'r Gwasanaeth i wneud gwelliannau pellach. Yn ogystal, bydd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn parhau gyda'i gwaith craffu a monitro tu hwnt i gwblhau'r CGG presennol er mwyn cefnogi a sicrhau gwelliant parhaus.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mai dwy o'r elfennau pwysicaf mewn ymarfer Gwaith Cymdeithasol llwyddiannus yw cefnogaeth a chyfeiriad – mae'r strwythur newydd a roddwyd ar waith yn y Gwasanaethau Plant yn sicrhau bod yr elfennau hyn nawr ar gael i staff y Gwasanaeth. Mae creu Grwpiau Ymarfer llai dan arweiniad Arweinydd Ymarfer wedi arwain at lwythi achosion is ac mae'n golygu bod pob Gweithiwr Cymdeithasol yn cael arweiniad a goruchwyliaeth reolaidd lle gallant drafod unrhyw faterion sy'n codi o'u hachosion. Er bod llwythi achos wedi cynyddu mymryn yn ddiweddar, yn rhannol o ganlyniad i ail-edrych ar achosion etifeddiaeth sydd wedi arwain at ragor o blant yn dod i ofal, mae'r broses hon nawr yn tynnu at ei therfyn.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r canlynol –**

- **Y camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd.**
- **Cyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

## 8. SEFYDLU BWRDD CYMERADWYO SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn amlinellu gweithdrefn ar gyfer ymdrin â swyddogaeth y Cyngor fel Corff Cymeradwyo ceisiadau am Systemau Draenio Cynaliadwy (Safonau Cenedlaethol) o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLlD) 2010 yn gorchymyn y dylai systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy (SDCau). Mae Atodlen 3 DRhLlD 2010 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol fel Cyrff Cymeradwyo SDCau i gymeradwyo, mabwysiadu a chynnal a chadw systemau sy'n cydymffurfio ag adran 17 yr Atodlen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y daw gofynion Atodlen 3 i rym yng Nghymru ar 7 Ionawr, 2019. O'r dyddiad hwn felly, bydd rhaid cael systemau draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy. Mae'n rhaid i systemau draenio gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau SDCau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni fydd rhaid i geisiadau datblygu a gyflwynwyd cyn 7 Ionawr, 2019 gydymffurfio â'r safonau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, er bod ffurfio'r CCS yn ofyniad statudol newydd ar Awdurdodau Lleol, na fydd unrhyw gyllid ychwanegol yn dod o Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r gwaith hwn. Disgwylir i'r CCS fod yn hunan-gynhaliol yn y tymor hir gyda'r ffioedd sydd ynghlwm â cheisiadau Draenio Cynaliadwy yn talu am y costau rhedeg. Yn dilyn adroddiad rheolwr prosiect gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o sefydlu CCS ac i edrych ar opsiynau eraill ar gyfer Gogledd Cymru, cynhaliwyd trafodaethau mewnol gyda'r Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd ac YGC ac ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo SDCau. Am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad penderfynwyd, ac argymhellir y dylai'r dyletswyddau hynny gael eu cyflawni'n fewnol yn y Gwasanaeth

Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gan ddefnyddio trefniadau'r Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd ar gyfer gweinyddu a YGC ar gyfer gwydnwch. Bydd gofyn llenwi un swydd weinyddol yn syth ar gyfer hyn er mwyn delio gyda cheisiadau o 7 Ionawr, 2019. Fel arall, hyd nes bydd yr incwm o'r ceisiadau CCS yn ddigon i allu creu a llenwi swyddi newydd, bydd dyletswyddau CCS yn cael eu cyfuno gyda dyletswyddau presennol staff gan ddefnyddio YGC lle nad yw'r arbenigedd ac/neu'r capasiti yn bodoli ar hyn o bryd.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) beth mae system draenio cynaliadwy yn ei olygu, sef sicrhau bod dŵr ffo ar yr wyneb yn cael ei ddraenio'n araf trwy ei gasglu mewn ffosydd a phyllau dŵr yn hytrach na'i fod yn draenio ymaith yn gyflym i mewn i'r system ddraenio, lle gallai hynny arwain at lifogydd yn rhywle arall yn y system yn ystod cyfnodau o law trwm. O'r 7fed o Ionawr, 2019, yn ogystal â chyflwyno cais o dan y broses gynllunio arferol, bydd rhaid i ddatblygwyr hefyd gyflwyno cais SDC o dan broses caniatâd SDC ar wahân os yw'n ddatblygiad am fwy nag un tŷ neu os yw'r arwynebedd adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy. Dywedodd y Swyddog, wrth archwilio'r opsiynau ar gyfer ymgymryd â'r dyletswyddau CCS, daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud cymaint â phosib o'r gwaith CCS yn fewnol gan felly ddarparu gwasanaeth lleol ac yn y tymor hir, y potensial i greu swyddi lleol. Trwy edrych ar geisiadau cynllunio hanesyddol ar Ynys Môn, roedd YGC yn amcangyfrif y byddai'n rhaid i tua 278 o geisiadau gael eu cyflwyno i'r CCS yn flynyddol gan greu incwm o £171,160 yn erbyn costau rhedeg o £168,551. Bydd rhaid penodi aelod o staff llawn amser i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol ym mis Ionawr, 2019. Caiff swyddi ychwanegol eu llenwi fel ac wrth i'r lefelau incwm godi.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r cynllun fel un sydd gwir ei angen i fynd i'r afael â rhai o'r problemau llifogydd a brofwyd ar Ynys Môn ac mewn mannau eraill yn ddiweddar. Wrth gefnogi'r cynigion fe ofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ar y canlynol hefyd –

- Y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau SDCau
- A oes mecanwaith ar gyfer apelio penderfyniadau
- A yw'r arbenigedd technegol angenrheidiol ar gael ar hyn o bryd yn fewnol
- Y risg y bydd datblygwyr wrth orfod cwrdd â chost y broses ymgeisio ychwanegol hon yn codi'r mater o hyfywdra ac yn ceisio adennill y costau drwy leihau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy mewn datblygiad tai.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fod y broses cymeradwyo SDCau yn broses debyg ond cwbl ar wahân i'r broses cais cynllunio bresennol; fodd bynnag, ni fydd ceisiadau SDCau yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae swyddogion yn bwriadu rhoi cyflwyniad ar y system CCS i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a sut mae'n cysylltu i'r system Gynllunio. Mae'r broses o gymeradwyo cais SDC yn dechnegol ac mae gofyn cael arbenigedd yn y maes; mae'r ddyletswydd hon yn cael ei phennu i'r Swyddogion. Mae cael cysondeb trwy Ogledd Cymru wrth wneud penderfyniad ar geisiadau yn cael ei archwilio, gan roi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddelio gydag apeliadau ar y cyd ag awdurdod cyfagos fel bod y neges a roddir i ddatblygwyr hefyd yn gyson. Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn hyderus y gall gydweithio gyda'r Gwasanaeth Cynllunio ar agweddau gweinyddol y gwaith o ystyried ei fod yn debyg iawn i'r broses gynllunio; o ran yr agweddau mwy technegol y bwriad yw defnyddio arbenigedd aelod o staff presennol yn y tymor byr a phe bai angen arbenigedd pellach neu ychwanegol, y bwriad fyddai penodi YGC i gynorthwyo ar yr adegau mwyaf prysur. Yn y tymor hir bydd y Gwasanaeth yn monitro lefelau incwm a phan fyddant yn cyrraedd lefelau digonol bydd y Gwasanaeth yn edrych ar hysbysebu a recriwtio'n lleol. Pwysleisiodd y Swyddog er bod cefnogaeth i'r weithdrefn mewn egwyddor, mae pryderon ynghylch yr amserlen a'r diffyg cyllid i sefydlu a gweithredu'r system newydd i gychwyn wedi cael eu hadrodd wrth Lywodraeth Cymru mewn llythyr ac mewn cyfarfod rhanbarthol. Ni fydd y

DRAFT

gofynion newydd yn effeithio ar y ddyletswydd statudol i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy ond oherwydd y costau ychwanegol gallant effeithio ar gynlluniau busnes datblygwr o ran pa ddarpariaeth arall mae'r datblygwyr yn gallu ei wneud.

**Penderfynwyd –**

- **Fod gweithredu cyfrifioldebau statudol y Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) yn cael eu priodoli i'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.**
- **Bod cyfrifoldeb a phwerau'r CCS dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gyda'r hawl i ddirprwyo ymhellach fel sy'n briodol.**
- **Bod yr hawl i sefydlu cyfundrefn benderfynu ceisiadau yn unol â'r Ddeddfwriaeth ac Arweiniad Statudol yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd.**
- **Bod incwm a gynhyrchir o weinyddu'r CCS yn cael ei glustnodi ar gyfer gweithredu dyletswyddau'r CCS.**
- **Bod yr hawl i greu strwythur a llenwi swyddi er mwyn gweithredu dyletswyddau'r CCS yn cael ei ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio a'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.**
- **Bod yr hawl i addasu'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yma yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro.**

**9. ADRODDIAD AR WRTHWYNEBIADAU I YSGOL GYNRADD NEWYDD YN LLE YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR A CHYMERADWYAETH Y CYNNIG GWREIDDIOL**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn amlinellu'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhybuddion statudol am ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r cynnig gwreiddiol.

*Ar ôl datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod tra oedd y drafodaeth yn mynd rhagddi a thra gwnaed penderfyniad.*

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid fod yr adroddiad yn cael ei wneud mewn ymateb i'r broses statudol. Cafodd y Rhybudd Statudol ei gyhoeddi ar 2 Hydref, 2018 gyda'r cyfnod 28 diwrnod ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau yn dod i ben ar 29 Hydref, 2018. Roedd 111 o wrthwynebiadau wedi'u derbyn, ac roedd 109 o'r rhain wedi'u derbyn ar ffurflen safonol fel yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, bod rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fel y cynigydd gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd. Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 sy'n rhoi manylion am natur y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd gan fudd-ddeiliaid. Gellir grwpio'r rhain yn fras o dan y themâu Cludiant a Theithio, Dewis, cynnal y Broses Ymgynghori, a dyfodol y Ganolfan Gymunedol ac Adeilad yr Ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu ymateb yr Awdurdod i'r gwrthwynebiadau.

Dywedodd y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS, Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ac Aelod Lleol, fod dau brif fater o bryder yn lleol sef natur beryglus y rhwydwaith ffyrdd lleol yng nghyffiniau'r safle a ffafrir ar gyfer yr ysgol newydd a goblygiadau hynny i'r disgyblion a fydd yn teithio i'r ysgol newydd o Fodffordd, a hefyd dyfodol y Ganolfan Gymunedol ym Modffordd sy'n ffurfio rhan o'r ysgol ac a fydd yn parhau i fod ar gael i'w defnyddio gan y gymuned ar ôl i'r ysgol gau. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y posibilrwydd

o weithredu mesurau traffig yn ardal yr ysgol newydd wedi cael ei ystyried gydag arbenigwyr allanol, a daethpwyd i'r casgliad fod angen cylchfan ar y B5109 i ddarparu mynediad i'r ysgol. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu p'un a fydd yn darparu cludiant i'r ysgol gynradd newydd ai peidio yn dilyn asesiad diogelwch ar y llwybr teithio. O ran y ganolfan gymunedol, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Chyngor Cymuned Bodffordd i ystyried ffyrdd o gynnal y neuadd gymuned yn unol â phenderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid fod y mater hwn wedi bod dan ystyriaeth ers dros ddwy flynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi bod yn destun trafodaeth helaeth trwy broses ymgynghori statudol ac anstatudol. Cafodd y broses ei hoedi hefyd er mwyn ailystyried yr opsiynau ar gyfer yr ardal hon. Er ar un llaw fod y cynnig yn golygu bod ysgol yn cau, sydd wastad yn gynnig anodd, ar y llaw arall bydd yr ardal yn cael ysgol newydd sbon a fydd yn ei gwasanaethu am nifer o flynyddoedd i ddod.

Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith y pwyntiau canlynol wrth ystyried yr adroddiad -

- Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith eto y pwysigrwydd o ganfod ffyrdd o sicrhau adnodd at ddefnydd y gymuned pan fo ysgol y gymuned yn cau.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod llythyrau oedd wedi cael eu hanfon gan rai rhieni yn yr ardal at aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi derbyn ystyriaeth a bod eu cynnwys wedi'i adlewyrchu yn adroddiad y Swyddog.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod cynllun amgen a gynigiwyd gan Cymdeithas yr Iaith wedi cael ei ystyried yn gynharach yn y broses.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith ei fod wastad wedi cydnabod bod cau ysgol yn gwrs anodd i'w gymryd; caiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud ar y cyd gan roi ystyriaeth i ystod eang o wybodaeth yn cynnwys arweiniad proffesiynol y Swyddogion gyda'r bwriad o sicrhau'r opsiwn gorau ar gyfer pob ardal.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r cynigion gwreiddiol sef – cynnig peidio â chefnogi Ysgol Bodffordd, Bodffordd, Ynys Môn, LL77 7LZ ac Ysgol Corn Hir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7JB sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn a sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle ysgol newydd ar dir ger stad Bryn Meurig, Llangefni, LL77 7JB ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.**
- **Awdurdodi Swyddogion i barhau gyda'r broses o adeiladu ysgol gynradd newydd ar dir ger stad Bryn Meurig (yn amodol ar i'r safle fod yn addas).**

### 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

### 11. MODERNEIDDIO YSGOLION YNYS MÔN – ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL AC ACHOS BUSNES AMLINELLOL (ASA/ABA) CYFUNEDIG AR GYFER ADEILAD CYFNOD SYLFAEN NEWYDD YN YSGOL Y GRAIG

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (AAS/ABA) cyfunedig ar gyfer ehangu Ysgol y Graig trwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn.



DRAFT

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid fod yr adroddiad ASA/ABA yn dechnegol ei natur ac yn gosod y seiliau strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol ar gyfer ehangu Ysgol y Graig trwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn yn unol â phroses Achos Busnes y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif ar gyfer cyllid cyfalaf i'r prosiect.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod yr ASA/ABA yn cyflwyno'r achos dros foderneiddio'r ysgolion yn rhan ddwyreiniol Llangefni, ac mai'r ffordd ymlaen a ffafrir yw adeiladu Bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig i dderbyn y nifer cynyddol o ddisgyblion yn y dalgylch ac i gymryd y disgyblion o Ysgol Talwrn a fyddai wedyn yn cau. Rhoddodd y Swyddog grynodeb byr o brif adrannau'r adroddiad a oedd yn cynnwys costau disgwyliedig y prosiect, y fanyleb ar gyfer yr adeilad, y safle posib ar gyfer y bloc newydd, y broses gaffael arfaethedig a'r amserlen dan sylw ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2018 lle roedd yr ASA/ABA wedi'i gyflwyno. Rhoddodd grynodeb o safbwyntiau'r Pwyllgor ar y mater a nododd nad oeddent o reidrwydd yn adlewyrchu ei safbwyntiau ef ei hun, fel a ganlyn –

- Codwyd pryderon am y lleoliad a ffafrir ar gyfer yr estyniad i'r Ysgol y Graig bresennol, ail-leoli'r maes parcio a'r heriau sy'n gysylltiedig â rhedeg yr ysgol o ddau adeilad ar wahân.
- Mynegwyd pryderon hefyd am draffig a materion yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd yng nghyffiniau'r safle tra byddai'r gwaith adeiladu yn mynd ymlaen.
- Roedd y Pwyllgor yn glir ynghylch yr angen i fireinio costau terfynol y prosiect yn barhaus unwaith y gwneid penderfyniad am union leoliad yr estyniad arfaethedig a'r maes parcio.
- Er yn cydnabod bod yr achos Strategol a Busnes ar ffurf amlinellol yn unig ar hyn o bryd, teimlai'r Pwyllgor fod y wybodaeth a ddarparwyd yn rhy fras a'i fod yn amwys ar nifer o bwyntiau.
- Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r eglurhad a roddwyd gan y Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r ASA/ABA ac yn cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru.

Wrth ddiolch i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am ei sylwadau, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno bod angen lleoli'r Bloc Cyfnod Sylfaen newydd mor agos â phosib at adeilad presennol Ysgol y Graig ac y dylai ymdrechion i gyflawni hyn barhau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -**

- **Yr Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol cyfunedig (ASA/ABA) ar gyfer ehangu Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn.**
- **Cyflwyno'r ASA/ABA i Lywodraeth Cymru, a**
- **Neilltuo derbyniadau cyfalaf i ariannu adeiladu'r adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn amodol ar i ddim problemau godi gyda gwerthu'r safle(oedd).**

**12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 13. DATBLYGU SAFLE I SIPSIWN A THEITHWYR, STAR

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai ar ddatblygu'r lle aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn Star. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r costau cyllideb cyfalaf angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r prosiect ar y safle yn Star ynghyd â'r costau refeniw ailadroddus dangosol ar gyfer rhedeg y safle yn y dyfodol.

*Am eu bod wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, gadawodd y Cynghorwyr R. Meirion Jones, Alun Mummery a Robin Williams y cyfarfod tra oedd y drafodaeth yn mynd rhagddi a thra gwnaed y penderfyniad.*

Ymhelaethodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ar gostau datblygu'r prosiect a'r amserlen, y broses dendro arfaethedig, y costau refeniw blynyddol sy'n parhau ar gyfer y safle ac ystyriaethau cysylltiedig.

Wrth nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith y pwyntiau a ganlyn –

- Y dylid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio fframweithiau caffael eraill yn ogystal â GwerthwchiGymru.
- Y dylid cyflymu'r amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect fel bod modd cwblhau'r prosiect yn gynt
- Os yw'n bosib, dylid talu am y costau refeniw parhaus ar gyfer y safle o'r incwm a grëir o'r safle heb orfod defnyddio arian o Gyllideb Refeniw y Cyngor.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Caffaeliad y tir yn Star ar gyfer y safle.**
- **Y costau cyllideb cyfalaf ynghlwm â'r prosiect o ddarparu'r safle stopio dros dro yn Star.**
- **Y gwaith tendro ar gyfer datblygiad y safle yn Star yn seiliedig ar yr amcan-brisiau a ddarparwyd a/neu o ganlyniad i ddefnyddio fframweithiau eraill.**
- **Yr amserlen sydd wedi'i hamlinellu ar gyfer datblygu'r safle yn Star.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod ar 10 Rhagfyr, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Caroline Turner, (Prif Weithredwr Cynorthwyol/ Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) (yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau)<br>Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)<br>Liz Fletcher (BIPBC)<br>Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Llyr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth, Ymyrraeth Ddwys)<br>Keith Walters (Arweinydd Ymarfer – Tîm Lleoli Plant)<br>Dawn Owen (Tîm Lleoli Plant)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant Mewn Gofal)<br>Llinos Edwards (Nyrs Plant Mewn Gofal)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr a Chadeirydd), Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid) Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr – Safonau a Chynhwysiad Ysgolion) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Hywel Meredith (Cadeirydd – Panel Maethu Môn) (fel arsylwr) |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD AR 10 MEDI, 2018**

Cyflwynwyd y cofnodion o gyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

- **Recriwtio a'r Strategaeth Faethu**

O ran recriwtio Gofalwyr Maeth, rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wybod i'r Panel fod Pwyllgor Gwaith y Cyngor wedi mabwysiadu pecyn newydd o fuddion ar gyfer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod yn ddiweddar. Mae'r pecyn yn cynnwys lwfans maethu uwch, gostyngiad o 10% ar y Dreth Gyngor; cerdyn aelodaeth am ddim i Wasanaethau Hamdden Ynys Môn a thocyn parcio am ddim ym meysydd parcio y Cyngor. Dywedodd y Swyddog fod y pecyn estynedig wedi'i gyflwyno er mwyn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan ofalwyr maeth presennol yr Awdurdod, ond

hefyd mewn ymdrech i recriwtio mwy o ofalwyr maeth gan gynnwys y rheini sydd eisoes yn maeth i asiantaethau preifat ac unigolion sy'n newydd i faethu ond sydd efallai'n ystyried gwneud yr ymroddiad. Mae recriwtio rhagor o ofalwyr maeth yn golygu y gall y Cyngor gynnig mwy o leoliadau i gwrdd â'r galw uwch am leoliadau ar gyfer plant mewn gofal. Er bod y Cyngor yn cydnabod nad mantais ariannol yw'r prif sbardun i ofalwyr maeth, ystyrir y bydd darparu pecyn mwy cystadleuol o lwfansau a buddion yn gymorth i ymdrechion recriwtio yr Awdurdod.

- **Adroddiad Arolwg Dilynol AGC**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Panel fod Arolygiaeth Gofal Cymru heddiw wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau o'i adolygiad dilyn-i-fyny o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gynhaliwyd ym mis Hydref. Mae hyn yn dilyn ei arolwg beirniadol o'r Gwasanaeth ym mis Tachwedd, 2016 – mewn ymateb i'r arolwg roedd y Gwasanaeth wedi datblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth cynhwysfawr ac mae wedi bod yn ei weithredu byth ers hynny. Mae adroddiad adolygiad dilynol AGC yn cadarnhau bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd allweddol ac mae'n nodi bod morâl staff yn uchel a bod angerdd ac ymroddiad ar bob lefel i gyflwyno gwasanaethau rhagorol i blant. Dywedodd y Swyddog fod angen gwneud gwaith pellach fel mae'r adroddiad yn ei gydnabod; mae'r Gwasanaeth yn ymroddedig i sicrhau y bydd yn rhoi sylw llawn i'r meysydd datblygu y mae'r adolygiad yn eu hamlygu.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod rhaid diolch i bawb sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn cynnwys ei staff, gofalwyr maeth, y plant a'r bobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod a phartneriaid y Gwasanaeth am gefnogi'r Gwasanaeth wrth wneud y gwelliannau sy'n cael eu cydnabod gan AGC.

**CAM GWEITHREDU Y CYTUNWYD ARNO: Y Swyddog Pwyllgor i rannu'r linc i wefan Canfyddiadau AGC gydag aelodau'r Panel.**
https://arolygiaethgofal.cymru/181210-gwelliant-sylweddol-iw-weld-yng-ngwasanaethau-plant-ynys-mon-adroddiad?_ga=2.213156886.360919961.1546870413-54700662.1526571877

## 4 STRATEGAETH RECRIWTIO A CHADW GOFALWYR MAETH

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Gwasanaeth wedi bod yn awyddus i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r pecyn Gofal Maeth newydd y cyfeirir ato uchod cyn adolygu a diweddaru ei Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth. Nawr fod y pecyn wedi'i gymeradwyo, bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ei sylw ar y Strategaeth gyda'r bwriad o ddod â fersiwn drafft i'r Panel yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth, 2019.

Dywedodd y Swyddog, yn y cyfamser y byddai'r Gwasanaeth yn dal i recriwtio ac y bydd yr ymdrech i recriwtio yn parhau tra bod y strategaeth yn cael ei diweddaru. Bydd gwybodaeth am y pecyn Maethu newydd hefyd yn cael ei chylchredeg a'i gwneud yn gyhoeddus.

**Cytunwyd i nodi'r sefyllfa ac i nodi hefyd y bydd y Panel yn derbyn fersiwn drafft o'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth ym mis Mawrth, 2019.**

**CAM GWEITHREDU Y CYTUNWYD ARNO: Arweinydd Ymarfer – Tîm Lleoli Plant i ddod â fersiwn drafft o'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth i'r Panel ym mis Mawrth, 2019**

## 5 BRIFF PROSIECT 'VOICES FROM CARE' I GYD-GYNHYRCHU STRATEGAETH I YNYS MÔN AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL A GADAWYR GOFAL

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth (Ymyrraeth Ddwys) ar fenter gyda Voices from Care Cymru – un o'r asiantaethau gwirfoddol sy'n arwain yng Nghymru ar weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal – er mwyn datblygu grŵp cyfranogi ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i helpu i gyd-gynhyrchu Strategaeth i Ynys Môn ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal.

Dywedodd y Swyddog y bydd y prosiect yn cynnwys Voices from Care Cymru yn sefydlu grŵp cyfranogi misol ar gyfer plant a phobl ifanc 11 – 25 oed sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Byddai'r grŵp cyfranogi yn cefnogi Ynys Môn i ddatblygu ei Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal a byddai'n darparu llwyfan sy'n cefnogi meithrin perthynas rhwng pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal a'u rhieni corfforaethol yn Ynys Môn. Byddai'r grŵp yn datblygu ei hunaniaeth ei hun ac yn cyd-gynhyrchu ystod o ddeunydd hyrwyddo a marchnata a byddai hefyd yn datblygu cyfres o adnoddau, gan gynnwys siarter rhiantu corfforaethol a digwyddiad lansio, sy'n unigryw i Ynys Môn. Fel mudiad, bydd Voices from Care Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth fel cyfaill beirniadol ar gyfranogi a rhiantu corfforaethol

O safbwynt y Cyngor, byddai'r Cyngor yn rhan o hyn drwy gefnogi'r gwaith o ddosbarthu gwybodaeth am y grŵp a'i waith; aelod o staff i gefnogi sesiynau; byddai pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn ymgysylltu gyda'r panel Rhiant Corfforaethol a chyrff ar Ynys Môn gan arwain at gyd-gynhyrchu cynllun gwaith gyda Voices from Care a phobl ifanc. Rhagwelir y byddai'r prosiect yn rhedeg am o leiaf blwyddyn ar gost o £16,500 y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth (Ymyrraeth Ddwys) at enghreifftiau o waith blaenorol mae Voices from Care Cymru wedi'i wneud gydag awdurdodau lleol eraill e.e. cyfres o weithdai yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf er mwyn cynhyrchu Siarter Rhiantu Corfforaethol ar gyfer Aelodau Etholedig. Pwysleisiodd fod canfod ffyrdd o ymgysylltu'n effeithiol gyda'r plant a'r bobl ifanc y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt a chynyddu eu cyfranogiad yn y prosesau sy'n cyfrannu at siapio eu gofal e.e. yn y broses adolygu neu wrth adrodd yn ôl am eu profiadau i'r Panel Rhiant Corfforaethol, yn un o'r amcanion gwella yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth. Mae angen i'r Awdurdod ddangos ei fod yn gwrando fel mater o drefn ar y plant a'r bobl ifanc y mae'n gofalu amdanynt a bod eu safbwyntiau yn dylanwadu ar sut y datblygir polisi ac arferion sy'n arwain at gylch o welliant parhaus. Felly, wrth gynnig ffurfio grŵp cyfranogi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal, mae'r prosiect yn gobeithio sefydlu mecanwaith i'w galluogi i ddweud eu barn a fydd dal yn bodoli ar ôl i'r prosiect ddod i ben, ac i sicrhau hefyd fod y mewnbwn sydd ganddynt yn ystyrlon drwy helpu i gyd-ddatblygu a chyd-gynhyrchu Strategaeth yr Awdurdod ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod ymdrech barhaus wedi bod i wella'r agwedd hon ar waith y Gwasanaeth gyda'r nod tymor hir o wreiddio cyfranogiad yn rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Wrth ystyried y cynnig roedd y Panel yn gytûn ar y pwyntiau canlynol –

- Bod rhaid gwneud y prosiect yn ddwyieithog.
- Y dylid mynd at bartneriaid y Gwasanaeth (mewnol ac allanol) – Iechyd, Addysg, Tai a Heddlu Gogledd Cymru i weld a fyddent yn fodlon cyfrannu at gost unwaith-ac-am-byth y prosiect.
- Y dylid gwneud ymholiadau gyda'r Swyddog Adran 151 i weld a yw'r prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael cyllid o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac/neu o Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Stad Elusennol David Hughes).



DRAFT

- Y dylai ymgysylltiad y grŵp cyfranogi gyda'u rhieni corfforaethol ddigwydd mewn lleoliad llai ffurfiol na chyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol. Dylid ystyried sut gellid gwneud hyn orau gyda'r awgrym fod aelodau'r Panel yn cwrdd â'r grŵp mewn lleoliad lle mae'r plant a'r bobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus.

**Cytunwyd fod y Panel yn gefnogol i'r prosiect a'i nodau ac amcanion.**

**CAMAU GWEITHREDU Y CYTUNWYD ARNYNT: Y Rheolwr Gwasanaeth (Ymyrraeth Ddwys) i –**

- **Gadarnhau gyda Voices from Care Cymru y gall gwrdd â gofynion dwyieithrwydd yr Awdurdod wrth ymgymryd â'r prosiect.**
- **Mynd at bartneriaid mewnol ac allanol y Gwasanaeth i weld a ydynt yn gallu cyfrannu'n ariannol at gost y prosiect.**
- **Gwneud ymholiadau gyda Swyddog Adran 151 y Cyngor i weld a yw'r prosiect yn gymwys am gyllid o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac/neu o Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Stad Elusennol David Hughes).**

**6 ADRODDIAD GWASANAETH – IECHYD**

Cyflwynwyd i'r Panel eu hystyried – adroddiad y Nyrs PDG ar nifer yr asesiadau iechyd PDG a'r Adolygiadau o Asesiadau Iechyd a wnaed yn ystod Chwarteri 1 a 2 2018/19.

Adroddodd y Nyrs PDG ar y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Roedd 21 o asesiadau iechyd cychwynnol ar PDG yn Ynys Môn i fod i ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y pediatryddon yn y gymuned wedi gweld 19, roedd un person ifanc wedi gadael gofal ac roedd un person ifanc wedi gwrthod cael ei weld. Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau asesiadau iechyd cychwynnol yn dal i fod yn broblem.
- Roedd 71 o adolygiadau asesiadau iechyd ar Ynys Môn i fod i ddigwydd; fe wnaed 67, gyda 52 yn cael eu gwneud gan weithwyr iechyd proffesiynol BIPBC sy'n gweithio ar Ynys Môn sef 10 gan nyrs ysgol ac 14 gan ymwelydd iechyd, 27 gan y Nyrs PDG ac 1 gan baediatregydd.
- Wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal barhau i gynyddu, mae hyn yn rhoi pwysau ar yr holl wasanaethau sydd ynghlwm. Mae nifer o blant y sir sy'n derbyn gofal yn parhau i gael newidiadau i'w gweithwyr cymdeithasol enwebedig, serch hyn mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw i hyn.
- Mae ailstrwythuro'r Tîm Maethu wedi arwain at golli gweithwyr cymdeithasol profiadol gydag effaith bosib ar y cyfle i recriwtio, asesu, cefnogi a chynnal gofalwyr maeth cyfredol yr awdurdod lleol.
- Mae plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu ysgafn i gymedrol yn ei chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau os nad oes ganddynt IQ ddigon isel.
- Nid yw lansiad y llwybr ar gyfer iechyd meddwl Plant sy'n Derbyn Gofal wedi digwydd hyd yma, ac yn ddiweddar mae'r ymgynghoriadau CAMHS wedi bod yn gyfyngedig oherwydd materion staffio. Awgrymir fod cynrychiolaeth flynyddol CAMHS ar y Panel Rhiant Corfforaethol yn eithriadol o bwysig. Gall anawsterau godi pan fydd plant sy'n derbyn gofal yn symud ardaloedd pan fo BIPBC yn gweithio ar sail tair ardal o fewn y rhanbarth sy'n golygu efallai fod y Llwybr CAMHS yn cael ei weithredu'n wahanol yn un o'r ardaloedd eraill.

Fe wnaeth y Panel y pwyntiau canlynol wrth ystyried yr adroddiad –

- Nododd y Panel ac fe'i cynghorwyd fod yr adolygiad o'r Gwasanaethau Maethu a Chefnogaeth yn dilyn ailstrwythuro'r timau gynt o fewn y Gwasanaeth Plant a'r bwriad oedd i'r adolygiad ddigwydd ar ôl i'r timau eraill gael eu hadolygu. Mae disgwyl bellach i'r Tîm Maethu weithio mewn ffordd wahanol fel bod asesiadau'n cael eu gwneud yn gynt fel y gellir cymeradwyo gofalwyr maeth yn gynt gan felly gynyddu'r

lleoliadau sydd ar gael yn lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yr Awdurdod. Gall ailstrwythuro fod yn anodd i'r timau sy'n mynd drwyddo ar y pryd, ond ei fwriad yw creu prosesau mwy llyfn ac effeithlon a chynhyrchu canlyniadau gwell yn y tymor hir.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd nad Gweithwyr Cymdeithasol yw'r unig ffynhonnell o gefnogaeth i ofalwyr maeth a bod y Swyddogion Adolygu Annibynnol, y Nyrs PDG a/neu'r Swyddog Cyswllt Addysg PDG ar gael i roi cefnogaeth neu i ateb cwestiynau pe bai'r gofalwyr maeth eu hangen. Gall gofalwyr maeth hefyd gael cefnogaeth ac arweiniad trwy gael sgwrs gyda gofalwyr maeth eraill. Felly ni ddylid meddwl mai dim ond y Gweithwyr Cymdeithasol sy'n gallu darparu cefnogaeth, gan fod ffurfiau eraill o gefnogaeth ar gael.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn raddol dros gyfnod o amser, wedi gallu penodi Gweithwyr Cymdeithasol ar sail barhaol gan felly leihau dibyniaeth y Gwasanaeth ar staff asiantaeth a chreu mwy o sefydlogrwydd a chysondeb. Bydd yna wastad elfen o drosiant staff wrth i unigolion ddatblygu eu gyrfaoedd a symud ymlaen. Tra bod nifer y plant a'r bobl ifanc sydd angen gofalu amdanynt wedi cynyddu'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i 161 ar hyn o bryd, yn hanesyddol mae'r niferoedd hynny ar Ynys Môn wedi bod yn isel iawn. Mae rhai achosion hanesyddol lle nad oedd yr Awdurdod efallai wedi ymateb yn briodol yn cael eu hadolygu gan Dîm Etifeddiaeth a grëwyd at y diben hwn, ac mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn rhannol o ganlyniad i waith y tîm hwn.

- Nododd y Panel o ran materion iechyd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mai dim ond mewn un achos o'r 67 unigolyn a aseswyd y cafodd pryderon iechyd meddwl eu hadnabod. Ceisiodd y Panel eglurhad p'un a oedd yr un achos hwn yn gynrychioladol ynteu a oes rhagor o unigolion yn debygol o fod angen cefnogaeth.

  Dywedodd y Nyrs PDG fod nifer uchel o asesiadau yn digwydd yn y gorffennol, pryd mewn gwirionedd efallai mai'r cwbl oedd ar y plentyn mewn gofal ei angen oedd sefydlogrwydd ac amser i setlo yn y lleoliad cyn cael ei asesu, gan gofio bod cael eu symud o'u cartref a'u rhoi mewn gofal maeth yn newid byd iddynt beth bynnag. Mae'r defnydd o Adroddiad Gofalwr fel rhan o'r Llwybr CAMHS nawr yn galluogi'r plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal i gael ei asesu'n holistaidd gan gymryd pob agwedd o lesiant yr unigolyn i ystyriaeth, a gellir ei ddefnyddio yn yr ymgynghoriad CAMHS i gytuno ar ffordd ymlaen p'un a yw hynny trwy asesiad pellach neu'n syml drwy gael yr ysgol neu'r gofalwyr maeth i newid eu dull. Nid oes angen asesiad llawn gan CAMHS bob tro. Felly ni ystyrir fod yr un achos lle'r adnabuwyd pryderon iechyd meddwl yn nifer afresymol o isel gan fod y data ar gyfer chwarter 1 a 2 yn unig ac nid oes gan bob plentyn sy'n derbyn gofal faterion iechyd meddwl.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad ac i nodi'r sefyllfa mewn perthynas ag asesiadau iechyd PDG ar gyfer chwarteri 1 a 2 2018/19.**

**CAM GWEITHREDU Y CYTUNWYD ARNO: Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i ymgysylltu â CAMHS i gytuno ar yr amser mwyaf manteisiol i Ymarferydd CAMHS wneud ymweliad blynyddol â'r Panel Rhiant Corfforaethol**

**7 ADRODDIAD GWASANAETH – LLEOLI PLANT**

Cyflwynwyd adroddiad y Tîm Lleoli Plant ar gyfer Chwarter 1 a 2 2018/19 i'r Panel ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ystadegol am y canlynol –

- Nifer y lleoliadau yn ôl math
- Nifer a math y cyfeiriadau a dderbyniwyd
- Nifer yr asesiadau ar ofalwyr maeth prif ffrwd

- Nifer y cyfeiriadau am asesiadau hyfywdra ar aelodau teulu fel gofalwyr amgen ac asesiad Rheoliad 26 ar deuluoedd, a'r cynnydd gyda hynny
- Cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd i ofalwyr maeth yr Awdurdod
- Y sefyllfa staffio
- Diweddariad ar weithio'n rhanbarthol
- Materion y mae angen rhoi sylw iddynt, yn benodol yr angen i recriwtio gweithiwr cymdeithasol llawn amser i'r tîm yn lle aelod o staff parhaol a fydd yn gadael ym mis Rhagfyr, ac i barhau i flaenoriaethu'r ymdrech i gadw gofalwyr maeth.

Wrth ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, fe wnaeth y Panel y pwyntiau a ganlyn –

- Nododd y Panel fod nifer o blant yr Awdurdod sy'n derbyn gofal wedi eu lleoli gyda theulu a ffrindiau ar Ynys Môn (26.16%) a hefyd gyda Gofalwyr Maeth yr Awdurdod ei hun (19.12%) a Gofalwyr Maeth preifat yn Ynys Môn (18.11%) sy'n adlewyrchu amcan y Gwasanaeth o ddarparu gofal i blant sy'n derbyn gofal mor lleol â phosib, ac sydd hefyd yn adlewyrchu bod lleoliadau ar gael ar yr Ynys er bod yr Awdurdod yn ceisio gwella'r ystod o leoliadau ymhellach er mwyn cwrdd â'r galw.
- Nododd y Panel fod llawer iawn o waith ynghlwm â chynnal asesiadau hyfywdra ar ffrindiau a theulu, lle nad yw'r deilliant yn nhermau'r nifer sy'n cael eu cymeradwyo bob tro yn gyfystyr â'r mewnbwn.

  Dywedwyd wrth y Panel, os nad yw plentyn yn gallu aros gyda'i rieni, yna'r opsiwn gorau wedi hynny yw bod y teulu estynedig yn gofalu am y plentyn, a dyma'r trywydd y mae'r Awdurdod yn ceisio ei ddilyn. Fodd bynnag, mae gofynion y broses asesu yn enwedig o ran yr amserlen yn rhoi pwysau ar y Tîm Maethu.

- Nododd y Panel nad oes unrhyw wybodaeth wedi dod i law gan AGC ynglŷn â phryd bydd yr arolwg maethu nesaf yn digwydd ac nad yw'r Gwasanaeth wedi derbyn arolwg yn y 2 i 3 blynedd flaenorol. Fodd bynnag, nododd y Panel ymhellach fod awdurdod cyfagos wedi cael ei arolwg maethu cyntaf yn ddiweddar o dan y fframwaith arolygu newydd.

  **Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi sefyllfa'r Tîm Lleoli Plant ar gyfer Chwarter 1 a 2 2018/19.**

  **NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 9 ADRODDIAD GWASANAETH – ADDYSG

Cyflwynwyd i'r Panel ei ystyried – adroddiad y Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn ymgorffori gwybodaeth am berfformiad am y 6 mis o Ebrill i Hydref, 2018. Roedd yr adroddiad hefyd yn ymgorffori gwybodaeth am gyraeddiadau addysgol unigol y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod ar hyn o bryd.

Adroddodd y Swyddog Cyswllt Addysg PDG ar y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Roedd 18 o Gynlluniau Addysg Personol i fod eu gael eu cwblhau ym mis Medi, 2018; derbyniwyd 15 ar amser ond roedd 3 yn hwyr am amryw o resymau – salwch staff, roedd 2 yn lleoliadau all-sirol ac roedd 1 yn lleoliad cartref preswyl. Fodd bynnag, derbyniwyd y cynlluniau ym mis Hydref.

- Fel y disgwyliwyd, roedd nifer o blant sy'n derbyn gofal yr Awdurdod wedi symud ysgolion ym mis Medi; er bod y mwyafrif o'r newidiadau yn rhai trosiannol, roedd pump oherwydd rhesymau eraill – trosglwyddo i leoliad tymor hir, trosglwyddo i gartref preswyl arbenigol, newid ysgol oherwydd anghenion dysgu, newid ysgol ar ôl i'r plentyn symud trwy drefniant llwyddiannus.
- Bu'n rhaid gwneud cwyn i Grŵp Cynhwysiad Ynys Môn a Gwynedd ar sail oedi gyda gwneud trefniadau addysgol ar gyfer un o'r plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod oherwydd diffyg gweithredu amserol. Mae'r plentyn bellach yn derbyn addysg.
- Bu'n rhaid gohirio y cyfarfod rhwydwaith blaenorol am y tro cyntaf mewn 3 blynedd oherwydd nad oedd digon yn gallu mynychu. Roedd hyn yn siomedig ac mae'n peri pryder oherwydd efallai nad yw Penaethiaid yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y plant bregus yn eu hysgolion. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach gyda Swyddogion Addysg.
- Mae'r pecyn addysg amgen – "Pecyn 25" (25 awr yr wythnos) – yn llawn ac mae'n adlewyrchu'r galw sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc CA4 nad ydynt yn gallu mynychu addysg prif ffrwd oherwydd amryw o broblemau. Mae un person ifanc sy'n derbyn gofal yn methu cael lleoliad o fewn y Pecyn oherwydd materion penodol.
- Mae plant sy'n derbyn gofal yr Awdurdod wedi cyflawni canlyniadau rhagorol yn eu harholiadau eleni ac mae dau wedi mynd ymlaen i addysg Brifysgol.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y dangosydd perfformiad y llynedd ar gyfer nifer y plant a oedd wedi profi newid ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod o fod mewn gofal, lle nad oedd hynny o ganlyniad i symud o'r cynradd i'r uwchradd, wedi cael ei gategoreiddio'n Goch, felly nid yw 5 yn nifer i bryderu gormod yn ei gylch. Mae'r Awdurdod yn ceisio cadw lleoliadau ysgol y plant mae'n gofalu amdanynt yn yr ardal leol hyd yn oed os yw hynny'n golygu darparu'r cludiant angenrheidiol sy'n gallu bod yn ddrud. Fodd bynnag, weithiau mae er lles y plentyn/person ifanc i newid ysgol yn enwedig os yw hynny'n golygu bod anghenion y plentyn yn cael eu bodloni mewn modd mwy priodol.

O edrych ar lwyddiannau addysgol y plant a'r bobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod, nododd y Panel eu bod ar y cyfan yn cyflawni eu potensial ac yn cwrdd â disgwyliadau'r Awdurdod ohonynt o ran cyrhaeddiad addysgol.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad ac i nodi'r sefyllfa mewn perthynas ag addysg plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**10 Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Panel Rhiant Corfforaethol am 2:00 p.m. ar ddydd Llun, 18 Mawrth, 2019.

**Dr Caroline Turner**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Ionawr 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror - Medi 2019;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror - Medi 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Chwefror - Medi 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ymgynghoriad ar Strategaeth Doiledau** | Deil.ydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (dros dro)<br><br>Cyng R G Parry OBE | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Ionawr/Chwefror 2019 | |
| | | | | **Chwefror 2019** | | | |
| 2 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 3 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Chwefror 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 4 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 6 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 7 | **Strategaeth Gyfalaf** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |
| 8 | **Cyllideb Gyfalaf 2019/20** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | 27 Chwefror 2019 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 10 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 11 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 12 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2019/20** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 14 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad: 4.5 Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini – 4.5.4 Cynrychiolwyr Addysg**<br><br>Dileu cymal 4.5.4.4 (un cynrychiolydd i gredoau neu enwadau eraill) | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini<br>28 Ionawr 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 15 | **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN)**<br><br>Dirprwyo i Gyngor arall yr awdurdod i gweithredu'r Prosiect. | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd /<br>Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 - yn amodol ar gael adroddiad rhanbarthol cytunedig. | |

*Tudalen 28*

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Adroddiad Cynnydd a Chynllun Gweithredu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019 | |
| 17 | **Polisi Cludiant Ysgolion**<br><br>Cymeradwyo polisi newydd. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | Panel Sgriwtini Cyllid<br>25 Ionawr 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>4 Chwefror 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Chwefror 2019<br>(i'w gadarnhau) | |
| **Mawrth 2019** | | | | | | | |
| 18 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2017/18**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2019 | |
| | | | | | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 21 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>27 Chwefror 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 22 | **Darpariaeth hamdden ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**<br><br>Mabwysiadu Model Cyflawni Amgen newydd ar gyfer Canolfannau Hamdden a chefnogi rhaglen buddsoddi cyfalaf. | Penderfyniad ar gyfer y Pwyllgor Gwaith o ganlyniad i'r newid posibl i'r ddarpariaeth hamdden ar Ynys Môn ynghyd ag effeithiau posibl ar incwm a gwariant y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>12 Mawrth 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

*Allwedd:*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Polisi Taliadau Tai Dewisol** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 24 | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach – Adroddiad Blynyddol** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 25 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 26 | **Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |

Tudalen 31

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar wrthwynebiadau i adnewyddu ac ehangu Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| 28 | **Moderneiddio ysgolion – Adroddiad ar wrthwynebiadau i ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn** | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Mawrth 2019 | |
| **Ebrill 2019** | | | | | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mai 2019** | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2019 | |
| | | | | **Mehefin 2019** | | | |
| 31 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018/19**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2019 | |
| 32 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2019 | |
| 33 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 34 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2019 | |
| | | | | **Gorffennaf 2019** | | | |
| 35 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Gorffennaf 2019 | |
| | | | | **Medi 2019** | | | |
| 36 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Medi 2019 | |
| 37 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2019

Diweddarwyd 18 Ionawr 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 38 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2019 | |

Tudalen 35

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 Ionawr 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad ar Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Mae'n berthnasol i bob Aelod |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**Cefndir**

Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ail arolygiad manwl o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Cynhaliwyd yr ail arolygiad hwn yn dilyn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod mis Tachwedd 2016 a ddaru arwain i AGC gael "pryderon sylweddol" am y gwasanaethau darparwyd i blant yn Ynys Môn.

Yn dilyn arolygiad 2016, aeth Cyngor Sir Ynys Môn ati ar unwaith i weithredu Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGC) 3 blynedd a gafodd ei fonitro'n agos gan AGC. Gwnaed nifer o newidiadau yn ystod y daith tuag at welliant, gan gynnwys sefydlu Panel Gwella'r Gwasanaethau Plant sydd wedi bob yn cyfarfod yn fisol ac sy'n cynnwys Aelodau Etholedig yn ogystal ag Uwch Swyddogion yn y Cyngor. Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd wedi cael ei gryfhau ac mae'r gwasanaeth wedi cael ei hailstrwythuro. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio a dal gafael mewn staff yn ystod y cyfnod hwn gyda hynny yn ei dro wedi cynyddu'r capasiti o ran staffio. Mae gan y gwasanaeth bellach Fframwaith Sicrwydd Ansawdd mewn lle; Fframwaith Perfformiad mewn lle; model risg ac mae Polisi Goruchwyliaeth newydd wedi cael ei weithredu. Mae rheolwyr â throsolwg cryfach ac mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda phartneriaid i wella'r trefniadau cydweithio. Bu Tîm Cymorth Annibynnol yn cefnogi'r gwasanaeth i wneud y gwelliannau yn ystod y cyfnod hwn.

Bu i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ymgorffori'r 14 o argymhellion gwnaed gan AGC yn Mawrth 2017. Ar y cychwyn roedd 21 o flaenoriaethau yn Goch yn y CGC ym mis Chwefror 2017, ac mae pob un wedi cael eu gyrru ymlaen, ac erbyn hyn, nid oes yr un ohonynt yn Goch. Mae'r 21 blaenoriaeth wedi symud ymlaen i 13 yn Wyrdd (wedi cwblhau); 6 yn Felyn (ar y trywydd iawn) a 2 yn Ambr (mwy o waith i'w wneud):

| CAMG | Chwefror 2017 | Mai 2018 | Medi 2018 | Tachwedd 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Coch | 21 | 0 | 0 | 0 |
| Ambr | 0 | 5 | 3 | 2 |
| Melyn | 0 | 10 | 8 | 6 |
| Gwyrdd | 0 | 6 | 10 | 13 |

**Ailarolygiad o Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Hydref 2018**

Roedd yr ailarolygiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff teuluoedd eu grymuso i gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir i blant y mae angen help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad arnynt.

Fe aeth AGC ati i werthuso ansawdd yr ymarfer, y prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith amlasiantaeth gan gynnal ffocws clir ar effaith y gwasanaethau ar blant a theuluoedd, mewn perthynas â'r canlynol:

- cael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys darparu gwasanaethau atal/cymorth cynnar
- asesu;
- diogelu;
- cynllunio/adolygu gofal a chymorth

Ac

- ansawdd y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu sydd ar waith ac sy'n datblygu ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd.

Mae’r adroddiad ar arolygiad mis Hydref 2018, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2018, yn dwyn sylw at y *gwelliant sylweddol* a wnaed gan y Cyngor yn ystod y 2 flynedd flaenorol ac fe groesawyd yr adroddiad hwn. Roedd yr adroddiad yn gyson ar hunan-asesiad y gwasanaeth a gyflwynwyd i AGC cyn yr arolygiad ac fe’i adlewyrchir hefyd y meysydd wedi eu nodi yn y CGC fel gwaith sy’n parhau i fod angen sylw, h.y. materion sy’n ambr ac yn felyn yn y CGC.

Mae’r adroddiad yn nodi gwelliannau sy’n cynnwys:

- *Mae morâl y staff yn uchel ac mae brwdfrydedd ac ymroddiad ar bob lefel i barhau i weithio'n galed er mwyn gwella a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'r plant;*

- *Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf ac mae bellach yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae nifer y staff wedi cynyddu o fewn y gwasanaeth a chaiff sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' eu cynnal yn fwyfwy hyderus a llwyddiannus. Dechreuir cronolegau fel mater o drefn ar y cam cynnar hwn a chaiff atgyfeiriadau*

*eu trosglwyddo i dimau eraill fel y bo'n briodol. Ar y cyfan, mae penderfyniadau a chofnodion achosion yn amserol ac yn gymesur;*

- *Mae'r gwasanaeth gwella ansawdd wedi cael budd o fwy o staff a chymorth proffesiynol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ysgogiad newydd hwn wedi arwain at ddatblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau*;

- *Mae gwelliannau o ran goruchwyliaeth rheolwyr ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel yn parhau i dynnu sylw at achosion lle collwyd cyfleoedd i gefnogi plant mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ymrwymiad cadarn a thystiolaeth uniongyrchol bod yr awdurdod lleol yn mynd ati i ddiwallu anghenion y plant hyn mewn ffordd ragweithiol a systematig;*

- *Mae systemau arwain a llywodraethu cryf yn CSYM. Gallai aelodau'r cyngor ddangos eu cyfraniad tuag at wella gwasanaethau plant. Dangoswyd eu gwybodaeth am yr heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor a sut maent yn rhyngweithio er mwyn cael effaith ar blant a'u teuluoedd. Mae'r uwch swyddogion yn amlwg, ar gael ac yn gyrru gwelliannau. Mae partneriaid ar y bwrdd diogelu rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr gweithredol yn y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau maent wedi eu gweld yn Ynys Môn, gan ddisgrifio diwylliant agored newydd a chydweithio da.*

**<u>Meysydd i'w Datblygu</u>**

Mae'r adroddiad yn nodi 14 o feysydd y mae angen eu datblygu. Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn eu wneud ynghylch pob un ohonynt. Fel y soniwyd uchod, nid yw'r un o'r meysydd a nodir isod yn 'newydd' i'r gwasanaeth oherwydd teimlir ein bod nid yn unig yn adnabod y gwasanaeth yn dda fel y mae rŵan ond bod gennym hefyd weledigaeth glir a chadarn o ble y dylai fod:

| Rhif | Maes ar gyfer ei ddatblygu | Sefyllfa'r Gwasanaeth | CAMG |
|---|---|---|---|
| 1 | **Trefniadau Mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**<br><br>Dylid achub i'r eithaf ar y cyfle i roi adborth i'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau. Mae ffurflen electronig eisoes ar gael a gellid ei defnyddio'n fwy cyson er mwyn gwella'r broses o gyfathrebu â'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau a gwella enw'r gwasanaeth. | Mae Teulu Môn *wedi cael budd o fuddsoddiad a datblygiad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf* a'n bod *wedi nodi bod y gwasanaeth yn cynnig ymatebion cymesur ac amserol 'ar garreg drws' yn gyffredinol*. Mae'r gwasanaeth yn cytuno â hyn a bydd yn parhau i ddatblygu Teulu Môn ymhellach. Rydym eisoes wedi creu swyddogaeth ychwanegol yn WCCIS ac wedi ychwanegu capasiti at Teulu Môn i sicrhau bod yr holl atgyfeirwyr perthnasol yn cael adborth. | (green) |
| 2 | **Trefniadau Mynediad:** | Nid yw'r holl gronolegau'n gyfredol, ond | (yellow) |

CC-016749-LB/229501

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**<br><br>Sicrhau bod cronolegau yn cael eu diweddaru'n gyson er mwyn helpu ymarferwyr i gael gafael ar wybodaeth achos berthnasol ac arwyddocaol mewn modd amserol. | rydym yn gweithio i sicrhau y bydd yr holl gronolegau'n cael eu diweddaru'n gyson. Bydd hyn o gymorth i arweinwyr ymarfer gael at wybodaeth mewn modd amserol. | |
| 3 | **Asesu**<br><br>Sicrhau nad yw'r plentyn unigol yn cael ei golli yn y drafodaeth achos ehangach am amgylchiadau'r teulu. Rhaid canolbwyntio'n fwy ar anghenion a dymuniadau'r plant unigol, yn ogystal â'r effaith arnynt, a lliniaru'r risg(iau) a wynebir ganddynt. | Dywedodd AGC *gwnaethom hefyd archwilio achosion lle nad oedd digon o dystiolaeth o geisio na chlywed lleisiau'r plant. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd brodyr a chwiorydd neu deuluoedd wedi'u cysylltu drwy briodas neu gydberthnasau cymhleth*…<br>*… gwelsom achosion lle'r oedd y plentyn mewn perygl o gael ei golli yn y drafodaeth eang oedd yn cael ei chynnal o'i gwmpas. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau lle mai dim ond unwaith neu ddwy y cyfeiriwyd at y plentyn mewn nodiadau yn ei ffeil achos ei hun*. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i roi blaenoriaeth i'r mater hwn. Mae problemau mewn perthynas â'r ffurflenni rhanbarthol sy'n cael eu defnyddio hefyd yn cael eu harchwilio. | |
| 4 | **Asesu**<br><br>Rhaid i system oruchwylio gadarn ac amserol, o ansawdd da, ac archwiliadau o asesiadau unigol ddod yn fater o drefn o fewn y gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth. Rhaid i'r system oruchwylio ac archwiliadau gynnwys myfyrio ar y defnydd o wybodaeth broffesiynol, tystiolaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol. | Mae'r gwasanaeth yn gweithredu Polisi Goruchwyliaeth newydd sy'n rhoi sylw i nifer o'r materion a nodwyd gan AGC. Mae anghysonderau ar hyn o bryd ond mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn sicrhau bod argymhellion AGC yn cael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau newydd. Disgwylir i arweinwyr ymarfer sicrhau y bydd goruchwyliaeth ac archwiliadau o safon uchel, sy'n gadarn ac yn amserol yn cael eu cynnal. Mae'r holl staff yn awr wedi derbyn hyfforddiant ar y Polisi Goruchwyliaeth newydd a daw hwn yn weithredol o | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Chwefror 2019. | |
| 5 | **Asesu**<br><br>Rhaid i'r gwaith o gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth gyrraedd lefel gyson uchel er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau nad yw achosion lle mae plant yn dioddef niwed sylweddol yn cael llithro. Mae angen i'r rheolwyr fod yn hyderus ac yn gefnogol wrth arfarnu dogfennaeth ysgrifenedig anghyflawn neu annigonol mewn ffordd feirniadol. | Mae gwaith yn cael ei wneud gydag arweinwyr ymarfer i sicrhau bod y broses o gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth o safon sy'n gyson uchel. Mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn sicrhau bod argymhellion AGC yn cael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau newydd. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau goruchwylio ac archwilio rhwng arweinwyr ymarfer ac aelodau'r tîm. | |
| 6 | **Asesu**<br><br>Mae angen i blant allu meithrin cydberthnasau â gweithwyr cymdeithasol maent yn gallu ymddiried ynddynt, ac mae angen lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol y mae'n rhaid i bob plentyn ailadrodd ei stori iddynt. Rhaid i weithwyr cymdeithasol sicrhau bod pob achos o ryngweithio â phlentyn yn cyfrif a gallu dangos tystiolaeth o'u gwaith. | Mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r gwahanol dimau i sicrhau bod pob cyswllt gyda phlentyn yn cyfrif. Roedd AGC yn cydnabod bod *tystiolaeth o gynnydd yn nifer y staff o fewn y gwasanaeth, gan gynnwys mwy o arweinwyr ymarfer. Mae'r tri arweinydd ymarfer yn cydweithio o dan un rheolwr gwasanaeth ac yn rhannu rôl gwneud penderfyniadau. Dywedodd y staff wrthym yn gyson fod hyn yn welliant cadarnhaol, a oedd yn eu helpu i gael cyngor amserol a datblygu eu gwaith yn fwy effeithlon*. Roedd AGC hefyd yn gweld *sut yr oedd yr ailstrwythuriad a weithredwyd ym mis Hydref 2017 yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer*. Dywedodd AGC hefyd *gwelsom fod gan lawer o blant fwy nag un gweithiwr cymdeithasol a dywedwyd wrthym fod achosion cymhleth yn cael eu rhannu ag arweinwyr ymarfer, ac y gallai'r gweithiwr cymdeithasol o'r Tîm Teuluoedd Gwydn fod yn gweithio gyda'r plentyn hefyd*. Mae'r gwasanaeth yn cytuno gydag argymhelliad AGC<br>*y bydd yr uwch reolwyr am ystyried pryderon a godwyd gan weithwyr a* | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *chymryd camau i ymateb i'r staff.* Bydd y gwasanaeth yn parhau i sefydlogi'r gweithlu er mwyn sicrhau y gall plant adeiladu perthynas gyda gweithwyr cymdeithasol. | |
| 7 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Mae angen gwneud mwy o waith i gefnogi swyddogion diogelu ac adolygu annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu a'r hyder i gynnig her effeithiol pan na fydd gwasanaethau yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer plant unigol. | Mae'r gwasanaeth wrthi'n adolygu trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn sicrhau bod argymhellion AGC yn cael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau newydd. Mae capasiti'r tîm diogelu ac adolygu wedi cael ei gynyddu'n ddiweddar a fydd o gymorth i gefnogi swyddogion o ran capasiti. | |
| 8 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Mae angen sicrhau bod pwyslais cynnar yn cael ei roi ar wella cysondeb cysylltiad ac ymgysylltiad y swyddogion hyn â phlant cyn adolygiadau er mwyn sicrhau bod lleisiau'r plant yn cael eu clywed yn glir ac yn effeithiol. | Nododd AGC fod *adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau adolygu a chynnig cyfleoedd cyson i'r plant gyfarfod â'r swyddog adolygu cyn adolygiad*. Mae'r gwasanaeth yn cytuno â hyn ac yn gwneud trefniadau i sicrhau bod hyn yn cael ei sefydlu'n gadarn fel rhan o'r broses adolygu. Bydd y capasiti ychwanegol yn nhîm yr IRSO hefyd yn galluogi'r IRSO i ymgysylltu gyda phlant cyn neu ar ôl eu hadolygiad LAC. | |
| 9 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Rhaid gwella'r broses o gynllunio gofal ac ymgysylltu â phlant a gofalwyr er mwyn sicrhau bod cynlluniau a lunnir ar y cyd yn gyson. Rhaid i blant a gofalwyr dderbyn y cymorth a gynigir iddynt mewn cynlluniau gofal a chymorth. | Mae'r gwasanaeth yn cytuno bod angen gwneud mwy o waith mewn perthynas ag ymgysylltu gyda phlant a gofalwyr ac i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth a gyd-gynhyrchir yn cael eu datblygu'n gyson. Mae'r ymagwedd yn hyn o beth yn anghyson ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cychwyn gweithio ar hyn o ran Cynlluniau Amddiffyn Plant a bydd gwaith yn cychwyn ym mis Ionawr 2019 o ran | |

CC-016749-LB/229501

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynlluniau Gofal a Chymorth a Chynlluniau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. | |
| 10 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Parhau i archwilio a phrysuro cyfleoedd presennol i gynyddu nifer yr opsiynau o ran lleoliadau sydd ar gael i blant ar yr ynys, ynghyd â'r amrywiaeth ohonynt. Mae angen i gyfleoedd lleoliadau newydd fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth broffesiynol o anghenion y plant. | Mae cynyddu nifer ac amrediad yr opsiynau o ran lleoliadau ar yr ynys yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Bydd ymgyrch yn cychwyn yn y flwyddyn newydd i ddenu mwy o ofalwyr maeth drwy gyflwyno pecyn buddion newydd i ofalwyr maeth sy'n cynnwys gostyngiad 50% yn y Dreth Gyngor; parcio am ddim ym meysydd parcio'r Awdurdod Lleol; cynydd o 10% yn y Lwfans Maethu a cherdyn aelodaeth am ddim i'r cyfleusterau hamdden. Rydym hefyd yn agor dau o Gartrefi Grŵp Bychan a fydd yn darparu lleoliadau lleol a, gyda gobaith, yn golygu y bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi eu lleoli'n all-sirol yn gallu dychwelyd i'r ynys.<br><br>Hefyd, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Tai, rydym yn cynllunio i agor 'Fflat Hyfforddiant Gadael Gofal' ar gyfer pobl ifanc sy'n barod i adael gofal ond sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn amgylchedd â chymorth cyn cymryd arnynt eu tenantiaethau eu hunain. | |
| 11 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Datblygu ffyrdd o sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal dan anfantais oherwydd y pwysau sydd ar staff i ymateb i bryderon diogelu newydd mewn achosion eraill. | Dywedodd AGC eu bod *wedi gweld gwelliant o ran cofnodi atgyfeiriadau a chasglu tystiolaeth. Clywsom gan staff a ddywedodd fod gweithio gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi helpu gyda gwaith dadansoddi a chyfeirio, am fod gwybodaeth, dealltwriaeth ymarferol a sgiliau yn cael eu rhannu rhwng y tîm. Clywsom fod y fath gydweithredu yn hwyluso trosglwyddiad prydlon i'r Tîm hwn yn briodol, gan olygu bod modd gwneud gwaith ataliol amserol gyda phlant a theuluoedd*. Dull yw hwn sy'n | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal dan anfantais a bydd y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu dulliau eraill. | |
| 12 | **Arwain a llywodraethu**<br><br>Parhau i ddatblygu dulliau cadarn o sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth. | Dywedodd AGC *gwelsom rai enghreifftiau o waith uniongyrchol da gyda'r plant, lle canolbwyntiwyd ar sicrhau eu bod yn gallu mynegi eu pryderon a bod eu lleisiau yn cael eu clywed*. Dywedwyd hefyd yn yr adroddiad *wrth drafod â'r gweithwyr cymdeithasol, roedd yn amlwg eu bod yn canolbwyntio ar y plant ond nid oedd y cofnodion ysgrifenedig bob amser yn nodi ansawdd y gwaith cadarnhaol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda'r plant fel rhan o'r asesiadau.* Mae'r gwasanaeth yn derbyn fod anghysonderau ac mae'n adolygu'r trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn cryfhau/gwella'r trefniadau cyfredol. | |
| 13 | **Arwain a Llywodraethu**<br><br>Annog cydweithio pellach rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael Cynlluniau Addysg Personol amserol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd addysg i allu pob plentyn i gyrraedd ei botensial. | Mae'r gwasanaeth, mewn cydweithrediad â chydweithwyr o ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu eisoes yn rhoi sylw i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod gweithdrefn gadarnach yn ei lle o ran sicrhau bod gan bob plentyn Gynllun Addysg Bersonol. | |
| 14 | **Arwain a Llywodraethu**<br><br>Sicrhau bod cyfleoedd i gymryd eiliad a myfyrio ar y strwythur newydd gan gynnwys her adeiladol o ran p'un a yw profiad a chanlyniadau plant yn cael eu gwasanaethu orau gan nifer yr arweinwyr ymarfer nad ydynt yn ddeiliaid achos a nifer y newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a brofir gan bob plentyn. | Nododd AGC *bod ystod eang o sgiliau ymhlith gweithwyr cymdeithasol CSYM, gyda chymysgedd o weithwyr profiadol, gweithwyr sydd newydd gymhwyso a gweithwyr asiantaeth. Nodwyd tystiolaeth mewn ffeiliau goruchwylio o staff yn dweud bod llwythi achos yn rhy uchel. Gwnaethom hefyd siarad â staff a ddywedodd wrthym eu bod yn cael lefel dda o gefnogaeth a bod eu llwythi achos yn dderbyniol.* Bydd y gwasanaeth yn adolygu effeithiolrwydd y strwythur newydd, amserlen i'w chytuno. | |

**Camau Nesaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | **Camau Nesaf**<br><br>Ym marn AGC mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w datblygu a nodwyd i'w cynnwys yn ei gynlluniau datblygu. | Mae’r gwasanaeth yn cytuno â datganiad AGC fod dealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd y mae angen eu gwella. Bydd Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd yn ystyried ac yn ymgorfforir meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datblygu ymhellach. Bydd Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn parhau i fonitro’r Cynllun Gwella Gwasanaeth. | |
| 16 | **Camau Nesaf**<br><br>Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch ymgysylltu parhaus gyda'r awdurdod lleol. Gall hyn gynnwys adolygiad desg o nifer fach o achosion a archwiliwyd yn yr arolygiad hwn er mwyn tracio cynnydd y plant. | Mae’r gwasanaeth yn croesawu’r cyfle i barhau i weithio ag AGC. | |

**Camau i’w cymryd**

- Datblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd y cytunir arno gan Uwch Dîm Rheoli’r Gwasanaeth; y Panel Gwella Gwasanaethau Plant; y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Pwyllgor Gwaith. Bydd yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu sy’n parhau i fod angen sylw o’r CGC cyfredol.
- Ymgysylltu’n fwy egnïol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i bopeth a wnawn fel gwasanaeth.
- Adolygu polisïau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i’r pwrpas a sicrhau bod llais plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael ei gynnwys ym mholisïau’r gwasanaeth.
- Adolygu a chryfhau ymhellach y trefniadau Sicrwydd Ansawdd yn y gwasanaeth.
- Y Panel Gwella Gwasanaethau Plant i barhau i gyfarfod a herio i sicrhau y gwneir gwelliannau pellach i’r gwasanaeth.
- Parhau i gynnal Ymweliadau Laming fel bod aelodau’r Panel Gwella Gwasanaethau Plant sy’n cynnwys aelodau’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig â dealltwriaeth ddyfn o’r Gwasanaeth.

| |
|---|
| • Parhau i weithio gyda phartneriaid a pharhau i gryfhau perthnasau a threfniadau cydweithio.<br><br>**ARGYMHELLION**<br><br>➢ Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar eu Harolygiad o Wasanaethau Plant Ynys Môn.<br><br>➢ Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn ac yn cytuno â safiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae angen eu datblygu. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir i bobl Ynys Môn o ansawdd da. Felly, mae hi i fyny i'r Pwyllgor Gwaith ystyried a derbyn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar yr Arolygiad a nodi y camau y bwriedir eu cymryd gan Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae aelodau o'r UDA wedi cymeradwyo'r adroddiad yma. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Cyflwynodd Arolygiaeth Gofal Cymru eu canfyddiadau ar eu harolygiad diweddar o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2019.<br><br>Roedd yr Aelodau'n falch o'r adroddiad gan yr Arolygiaeth Gofal ac yn cytuno â'i gynnwys. Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn dweud unrhyw beth nad oeddem eisoes yn ymwybodol ohono. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor sicrwydd i Arolygiaeth Gofal Cymru y byddwn yn defnyddio'r argymhellion o'u hadroddiad ynghyd â'r hunan-asesiad a ddarparwyd gan y Gwasanaeth i baratoi Cynllun Gwella newydd – fel y gellir sicrhau gwelliannau pellach.<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, penderfynodd y pwyllgor:<br><br>Argymell i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>1. Ei fod yn derbyn yr adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar yr arolygiad diweddar o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br><br>2. Ei fod yn cytuno gyda, ac yn derbyn safiad y Gwasanaeth a'r camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae angen eu datblygu. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn, Rhagfyr 2018:<br><br>https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-12/181210-gwasanaethau-plant-ynys-mon-cy.pdf#<br><br>181210-gwasanaethau-plant-ynys-mon |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Arolygiad o Wasanaethau Plant
# Cyngor Sir Ynys Môn

Rhagfyr 2018

© Hawlfraint y Goron 2018 WG36549 ISBN digidol 978-1-78964-494-4

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Trosolwg o'r canfyddiadau | 5 |
| Meysydd i'w datblygu | 6 |
| Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | 9 |
| Asesu | 12 |
| Gofal a chymorth ac adolygiad | 15 |
| Diogelu | 18 |
| Arwain, rheoli a llywodraethu | 20 |
| Methodoleg | 23 |
| Cydnabyddiaethau | 23 |

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2016. Nododd yr arolygiad fod goruchwyliaeth y rheolwyr o drefniadau diogelu, mynediad ac asesu yn annigonol a bod angen i'r newid o ran gwella'r ffordd roedd help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn cael eu rhoi i blant a theuluoedd yn Ynys Môn ddigwydd yn gyflymach, gan gynnal y gwelliannau. Yn sgil y pryderon difrifol a nodwyd, penderfynodd AGC ailarolygu gwasanaethau plant Ynys Môn o fewn 12 i 18 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

Datblygodd y cyngor raglen wella a phenododd dîm cymorth annibynnol i fonitro'r cynnydd a chynnig cyngor ymgynghorol.

Cynhaliodd AGC yr ailarolygiad hwn o wasanaethau plant yn ystod mis Hydref 2018.

Mae ein harolygiad yn seiliedig ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* (Mawrth 2016). Mae'n adeiladu ar y safonau ansawdd cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol a nodir yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).* Yn ogystal, yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd gallu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r modd y caiff ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu harwain a'u llywodraethu.

Bydd yr ailarolygiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff teuluoedd eu grymuso i gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir i blant y mae angen help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad arnynt.

Gwnaethom werthuso ansawdd yr ymarfer, y prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith amlasiantaeth gan gynnal ffocws clir ar effaith y gwasanaethau ar blant a theuluoedd, mewn perthynas â'r canlynol:

- cael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys darparu gwasanaethau atal/cymorth cynnar
- asesu;
- diogelu;
- cynllunio/adolygu gofal a chymorth

Ac

- ansawdd y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu sydd ar waith ac sy'n datblygu ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd.

Roedd yr arolygwyr wedi darllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a chynnal arolwg staff, cyfweld â rheolwyr a chyfweld â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bo hynny'n bosibl. Gwnaethom geisio siarad â phlant, pobl ifanc a/neu eu teuluoedd/gofalwyr er mwyn gwrando ar eu barn am ansawdd y gwasanaethau y maent wedi'u derbyn a'u profiadau o hynny.

## Trosolwg o'n canfyddiadau

- Dangosodd gwasanaethau plant y cyngor welliant sylweddol mewn sawl maes allweddol ond roedd angen gwneud gwaith pellach mewn rhai meysydd eraill. Mae morâl y staff yn uchel ac mae brwdfrydedd ac ymroddiad ar bob lefel i barhau i weithio'n galed er mwyn gwella a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'r plant.

- Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf ac mae bellach yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae nifer y staff wedi cynyddu o fewn y gwasanaeth a chaiff sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' eu cynnal yn fwyfwy hyderus a llwyddiannus. Dechreuir cronolegau fel mater o drefn ar y cam cynnar hwn a chaiff atgyfeiriadau eu trosglwyddo i dimau eraill fel y bo'n briodol. Ar y cyfan, mae penderfyniadau a chofnodion achosion yn amserol ac yn gymesur.

- Ar y cyfan, mae ymatebion diogelu yn amserol ac yn gymesur. Mae lle i wella'r broses o goladu a chofnodi tystiolaeth a dadansoddiad o risg. Nid oeddem bob amser yn hyderus bod yr holl ddarnau allweddol o wybodaeth ar gael ar yr adeg gywir er mwyn helpu'r rheolwyr i wneud penderfyniadau da yn gyson. Gall hyn arwain at oedi diangen wrth lunio cynlluniau i blant.

- Mae'r gwasanaeth gwella ansawdd wedi cael budd o fwy o staff a chymorth proffesiynol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ysgogiad newydd hwn wedi arwain at ddatblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau. Mae angen i rai polisïau a gweithdrefnau fod yn fanylach er mwyn sicrhau eu bod yn sicrhau'r gwelliannau mwyaf posibl. Mae peth tystiolaeth o ddolen adborth rhwng archwilio achos ac ymarfer. Fodd bynnag, nid ydym eto'n hyderus fod systemau archwilio achos a goruchwylio cyfredol yn nodi nac yn gwella'n gyson ymarfer nad yw'n cyrraedd y safonau a ddisgwylir mewn deddfwriaeth.

- Mae gwelliannau o ran goruchwyliaeth rheolwyr ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel yn parhau i dynnu sylw at achosion lle collwyd cyfleoedd i gefnogi

plant mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ymrwymiad cadarn a thystiolaeth uniongyrchol bod yr awdurdod lleol yn mynd ati i ddiwallu anghenion y plant hyn mewn ffordd ragweithiol a systematig. Mae hyn wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a chynnydd cyfatebol yn llwyth gwaith timau.

- Nid oes digon o leoliadau addas ar gyfer plant. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod opsiynau o ran lleoliadau yn diwallu anghenion penodol plant yn eu cymuned. Clywsom am blant ag anghenion cymhleth sy'n derbyn cymorth arbenigol y tu allan i'r sir, a siarad â nhw. Dywedwyd wrthym y gall y lleoliadau hyn fod yn ddrud iawn a bod angen iddynt gael eu comisiynu'n ofalus a'u monitro'n agos er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Mae'r wasanaeth yn ystyried mesurau penodol wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r prinder.

- Mae systemau arwain a llywodraethu cryf i'w cael o fewn y cyngor. Gallai aelodau'r cyngor ddangos eu cyfraniad tuag at wella gwasanaethau plant. Dangoswyd eu gwybodaeth am yr heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor a sut maent yn rhyngweithio er mwyn cael effaith ar blant a'u teuluoedd. Mae'r uwch swyddogion yn amlwg, ar gael ac yn gyrru gwelliannau. Mae partneriaid ar y bwrdd diogelu rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr gweithredol yn y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau maent wedi eu gweld yn Ynys Môn, gan ddisgrifio diwylliant agored newydd a chydweithio da.

## Meysydd i'w datblygu

### Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

1. Dylid achub i'r eithaf ar y cyfle i roi adborth i'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau. Mae ffurflen electronig eisoes ar gael a gellid ei defnyddio'n fwy cyson er mwyn gwella'r broses o gyfathrebu â'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau a gwella enw'r gwasanaeth.

2. Sicrhau bod cronolegau yn cael eu diweddaru'n gyson er mwyn helpu ymarferwyr i gael gafael ar wybodaeth achos berthnasol ac arwyddocaol mewn modd amserol.

### Asesu

3. Sicrhau nad yw'r plentyn unigol yn cael ei golli yn y drafodaeth achos ehangach am amgylchiadau'r teulu. Rhaid canolbwyntio'n fwy ar anghenion a

dymuniadau'r plant unigol, yn ogystal â'r effaith arnynt, a lliniaru'r risg(iau) a wynebir ganddynt.

4. Rhaid i system oruchwylio gadarn ac amserol, o ansawdd da, ac archwiliadau o asesiadau unigol ddod yn fater o drefn o fewn y gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth. Rhaid i'r system oruchwylio ac archwiliadau gynnwys myfyrio ar y defnydd o wybodaeth broffesiynol, tystiolaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol.

5. Rhaid i'r gwaith o gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth gyrraedd lefel gyson uchel er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau nad yw achosion lle mae plant yn dioddef niwed sylweddol yn cael llithro. Mae angen i'r rheolwyr fod yn hyderus ac yn gefnogol wrth arfarnu dogfennaeth ysgrifenedig anghyflawn neu annigonol mewn ffordd feirniadol.

6. Mae angen i blant allu meithrin cydberthnasau â gweithwyr cymdeithasol maent yn gallu ymddiried ynddynt, ac mae angen lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol y mae'n rhaid i bob plentyn ailadrodd ei stori iddynt. Rhaid i weithwyr cymdeithasol sicrhau bod pob achos o ryngweithio â phlentyn yn cyfrif a gallu dangos tystiolaeth o'u gwaith.

**Gofal a chymorth ac adolygiad**

7. Mae angen gwneud mwy o waith i gefnogi swyddogion diogelu ac adolygu annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu a'r hyder i gynnig her effeithiol pan na fydd gwasanaethau yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer plant unigol.

8. Mae angen sicrhau bod pwyslais cynnar yn cael ei roi ar wella cysondeb cysylltiad ac ymgysylltiad y swyddogion hyn â phlant cyn adolygiadau er mwyn sicrhau bod lleisiau'r plant yn cael eu clywed yn glir ac yn effeithiol.

9. Rhaid gwella'r broses o gynllunio gofal ac ymgysylltu â phlant a gofalwyr er mwyn sicrhau bod cynlluniau a lunnir ar y cyd yn gyson. Rhaid i blant a gofalwyr dderbyn y cymorth a gynigir iddynt mewn cynlluniau gofal a chymorth.

10. Parhau i archwilio a phrysuro cyfleoedd presennol i gynyddu nifer yr opsiynau o ran lleoliadau sydd ar gael i blant ar yr ynys, ynghyd â'r amrywiaeth ohonynt. Mae angen i gyfleoedd lleoliadau newydd fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth broffesiynol o anghenion y plant.

11. Datblygu ffyrdd o sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal dan anfantais oherwydd y pwysau sydd ar staff i ymateb i bryderon diogelu newydd mewn achosion eraill.

**Arwain a llywodraethu**

12. Parhau i ddatblygu dulliau cadarn o sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth.

13. Annog cydweithio pellach rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael Cynlluniau Addysg Personol amserol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd addysg i allu pob plentyn i gyrraedd ei botensial.

14. Sicrhau bod cyfleoedd i gymryd eiliad a myfyrio ar y strwythur newydd gan gynnwys her adeiladol o ran p'un a yw profiad a chanlyniadau plant yn cael eu gwasanaethu orau gan nifer yr arweinwyr ymarfer nad ydynt yn ddeiliaid achos a nifer y newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a brofir gan bob plentyn.

**Camau nesaf**

15. Ym marn AGC mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w datblygu a nodwyd i'w cynnwys yn ei gynlluniau datblygu.

16. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch ymgysylltu parhaus gyda'r awdurdod lleol. Gall hyn gynnwys adolygiad desg o nifer fach o achosion a archwiliwyd yn yr arolygiad hwn er mwyn tracio cynnydd y plant.

## 1. Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, diweddaru a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael yn eu hardal yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Gall pawb, gan gynnwys gofalwyr, gael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cyngor a chymorth yn gyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r ymateb y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae trefniadau effeithiol ar waith i oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae trefniadau cyfeirio effeithiol yn rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

1.1 Mae Teulu Môn, gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Ynys Môn wedi cael budd o fuddsoddiad a datblygiad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodwyd bod y gwasanaeth yn cynnig ymatebion cymesur ac amserol 'ar garreg drws' yn gyffredinol. Sefydlwyd Teulu Môn yn sgil uno swyddogaethau gwahanol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm o Amgylch y Teulu, a thîm dyletswydd ac asesu'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

1.2 Gwelsom dystiolaeth o gynnydd yn nifer y staff o fewn y gwasanaeth, gan gynnwys mwy o arweinwyr ymarfer. Mae'r tri arweinydd ymarfer yn cydweithio o dan un rheolwr gwasanaeth ac yn rhannu rôl gwneud penderfyniadau. Dywedodd y staff wrthym yn gyson fod hyn yn welliant cadarnhaol, a oedd yn eu helpu i gael cyngor amserol a datblygu eu gwaith yn fwy effeithlon.

1.3 Gwnaethom gyfarfod â staff o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a chlywsom am eu profiad cadarnhaol o amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a gweld lefel glodwiw o gefnogaeth rhwng y naill a'r llall o fewn y tîm. Arsylwyd ar staff yn defnyddio'r sgwrs *"yr hyn sy'n bwysig"* a'r pum cam tuag at gymhwysedd yn unol â chanllawiau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

1.4 Nodwyd gwelliant o ran cofnodi atgyfeiriadau a chasglu tystiolaeth. Clywsom gan staff a ddywedodd fod gweithio gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi helpu gyda gwaith dadansoddi a chyfeirio, am fod gwybodaeth, dealltwriaeth

ymarferol a sgiliau yn cael eu rhannu rhwng y tîm. Clywsom fod y fath gydweithredu yn hwyluso trosglwyddiad prydlon i'r Tîm hwn yn briodol, gan olygu bod modd gwneud gwaith ataliol amserol gyda phlant a theuluoedd.

1.5 Ers symud i Wasanaethau Plant yn ddiweddar o addysg, mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi newid ei drothwyon ymyrryd, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy penodol ar gyfer plant a theuluoedd sydd angen cymorth. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod o'r farn bod hyn yn well defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ar yr ynys.

1.6 Nodwyd bod gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng gwasanaethau plant ac ysgolion. Dywedodd un pennaeth wrthym fod Teulu Môn yn fwyfwy defnyddiol pan fo angen gwneud atgyfeiriad. Nawr teimla y gall godi'r ffôn a thrafod atgyfeiriadau posibl gyda'r gwasanaeth. Gwelwyd y gwelliant hwn yn dilyn cyflwyniadau gan bennaeth Gwasanaethau Plant i benaethiaid yn eu hannog i atgyfeirio ar sail y ffaith bod gwasanaethau i gefnogi gwaith ataliol bellach ar gael lle mae eu hangen.

1.7 Dywedwyd wrthym y bydd y trothwy cliriach a'r gwelliant mewn cyfathrebu yn darparu gwasanaeth ataliol gwell i blant a'u teuluoedd ar Ynys Môn a all fod yn fwy amharod i ddefnyddio gwasanaethau neu a allai fod wedi bod yn anodd eu cyrraedd. Mae'n rhy gynnar dweud p'un a yw'r lefel hon o dargedu yn briodol i gymryd camau ymyrryd cynnar ac atal plant a'u teuluoedd rhag cyrraedd argyfwng.

1.8 Nododd Arweinydd Ymarfer Teulu Môn sut mae hyrwyddo'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mewn nosweithiau rhieni a digwyddiadau cymunedol yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael er mwyn normaleiddio teuluoedd sy'n cael cymorth cyn iddynt gyrraedd argyfwng. Ni fydd effaith hyn yn glir am beth amser.

1.9 Mae dechrau cronolegau yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth pan gaiff atgyfeiriadau eu gwneud gyntaf yn ddatblygiad cadarnhaol a all helpu i wneud penderfyniadau amserol a gwybodus yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd pob cronoleg yn gyfredol. Gwelsom fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod hynny'n digwydd a bod staff yn diweddaru pob un.

1.10 Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn gwella'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd er mwyn galluogi gweithwyr i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr i'r cyhoedd. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac mae staff wrthi'n rhoi gwybodaeth Ynys Môn yng nghyfeiriadau adnoddau ar-lein DEWIS. Bydd angen adnoddau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn parhau'n gyfredol.

1.11 Roedd yn gadarnhaol gweld y gweithiwr Lles a Cynhwysiad yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwasanaeth, gyda'i rôl yw ymateb i atgyfeiriadau, cyfeirio at wasanaethau cymunedol ac ataliol a mapio ardaloedd lle mae angen. Dylai'r wybodaeth leol sydd gan y gweithiwr hwn wneud cyfraniad defnyddiol at yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

1.12 Mae'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Clywsom staff yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg am yn ail yn rheolaidd, a hynny i safon uchel.

## 2. Asesu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae pawb sydd â'r hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn cael asesiad yn eu hiaith ddewisol. Mae pob gofalwr sy'n ymddangos fel pe bai ganddo anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad o anghenion, ni waeth pa fath o ofal a ddarperir, ei sefyllfa ariannol na'r lefel o gymorth a all fod ei hangen. Caiff anghenion pobl eu hasesu'n amserol sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewsiadau. Mae asesiadau'n ystyried canlyniadau personol a barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n cael ei asesu a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gwneir hyn i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol ac yn hybu eu llesiant a'u diogelwch eu hunain a llesiant a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n rhoi dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i'r anghenion a nodir. Caiff camau gweithredu a argymhellir, a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, eu nodi ac maent yn cynnwys yr holl gamau a all gael eu cymryd drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

2.1 Dywedwyd wrthym, a gwelodd yr arolygwyr, y ffordd roedd yr ailstrwythuro a ddigwyddodd ym mis Hydref 2017 yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer. Dywedodd y staff wrthym fod y trefniadau Grŵp Ymarfer newydd ag arweinwyr ymarfer yn welliant cadarnhaol. Dywedwyd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eistedd yn yr un ystafell â'u harweinwyr ymarfer a bod hyn yn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar gymorth nawr bod y rheolwyr yn llawer mwy amlwg.

2.2 Ceir ystod eang o sgiliau ymhlith gweithwyr cymdeithasol y cyngor. Hefyd mae cymysgedd o weithwyr profiadol, gweithwyr sydd newydd gymhwyso a gweithwyr asiantaeth. Nodwyd dystiolaeth mewn ffeiliau goruchwylio o staff yn dweud bod llwythi achos yn rhy uchel. Gwnaethom hefyd siarad â staff a ddywedodd wrthym eu bod yn cael lefel dda o gefnogaeth a bod eu llwythi achos yn dderbyniol.

2.3 Gwelsom fod gan lawer o blant fwy nag un gweithiwr cymdeithasol a dywedwyd wrthym fod achosion cymhleth yn cael eu rhannu ag arweinwyr ymarfer, ac y gallai'r gweithiwr cymdeithasol o'r Tîm Teuluoedd Gwydn fod yn gweithio gyda'r plentyn hefyd. Am y rheswm hwn roedd yn anodd i'r arolygwyr ddweud p'un a oedd y llwythi achos yn briodol ai peidio. Bydd yr uwch reolwyr am ystyried pryderon a godwyd gan weithwyr a chymryd camau i ymateb i'r staff.

2.4 Gwnaethom glywed am ymdrechion positif yr uwch reolwyr i wella ymarfer ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel, a gwelsom hynny. Rydym yn ymwybodol

bod hyn yn heriol i rai aelodau o staff, tra bod llawer wedi dweud wrthym eu bod wedi gweld y cymorth ychwanegol a’r cefnogaeth i wella ddefnyddiol.

2.5 Mae cynnwys 'tîm etifeddiaeth' fel rhan o'r ailstrwythuro wedi hwyluso ffocws penodol ar achosion lle bu 'llithro' sylweddol. Gwelsom sawl achos lle mae'r tîm hwn wedi canolbwyntio o'r newydd ar blant penodol ac yn cymryd camau i sicrhau bod plant yn cael y cymorth y dylent fod wedi gallu cael budd ohono mewn blynyddoedd blaenorol. Gwelsom fod y gwaith hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant yn eithaf cyflym.

2.6 Roedd ansawdd yr asesiadau'n anghyson, gan amrywio o fod yn dda iawn i rhai fod angen gwella. Yn yr enghreifftiau gorau gwelsom dystiolaeth o ansawdd uchel wedi'i chyflwyno'n dda gyda dadansoddiad parhaus. Roedd enghreifftiau da iawn yn cyflwyno darlun clir o'r plentyn a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan nodi'r risgiau a'r cryfderau.

2.7 Roedd yr asesiadau a'r cynlluniau da iawn hyn mewn gwrthgyferbyniad mawr ag eraill lle cynhaliwyd ymweliadau statudol â phlant gan weithwyr nad oeddent wedi cyfarfod â'r plentyn yn flaenorol, ac nid oedd y recordiad dilynol yn ychwanegu fawr ddim, os o gwbl, at ddealltwriaeth yr wasanaeth o bryderon uniongyrchol y plentyn na'i uchelgeisiau at y dyfodol.

2.8 Ni welom gydberthynas rhwng ansawdd y gwaith ysgrifenedig a phrofiad y gweithiwr. Gwelsom rai asesiadau da iawn a ysgrifennwyd gan Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso.

2.9 Ni waeth beth oedd profiad yr unigolyn na'i gyfnod o wasanaeth, ni welsom fod ansawdd y recordiad na'r dadansoddiad proffesiynol yn cael eu herio'n ddigon cyson i sicrhau nad oedd profiadau blaenorol yn cael eu hailadrodd.

2.10 Gwelsom rai enghreifftiau o waith uniongyrchol da gyda'r plant, lle canolbwyntiwyd ar sicrhau eu bod yn gallu mynegi eu pryderon a bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Gwnaethom hefyd archwilio achosion lle nad oedd digon o dystiolaeth o geisio na chlywed lleisiau'r plant. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd brodyr a chwiorydd neu deuluoedd wedi'u cysylltu drwy briodas neu gydberthnasau cymhleth. Nid oedd hyn yn dderbyniol.

2.11 Ar adegau fel hyn gwelsom achosion lle'r oedd y plentyn mewn perygl o gael ei golli yn y drafodaeth eang oedd yn cael ei chynnal o'i gwmpas. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau lle mai dim ond unwaith neu ddwy y cyfeiriwyd at y plentyn mewn nodiadau yn ei ffeil achos ei hun. Eglurwyd mai natur a strwythur y ffurflenni rhanbarthol oedd yn gyfrifol am hyn. Ni waeth beth fo'r rheswm nid oedd hyn yn dderbyniol i'r arolygwyr.

2.12 Gwnaethom siarad â phlant a gofalwyr maeth ac yn y nodiadau achos gwelsom sut roeddent wedi cael sawl gweithiwr cymdeithasol gwahanol. Hefyd gwelsom fod sawl gweithiwr cymdeithasol ynghlwm wrth yr un achosion. Efallai fod hyn o ganlyniad anuniongyrchol i'r Grŵpiau Ymarfer yn y strwythur newydd. Nododd rhai o'r plant fod hyn yn peri dryswch iddynt ac nid oeddent yn siŵr â phwy y dylent siarad os oedd pethau yn mynd o chwith. Gofynnodd un plentyn i'r arolygwyr “beth yw'r pwynt o gael gweithiwr cymdeithasol a enwir os na fyddaf byth yn eu gweld nhw a bod pobl eraill yn dal i droi i fyny yn lle hynny ".

2.13 Wrth drafod â'r gweithwyr cymdeithasol, roedd yn amlwg eu bod yn canolbwyntio ar y plant ond nid oedd y cofnodion ysgrifenedig bob amser yn nodi ansawdd y gwaith cadarnhaol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda'r plant fel rhan o'r asesiadau.

## 3. Gofal a chymorth ac adolygiad

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae pobl yn cael gofal, cefnogaeth, help a diogelwch amlasiantaethol amserol ac effeithiol lle bo hynny'n briodol. Caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llesiant, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

3.1 Mae gan yr awdurdod lleol le i wella ymhellach er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cynllun gofal a chymorth amserol fel sy'n ofynnol yng nghanllawiau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Nodwyd bod ansawdd y cynlluniau'n amrywio. Dywed staff eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdrin â'r ddogfennaeth cynllunio gofal sydd wedi'i datblygu'n rhanbarthol, yn sgil cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedwyd wrth yr arolygwyr fod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r ffurflenni a'r system TG newydd.

3.2 Mae'r cyngor yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau sy'n diwallu anghenion unigol y plant. Mae hyn wedi arwain at roi lleoliadau y tu allan i'r sir i rai plant, ac mae rhai wedi'u rhoi mewn lleoliadau 'ffit gorau' yn hytrach na lleoliad o'u dewis. Gwelsom blant yn cael eu rhoi gyda'u rhieni eu hunain am nad oedd lleoliad amgen ar gael, sydd wedyn yn gofyn am gymorth dwys er mwyn rheoli'r risgiau.

3.3 Mae angen atgyfnerthu'r ymgysylltu a'r gwaith uniongyrchol gyda phlant er mwyn eu galluogi i feithrin gwell dealltwriaeth o'u cynlluniau gofal. Hefyd mae angen gwella'r ymgysylltu â phlant ar lefel fwy strategol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda sefydliad cenedlaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r gwaith hwn, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael budd o ddysgu'n uniongyrchol gan y plant sy'n dibynnu ar wasanaethau.

3.4 Nodwyd bod y Tîm Teuluoedd Gwydn yn glir o ran ei gylch gwaith ac yn hyderus o ran ei allu. Gallai'r tîm ddangos y gwaith manwl uniongyrchol roedd wedi'i wneud gyda phlant a theuluoedd ac roedd ganddo enghreifftiau da o'r 'llythyrau myfyriol' a ddefnyddiwyd fel dull o ymgysylltu â phlant a'u rhieni.

3.5 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull mwy cadarn o gynllunio parhad ar gyfer achosion sydd wedi 'llithro' fel y nodwyd yn arolygiad blaenorol AGC. Cafodd y tîm etifeddiaeth ei gyflwyno yn ystod yr ailstrwythuro ym mis Hydref 2017 er mwyn canolbwyntio o'r newydd ar blant lle goddefwyd esgeulustod hirdymor

sy'n annerbyniol.  Gwelsom dystiolaeth o fireinio gwaith cynllunio, gwella'r broses o reoli achosion a goruchwyliaeth gan reolwyr, gan gynnwys trefniadau panel. Roedd yr ymyriadau hyn yn arwain at waith cynllunio mwy cadarn a thymor hwy ar gyfer plant.

3.6 Mae'r rheolwyr yn derbyn, er bod y rhan fwyaf o achosion o'r fath wedi'u nodi bellach, y gall fod eraill lle mae oedi annerbyniol ac mae angen eu nodi cyn gynted â phosibl.

3.7 Nodwyd cyllid er mwyn penodi cyfreithiwr ychwanegol i gynyddu'r cyngor cyfreithiol sydd ar gael i dimau ac mae'r swydd hon yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Dylai hyn gynyddu'r cymorth amserol sydd ar gael i weithwyr cymdeithasol a gwella canlyniadau i'r plant yn uniongyrchol.

3.8 Dangosodd yr awdurdod lleol ei fod yn ymrwymedig i ddychwelyd plant a phobl ifanc i'w cartrefi yn llwyddiannus lle mai hyn oedd orau. Roedd trefniadau ar waith i gefnogi isgyfeirio ac uwchgyfeirio achosion lle'r oedd yn ddiogel gwneud hynny.  Roedd y gweithwyr yn cydnabod pwysigrwydd bond y rhieni a'r plant ac roeddent yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i'r plant aros gyda'u rhieni a chynnig cymorth sylweddol.

3.9 Dylai'r broses adolygu ganolbwyntio ar y plentyn gydag unrhyw her o ran ei hawliau yn cael ei huwchgyfeirio lle bo'n briodol.  Gwelsom bolisi newydd sy'n cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo Swyddogion Diogelu Adolygu Annibynnol i uwchgyfeirio pryderon. Bydd cyflwyno'r cymorth hwn yn llwyddiannus, ynghyd â mathau eraill o gymorth, i Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r gallu i fonitro perfformiad yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol.

3.10 Mae adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau adolygu a chynnig cyfleoedd cyson i'r plant gyfarfod â'r swyddog adolygu cyn adolygiad. Byddai hyn yn cynnig y cyfle i ystyried dymuniadau'r plentyn o ran sut a ble y cynhelir yr adolygiad, a chanlyniadau dymunol y plentyn.

3.11 Gwelsom achosion lle cynlluniwyd gwaith stori bywyd ond ni ddigwyddodd. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym nad yw'r gwaith hwn yn cael blaenoriaeth oherwydd y gofynion croes o ran eu llwyth achos. Mae bylchau yn y math hwn o waith, a'r cyfleoedd prin i gyfarfod â Swyddogion Diogelu Adolygu Annibynnol, yn golygu nad achubir i'r eithaf ar gyfleoedd i glywed lleisiau'r plant na gwneud synnwyr o'u straeon. Clywsom beth tystiolaeth gan blant a rhieni lle clywyd eu lleisiau, ac fe'u cofnodwyd mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth, ond ni wnaeth y camau gweithredu cysylltiedig gan ymarferwyr

ddwyn ffrwyth. Ni chafodd unigolion yr ymateb roeddent yn teimlo roedd ei angen ac roeddent yn ei ddisgwyl.

3.12 Dathlwyd plant oedd wedi derbyn gofal ac wedi mynd ymlaen i addysg uwch neu yrfa o'u dewis, gyda disgwyliad clir mai dyma ddylai fod yn uchelgais i bob plentyn sy'n derbyn gofal. Nodwyd nad oedd Cynlluniau Addysg Personol bob amser ar waith nac yn gyfredol yn achos pob plentyn. Dywedodd rhai o'r rheolwyr wrthym eu bod eisoes yn ymwybodol o hyn ac yn deall pwysigrwydd sicrhau yr aed i'r afael ag ef.

3.13 Caiff gwasanaethau eirioli eu comisiynu i blant ar Ynys Môn gan yr awdurdod lleol ond mae'r defnydd ohonynt yn anghyson. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod gweithwyr a phlant yn ymwybodol o'r cyfle i gael cymorth a sut i gael gafael ar y gwasanaeth. Cawsom wybod gan y gwasanaeth eirioli ei fod yn hyderus y cawsai camau eu cymryd gan yr awdurdod lleol i wella dealltwriaeth y gweithlu o'r gofyniad i gynnig eiriolaeth mewn rhai achosion.

## 4. Diogelu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle bo pobl yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio, neu'n wynebu risg o hynny, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys a gaiff eu cydlynu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau diogelwch neu reoli risg yn llwyddo i leihau risgiau gwirioneddol neu bosibl. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel na pheryglus. Caiff polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn eu deall a'u gwreiddio'n dda ac maent yn helpu i sicrhau ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir ystyried newid perfformiad proffesiynol ac ymddygiad asiantaethau a'u gwella mewn ffordd agored ac adeiladol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

4.1 Roedd diogelu plant yn cael ei flaenoriaethu o fewn yr adran. Ar y cyfan gwelsom weithwyr cymwys a oedd yn cael eu cefnogi, a ddarparai ymatebion amserol a chymesur.

4.2 Yn ddiweddar, roedd yr awdurdod lleol wedi ail-gyflwyno model rheoli risg newydd er mwyn diogelu plant, yn seiliedig ar fodel Bruce Thornton. Mae hyfforddiant, gan gynnwys sesiynau mentora a hyfforddi ar gyfer staff unigol, wedi cyd-fynd â'r dull newydd o weithredu a dywedodd y staff wrthym ei fod yn welliant cadarnhaol i'w hymarfer.

4.3 Gwelsom fod y ddogfennaeth risg newydd wedi'i chwblhau ar sawl achlysur. Nodwyd nad oedd rhai asesiadau yn ddigon manwl o ran tystiolaeth ac mai prin y dadansoddwyd y risgiau. Gwelsom fod cyfleoedd yn cael eu colli i gwblhau asesiadau o gyflwr y cartref. Byddai asesiadau mwy cyflawn, o ansawdd gwell, yn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch risg.

4.4 Dywedodd y rheolwyr wrthym am y gwaith cadarnhaol roeddent yn ei wneud ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phrofiadau niweidiol mewn plentyndod. Gwnaethom hefyd siarad â Heddlu Gogledd Cymru, aelodau o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru a staff gweithredol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd pawb yn gadarnhaol iawn am y cydberthnasau gwaith agored newydd â Chyngor Sir Ynys Môn a'r cydweithio a welwyd. Gallai pawb ddisgrifio gwahanol waith achos a fu'n llwyddiannus oherwydd gwell cydweithio. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio yn yr achosion a archwiliwyd gennym.

4.5 Soniodd yr un partneriaid am ddatblygiad polisi uwchgyfeirio anghydfod sydd yn cael ei ddefnyddio gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae

wedi cael ei ddefnyddio yn llwyddiannus ym Ynys Môn ac wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol i'r plentyn a'r asiantaethau dan sylw.

4.6 Clywsom fod mwy o waith i'w wneud i wella ansawdd atgyfeiriadau gan bartneriaid i wasanaethau plant. Mae hyfforddiant ar y cyd yn cael ei gynllunio er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth briodol ar gael i alluogi gweithwyr cymdeithasol i wneud penderfyniadau gwybodus a diogelu plant.

## 5. Arwain, rheoli a llywodraethu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol ac, ar y cyd, yn sefydlu strategaeth effeithiol i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i bobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff. Caiff gwasanaethau eu harwain yn dda, ceir cyfeiriad clir a chaiff newid ei arwain mewn ffordd gadarn. Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o'r sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i roi help, gofal a chefnogaeth i bobl a chyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Caiff pobl leol eu cynnwys yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

5.1 Gallai arweinwyr a rheolwyr y cyngor ddangos dealltwriaeth dda o'r angen i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymuned, ynghyd ag ymrwymiad cryf i wneud hynny. Gallent egluro heriau presennol a chynyddol allweddol yn eu cymunedau a'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol.

5.2 Roedd gan yr Aelodau Etholedig ddealltwriaeth glir o'u rôl a, chyda swyddogion, maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol. Roedd yr aelodau yr un mor eglur ynghylch yr angen am atebolrwydd ar bob lefel a phwysigrwydd systemau a phrosesau sicrhau ansawdd a all nodi unrhyw ddirywiad mewn perfformiad neu gyfleoedd a gollwyd, a chefnogi gwelliant cyn i'r sefyllfa waethygu.

5.3 Mae gwasanaethau plant yn cael budd o uwch dîm rheoli parhaol a sefydlog sydd ag ystod eang o brofiad a gwybodaeth. Drwy grwpiau ffocws a holiaduron dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr, a dywedodd llawer wrthym pa mor falch oeddent gyda'r newidiadau yn y gwasanaeth a sut roeddent yn mwynhau bod yn rhan o ddiwylliant cadarnhaol â chyfeiriad clir.

5.4 Dangosodd y prif aelod a'r aelodau etholedig eraill ddealltwriaeth dda o'r agenda ataliol sy'n rhan gynhenid o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac ymrwymiad i gefnogi plant a'u teuluoedd i fod yn wydn. Clywsom am gardiau aelodaeth hamdden am ddim a chyfleoedd ymarferol eraill oedd yn cael eu datblygu'n gorfforaethol er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gallai'r aelodau egluro a phwyso a mesur eu pryderon am

ganlyniadau anfwriadol llai o gyllid mewn rhai meysydd yn effeithio ar fywydau'r plant, a'r gwaith da a wneir gan y Tîm Teuluoedd Gwydn er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

5.5 Awgrymodd yr aelodau eu bod yn cefnogi cydweithio rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant. Mynegwyd rhai aelodau pryder ynghylch plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol, sy'n absennol ac a all fod wedi mynd 'ar goll' yn y system. Cydnabuwyd bod hwn yn faes a allai gael budd o fwy o waith.

5.6 Dangosodd yr aelodau ymrwymiad i wella gwasanaethau ar gyfer plant drwy gytuno ar gylch gorchwyl y Panel Gwella Plant cyn yr etholiad diwethaf yn syth ar ôl arolygiad diwethaf AGC. Mae'r panel gwella wedi parhau i gyfarfod yn fisol a noda'r aelodau eu bod yn fwy hyderus a bod y panel yn gynhyrchiol, gan roi cipolwg iddynt ar hynt y gwasanaeth.

5.7 Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud gan yr awdurdod lleol ac maent yn amlwg yn deall yr angen i barhau i wella er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae gwasanaethau plant yn gyson dda, ni chaiff achosion lithro, a lle mae pob plentyn yn cael ei ddiogelu rhag cael ei gam-drin.

5.8 Cydnabyddir y nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal ac mae cynlluniau yn cael eu llunio i ddatblygu gwasanaeth gadael gofal er mwyn bodloni'r galw cynyddol. O ystyried y nifer gynyddol o blant fydd yn gadael gofal dros y blynyddoedd i ddod, mae angen i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ar fyrder er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnod o newid a all fod yn anodd.

5.9 Mae nifer o ddogfennau allweddol sydd wedi cael eu datblygu o'r newydd neu eu hadolygu gan gynnwys: strategaeth y gweithlu, fframwaith perfformiad safonau ymarfer, strategaeth atal a pholisi goruchwylio. Nodwyd y gallai rhai o'r polisïau gael budd o fwy o waith. Fodd bynnag, gallent gyfrannu at sicrhau gwelliannau o'u gweithredu, eu cefnogi a'u trosi'n arfer dyddiol.

5.10 Ar y cyfan, roedd y staff yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig am eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr gweladwy, hawdd mynd atynt, a'u bod yn gallu codi pryderon yn ôl y gofyn. Roeddent yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ddogfennaeth newydd ac er eu bod yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith ar rai, yn enwedig y polisi goruchwylio, gwnaethant eu croesawu fel camau cadarnhaol ar daith wella.

5.11 Erys heriau o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol profiadol a dibynnu ar staff asiantaeth. Er bod nifer y staff asiantaeth yn lleihau â’r sefyllfa yn gwella, mae'r newidiadau cyson o ran staff yn arwain at ganlyniadau gwael i'r plant.

Dywedwyd wrth yr arolygwyr am gynlluniau recriwtio a'r cysylltiadau cadarnhaol â Phrifysgol Bangor, sy'n cefnogi'r awdurdod lleol o ran denu gweithwyr cymdeithasol o ansawdd uchel sydd newydd gymhwyso. Cawsom wybod hefyd am fentrau newydd i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol ei hun. Gyda'i gilydd, disgwylir i'r prosiectau hyn ddatrys y prinder gweithwyr cymdeithasol yn yr ardal awdurdod lleol.

5.12 Nodwyd bod ansawdd y gwaith o archwilio achosion yn anghyson. Ar adegau canolbwyntiwyd ar lynu wrth ddyddiadau allweddol yn hytrach nag ansawdd y gwaith na'r canlyniad i'r plentyn. Hefyd gwelsom archwiliadau lle na nodwyd diffygion mewn achosion, er enghraifft roedd un achos wedi cael ei gau gyda'r gwaith heb ei gwblhau. Prin iawn oedd y sylwadau ar ansawdd y dystiolaeth neu ymarfer proffesiynol.

5.13 Rydym yn ymwybodol o ymdrechion yr uwch reolwyr i wella'r broses oruchwylio ac rydym yn ymwybodol o bolisi goruchwylio diwygiedig. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a bod y rheolwyr yn gefnogol iawn. Yn yr achosion a welsom roedd ansawdd y gwaith goruchwylio yn amrywio ac un ffeil yn rhy negyddol. Ni allem fod yn hyderus bod yr holl waith goruchwylio yn effeithiol wrth wella ymarfer neu hyder gweithwyr cymdeithasol.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

Cynhaliwyd 10 diwrnod o weithgarwch gwaith maes.

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 48 o ffeiliau; o'r rhain, cynhaliwyd cyfweliadau olrhain dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu yn achos 18 ohonynt a chynhaliwyd grŵp ffocws olrhain mewn perthynas â rhai ohonynt a oedd yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth.

Gwnaethom gyfweld â phlant, rhieni a pherthnasau.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau, uwch swyddogion, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o 9 ffeil goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu 74 o ganlyniadau arolwg staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion a wnaed am wasanaethau plant.

### Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r bobl ganlynol a wnaeth roi o'u hamser a chyfrannu at yr arolygiad hwn; plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau a sefydliadau partner.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **21 IONAWR 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES, PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>01248 752675<br>GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Gyfalaf

Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Godau Rheoli'r Trysorlys a Darbodus diwygiedig. O 2019/20, bydd angen i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf fydd yn darparu'r canlynol: -

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli; â'r
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd cyllidol yn y dyfodol.

Bydd adroddiad yn cynnwys ein Strategaeth Gyfalaf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2019.

### 1.2 Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras bod arian a godir yn ystod y flwyddyn yn talu am ei wariant ariannol. Mae rhan o weithrediadau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif ariannol hwn yn cael ei gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel, gan sicrhau hylifedd digonol i gychwyn cyn ystyried yr elw gorau posibl o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn ganllaw o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthyca, hynny yw, y gwaith o gynllunio llif arian yn y tymor hir i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gallai'r gwaith hwn o reoli arian yn y tymor hir gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio arian dros ben o'r llif arian tymor hir ac, ar adegau, gall unrhyw ddyled a drefnwyd yn flaenorol gael ei hailstrwythuro i gwrdd ag amcanion risg neu gost y Cyngor.

Yn unol â hyn, diffinnir rheoli'r trysorlys fel hyn:-

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drefniadau bancio a thrafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny*."

## 2. Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (diwygiwyd 2017). Dyma ofynion sylfaenol y Côd:-

**(i)** Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli'r trysorlys y Cyngor.

**(ii)** Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.

**(iii)** Y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a Pholisi Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi sylw i weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**(iv)** Y Cyngor llawn yn dirprwyo cyfrifoldebau am weithredu a monitro'r polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

**(v)** Y Cyngor yn dirprwyo'r gwaith o sgrwtineiddio'r strategaeth a'r polisïau rheoli'r trysorlys i gorff penodol, sef y Pwyllgor Archwilio yn achos y Cyngor hwn.

Mae'r adroddiad canol blwyddyn hwn wedi'i baratoi yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2018/19;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2018/19;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2018/19;
- Adolygiad o unrhyw ail drefnu dyledion yn ystod 2018/19;
- Crynodeb o weithgaredd ers Chwarter 2; ac
- Adolygiad o gydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2018/19.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Rhoddwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Hefyd yn ddiweddar maent wedi darparu'r rhagolwg cyfradd llog canlynol:-

| | Rhag 2018 | Maw 2019 | Meh 2019 | Medi 2019 | Rhag 2019 | Maw 2020 | Meh 2020 | Medi 2020 | Rhag 2020 | Maw 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc(%) | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.25% | 1.25% | 1.50% | 1.50% |
| Cyfradd PWLB 5ml. (%) | 2.00% | 2.10% | 2.20% | 2.20% | 2.30% | 2.30% | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.60% |
| Cyfradd PWLB 10ml.(%) | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.70% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.10% |
| Cyfradd PWLB 25ml.(%) | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.50% | 3.50% |
| Cyfradd PWLB 50ml.(%) | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.30% | 3.30% |

**3.2** Yn ddiweddar darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwadau i gyd-fynd â'r rhagolygon cyfradd llog uchod. Mae'r sylwadau hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

## 4. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**4.1** Cymeradwywyd Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2018/19 gan y Cyngor hwn ar 28 Chwefror 2018. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r TMSS; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yn wyneb y sefyllfa economaidd ddiweddaraf a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 5. Portffolio Buddsoddi 2018/19

**5.1** Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod cyfalaf a hylifedd yn ddiogel, a chael lefel enillion briodol sy'n gyson ag awydd y Cyngor i gymryd risgiau. Fel y nodir yn Adran 3, mae'n farchnad fuddsoddi anodd iawn o ran cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin yn y degawdau blaenorol gan fod y cyfraddau yn isel iawn ar hyn o bryd ac yn gyson â'r gyfradd banc sylfaenol, sef 0.75%. Mae'r posibilrwydd parhaus o argyfwng dyled sofran ym mharth yr Ewro, a'i effaith ar fanciau, yn ein hannog i ddilyn strategaeth risg isel a thymor byr. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r ffaith y bydd cynnydd yng nghyfradd y banc yn debygol o ddigwydd yn raddol ac yn annhebygol o ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn y gorffennol, mae'r incwm a geir o fuddsoddiadau yn debygol o barhau i fod yn isel.

**5.2** Roedd gan y Cyngor £6.089m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2018 (£5.993m ar 31 Mawrth 2018) a'r enillion o'r portffolio buddsoddiadau am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.65%. Mae rhestr lawn o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2018 i'w gweld yn Atodiad 3. Mae crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau i'w gweld yn Atodiad 4.

**5.3** Ni thorrwyd y terfynau a gymeradwywyd o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2018/19.

**5.4** Yr incwm y mae'r Cyngor wedi cyllidebu y bydd yn ei dderbyn o'i fuddsoddiadau ar gyfer 2018/19 ar ei hyd yw £0.017m ac mae'r perfformiad am y flwyddyn hyd yma'n uwch na'r gyllideb, gyda £0.023m wedi'i dderbyn ar ddiwedd Chwarter 2. Y rheswm am hyn yw'r cynnydd yng nghyfradd y banc o 0.5% i 0.75% a ddigwyddodd yn Awst 2018.

**5.5** Mae'r meini prawf gwrthbartïon buddsoddi presennol a gymeradwywyd yn y TMSS yn cwrdd â gofynion swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

**5.6** Mae'r gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau i'w gweld yn Atodiad 5.

## 6. Benthyca

**6.1** Y gofyniad cyllido cyfalaf (GCC) a ragamcanwyd ar gyfer 2018/19 yw £142.0m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn gadarnhaol, gall y Cyngor fenthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus PWLB neu'r farchnad (benthyca allanol) neu o falensau mewnol ar sail dros dro (benthyca mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthyciadau allanol a mewnol yn cael ei ysgogi gan amodau'r farchnad. Rhagwelir y bydd y Cyngor wedi benthyg £125.6m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £16.4m o gyllid llif arian yn lle benthyca. Mae hon yn ffordd ddarbodus a chost effeithiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol ond bydd angen monitro'r sefyllfa'n barhaus os bydd yr enillion o giltiau yn uwch nag a ragwelwyd.

**6.2** Er na chafodd unrhyw arian ei fenthyca yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, rhagwelir y bydd angen benthyca yn ystod ail hanner y flwyddyn.

**6.3** Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol aeddfedodd benthyciad tymor byr o Tyne & Wear Pension Fund ac fe'i had-dalwyd. Roedd yn fenthyciad o £5m ac fe'i tynnwyd allan ar 19/01/18 ar gyfradd llog o 0.50%. Fe'i had-dalwyd ar 19/04/18.


**6.4** Mae cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi bod yn gyfyngedig iawn yn yr hinsawdd economaidd bresennol o ystyried strwythur cyfraddau llog ac yn dilyn y cynnydd yn y gorswm a ychwanegwyd at elw o giltiau sydd wedi effeithio ar gyfraddau benthyca newydd y PWLB ers Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi eu haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon.

**6.5** Ers i Chwarter 2 ddod i ben, mae'r Awdurdod wedi trefnu i fenthyca £5m gan Gyngor Sir Gogledd Efrog. Bydd y benthyciad yn digwydd o 16/10/18 hyd at 16/01/19 ar gyfradd o 0.85%. Mae'r penderfyniad hwn yn unol â'n strategaeth fenthyca bresennol, sef benthyca tymor hirach dim ond pan ydym angen yr arian yn hytrach na benthyca dim ond i fanteisio ar gyfraddau benthyca isel, a hynny oherwydd bod y gost o wneud hynny'n rhy uchel (y gwahaniaeth rhwng y llog a delir a'r elw ar fuddsoddiadau).

**6.6** Mae Atodiad 6 yn dangos graffiau ychwanegol, yn cynnwys Cymharu paramedrau benthyca â benthyciadau allanol gwirioneddol, fel y darparwyd gan Link Asset Services.

**6.7** Mae Atodiad 7 yn dangos gwybodaeth ychwanegol, yn cynnwys ar LOBO's, fel y darparwyd gan Link Asset Services.

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y symudiad yng nghyfraddau sicrwydd PWLB am chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yma:




| | 1 Mlynedd | 5 Mlynedd | 10 Mlynedd | 25 Mlynedd | 50 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/04/18 | 1.48% | 1.84 | 2.22% | 2.55% | 2.27% |
| 30/09/18 | 1.55% | 1.93% | 2.33% | 2.74% | 2.56% |
| Isel | 1.28% | 1.67% | 2.09% | 2.50% | 2.25% |
| Dyddiad | 01/16/2018 | 29/05/2018 | 20/07/2018 | 20/07/2018 | 29/05/2018 |
| Uchel | 1.57% | 1.99% | 2.43% | 2.83% | 2.64% |
| Dyddiad | 17/04/18 | 25/09/2018 | 25/04/18 | 25/09/2018 | 25/09/2018 |
| Cyfartaledd | 1.46% | 1.84% | 2.25% | 2.64% | 2.41% |

## 7 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

**7.1** Mae rhan hon o'r adroddiad wedi'i strwythuro i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am:-

- Gynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Chydymffurfio â'r terfynau yn eu lle ar gyfer y gweithgaredd benthyca.

**7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf**

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf:

| Gwariant Cyfalaf | 2018/19 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000 | Sefyllfa ar 30 Medi 2018 £'000 | 2018/19 Amcangyfrif Presennol £'000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 44,891 | 8,169 | 23,685 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 15,998 | 3,103 | 10,372 |
| Cyfanswm | 60,889 | 11,272 | 34,057 |

**7.2.1** Mae'r gwariant a ragamcanwyd yn dangos bod mwyafrif y prosiectau yn unol â'r targed ac y byddant yn cael eu cwblhau o fewn y gyllideb ond mae 4 prif brosiect (Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Gwelliannau i'r A5025 at Wylfa, Ysgol yr 21ain Ganrif yn Llangefni a phrynu eiddo CRT) lle mae disgwyl tanwariant sylweddol yn y gyllideb yn 2018/19, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y tabl uchod. Ceir dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2018/19, yn yr Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd 2018.

## 7.3 Newidiadau i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf

**7.3.1** Mae rhai newidiadau i gyllido'r rhaglen gyfalaf fel y gellir gweld yn y tabl isod. Mae'r prif reswm am y newid wedi'i nodi ym mharagraff 7.2.1, bydd tanwariant sylweddol ar bedwar cynllun cyfalaf yn 2018/19. Fodd bynnag, bydd y pedwar cynllun hyn yn cario drosodd i 2019/20 ynghyd â'u cyllid ac ni ragwelir, ar hyn o bryd, y collir unrhyw gyllid oherwydd yr oedi.

**7.3.2** Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan bwysleisio trefniadau ariannu gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan gostau refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai yr ychwanegir at yr angen hwn i gael benthyg yn sgil dyled sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill.

| **Cyllido Cyfalaf** | **2018/19 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000** | **2018/19 Amcangyfrif Presennol £'000** |
|---|---:|---:|
| Grantiau Cyfalaf | 33,411 | 15,628 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,228 | 1,346 |
| Cronfeydd wrth gefn | 474 | 972 |
| Cyfraniad Refeniw | 13,329 | 7,703 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,064 | 3,853 |
| Benthyca Diefnogaeth | 5,999 | 4,181 |
| Benthyciad | 374 | 374 |
| Tanwariant o 2017/18 | 1,010 | 0 |
| **Cyfanswm** | **60,889** | **34,057** |

## 7.4 Newidiadau i Ddangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

**7.4.1** Mae tabl 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef angen allanol sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Gelwir hyn y Terfyn Gweithredol, sy'n cael ei osod yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

### 7.4.2 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf

| | 2018/19 Terfyn Gweithredol yn unol â TMSS 2018/19 £000 | 2018/19 Sefyllfa Fenthyca Ddechreuol £000 | Swm o fewn y Terfyn £000 | 2018/19 Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca £000 | Swm o fewn y Terfyn £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosydd Darbodus – Dyled Allanol/ Y Terfyn Gweithredol*** | | | | | |
| Benthyca | 169,000 | 116,425 | 52,575 | 124,455 | 44,545 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 3,000 | 1,353 | 1,647 | 1,168 | 1,832 |
| **Cyfanswm Dyledion 31 Mawrth** | **172,000** | **117,778** | **54,222** | **125,623** | **46,377** |

### 7.4.3 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

**7.4.3.1** Ar hyn o bryd rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf gwreiddiol a ragwelwyd oherwydd y tanwariant a ragwelir o ran benthyca, o ganlyniad yn bennaf i raglen Ysgolion yr 21[ain] Ganrif a'r dull cyllido diwygiedig ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol.

| | 2018/19 Amcangyfrif Gwreiddiol £000 | 2018/19 Amcangyfrif Diwygiedig £000 |
|---|---|---|
| ***Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | |
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 104,425 | 101,217 |
| GCC– HRA | 40,815 | 40,815 |
| Cyfanswm GCC | 145,060 | 142,032 |
| **Symudiad net yn y GCC** | **8,194** | **5,166** |

| | |
|---|---|
| **GCC Gwreiddiol a Ragwelwyd** | **145,060** |
| Tanwariant o ran Benthyca Digefnogaeth o ganlyniad i Fatrics Band A Diwygiedig gyda phwysoliad mwy ar gyfer Grantiau Cyfalaf ar gyfer Adeiladau Newydd Llangefni yn hytrach na benthyca | -1,818 |
| Tanwariant o ran Benthyca â Chefnogaeth o ganlyniad yn bennaf i'r dull cyllido diwygiedig ar gyfer Gofal Ychwanegol Seiriol | -1,210 |
| **GCC Diwygiedig a Ragwelir** | **142,032** |

## 7.5 Terfynau ar Weithgaredd Benthyca

**7.5.1** Y dull rheoli allweddol cyntaf ar gyfer gweithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, na fydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau) ond yn cael ei wneud at ddibenion cyfalaf. Ni ddylai benthyciadau allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer 2018/19 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar ar raddfa gyfyngedig yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi o fenthyca cyn i'r angen godi, a chedwir at y polisi hwnnw os gwelir bod hynny'n ddarbodus.

| | 2018/19 Amcangyfrif Gwreiddiol £000 | Sefyllfa Bresennol ar 30 Medi 2018 £000 | 2018/19 Amcangyfrif Diwygiedig £000 |
|---|---|---|---|
| Benthyca Allanol | 116,425 | 111,420 | 124,455 |
| Benthyca Mewnol | 27,467 | d/b | 16,409 |
| Ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill | 1,168 | 1,168 | 1,168 |
| **GCC (sefyllfa diwedd blwyddyn)** | **145,060** | **d/b** | **142,032** |

**7.5.2** Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn bresennol i gydymffurfio â'r dangosydd darbodus yma.

**7.5.3** Mae dangosydd darbodus pellach yn rheoli'r lefel fenthyca gyffredinol. Hwn yw'r Terfyn Awdurdodedig ac ni chaniateir cymryd benthyg mwy na'r swm hwn. Mae angen i Aelodau osod ac adolygu'r swm, £177m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu faint o arian y gallwn fforddio ei fenthyca yn y tymor byr, er na fyddai'n ddymunol gwneud hynny, ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Hwn yw'r uchafswm y disgwylir y bydd angen ei fenthyca, gyda pheth hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Hwn yw'r terfyn statudol a bennir o dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

| Terfyn wedi'i Awdurdodi ar gyfer Dyled Allanol | 2018/19 Dangosydd Gwreiddiol | Y Sefyllfa Fenthyca Bresennol ar 30 Medi 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyca | 174,000 | 111,420 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 3,000 | 1,168 |
| **Cyfanswm** | **177,000** | **112,588** |

## 8. Argymhelliad

**8.1** Ystyried cynnwys yr adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen at y Cyngor llawn.

**MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** **21 TACHWEDD 2018**

**Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r rhagolygon / Economic Update & Forecasts**

**United Kingdom**

The first half of 2018/19 has seen UK economic growth post a modest performance, but sufficiently robust for the Monetary Policy Committee, (MPC), to unanimously (9-0) vote to increase Bank Rate on 2nd August from 0.5% to 0.75%. Although growth looks as if it will only be modest at around 1.5% in 2018, the Bank of England's August Quarterly Inflation Report forecast that growth will pick up to 1.8% in 2019, albeit there were several caveats – mainly related to whether or not the UK achieves an orderly withdrawal from the European Union in March 2019.

Some MPC members have expressed concerns about a build-up of inflationary pressures, particularly with the pound falling in value again against both the US dollar and the Euro. The Consumer Price Index (CPI) measure of inflation rose unexpectedly from 2.4% in June to 2.7% in August due to increases in volatile components, but is expected to fall back to the 2% inflation target over the next two years given a scenario of minimal increases in Bank Rate. The MPC has indicated Bank Rate would need to be in the region of 1.5% by March 2021 for inflation to stay on track. Financial markets are currently pricing in the next increase in Bank Rate for the second half of 2019.

As for the labour market, unemployment has continued at a 43 year low of 4% on the Independent Labour Organisation measure. A combination of job vacancies hitting an all-time high in July, together with negligible growth in total employment numbers, indicates that employers are now having major difficulties filling job vacancies with suitable staff. It was therefore unsurprising that wage inflation picked up to 2.9%, (3 month average regular pay, excluding bonuses) and to a one month figure in July of 3.1%. This meant that in real terms, (i.e. wage rates higher than CPI inflation), earnings grew by about 0.4%, near to the joint high of 0.5% since 2009. (The previous high point was in July 2015.) Given the UK economy is very much services sector driven, an increase in household spending power is likely to feed through into providing some support to the overall rate of economic growth in the coming months. This tends to confirm that the MPC were right to start on a cautious increase in Bank Rate in August as it views wage inflation in excess of 3% as increasing inflationary pressures within the UK economy. However, the MPC will need to tread cautiously before increasing Bank Rate again, especially given all the uncertainties around Brexit.

In the political arena, there is a risk that the current Conservative minority government may be unable to muster a majority in the Commons over Brexit. However, our central position is that Prime Minister May's government will endure, despite various setbacks, along the route to Brexit in March 2019. If, however, the UK faces a general election in the next 12 months, this could result in a potential loosening of monetary policy and therefore medium to longer dated gilt yields could rise on the expectation of a weak pound and concerns around inflation picking up.

**United States of America**

President Trump's massive easing of fiscal policy is fuelling a (temporary) boost in consumption which has generated an upturn in the rate of strong growth which rose from 2.2%, (annualised rate), in quarter 1 to 4.2% in quarter 2, but also an upturn in inflationary pressures. With inflation moving towards 3%, the Fed increased rates another 0.25% in September to between 2.00% and 2.25%, this being four increases in 2018, and indicated they expected to increase rates four more times by the end of 2019. The dilemma, however, is what to do when the temporary boost to consumption wanes, particularly as the recent imposition of tariffs on a number of countries' exports to the US, (China in particular), could see a switch to US production of some of those goods, but at higher prices. Such a scenario would invariably make any easing of monetary policy harder for the Fed in the second half of 2019.

**Eurozone**

Growth was unchanged at 0.4% in quarter 2, but has undershot early forecasts for a stronger economic performance in 2018. In particular, data from Germany has been mixed and it could be negatively impacted by US tariffs on a significant part of manufacturing exports e.g. cars. For that reason, although growth is still expected to be in the region of 2% for 2018, the horizon is less clear than it seemed just a short while ago.

**China**
Economic growth has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus; medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems.

**Japan**
Japan has been struggling to stimulate consistent significant GDP growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.

***Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services***

## Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog / Commentary on the latest interest rates forecasts

The flow of generally positive economic statistics after the end of the quarter ended 30 June meant that it came as no surprise that the MPC came to a decision on 2 August to make the first increase in Bank Rate above 0.5% since the financial crash, to 0.75%. However, the MPC emphasised again, that future Bank Rate increases would be gradual and would rise to a much lower equilibrium rate, (where monetary policy is neither expansionary of contractionary), than before the crash; indeed they gave a figure for this of around 2.5% in ten years' time but they declined to give a medium term forecast. We do not think that the MPC will increase Bank Rate in February 2019, ahead of the deadline in March for Brexit. We also feel that the MPC is more likely to wait until August 2019, than May 2019, before the next increase, to be followed by further increases of 0.25% in May and November 2020 to reach 1.5%. However, the cautious pace of even these limited increases is dependent on a reasonably orderly Brexit.

The balance of risks to the UK

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is probably neutral.
- The balance of risks to increases in Bank Rate and shorter term PWLB rates, are probably also even and are broadly dependent on how strong GDP growth turns out, how slowly inflation pressures subside, and how quickly the Brexit negotiations move forward positively.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:

- Bank of England monetary policy takes action too quickly over the next three years to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- A resurgence of the Eurozone sovereign debt crisis, possibly Italy, due to its high level of government debt, low rate of economic growth and vulnerable banking system, and due to the election in March of a government which has made a lot of anti-austerity noise. This is likely to lead to friction with the EU when setting the target for the fiscal deficit in the national budget. Unsurprisingly, investors have taken a dim view of this and so Italian bond yields have been rising.
- Austria, the Czech Republic and Hungary now form a strongly anti-immigration bloc within the EU while Italy, this year, has also elected a strongly anti-immigration government. In the German general election of September 2017, Angela Merkel's CDU party was left in a vulnerable minority position as a result of the rise of the anti-immigration AfD party. To compound this, the result of the Swedish general election in September 2018 has left an anti-immigration party potentially holding the balance of power in forming a coalition government. The challenges from these political developments could put considerable pressure on the cohesion of the EU and could spill over into impacting the euro, EU financial policy and financial markets.
- The imposition of trade tariffs by President Trump could negatively impact world growth. President Trump's specific actions against Turkey pose a particular risk to its economy which could, in turn, negatively impact Spanish and French banks which have significant exposures to loans to Turkey.
- Weak capitalisation of some European banks.
- Rising interest rates in the US could negatively impact emerging countries which have borrowed heavily in dollar denominated debt, so causing an investor flight to safe havens e.g. UK gilts.
- Geopolitical risks, especially North Korea, but also in Europe and the Middle East, which could lead to increasing safe haven flows.

Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates

- President Trump's fiscal plans to stimulate economic expansion causing a significant increase in inflation in the US and causing further sell offs of government bonds in major western countries.

- The Fed causing a sudden shock in financial markets through misjudging the pace and strength of increases in its Fed. Funds Rate and in the pace and strength of reversal of QE, which then leads to a fundamental reassessment by investors of the relative risks of holding bonds, as opposed to equities. This could lead to a major flight from bonds to equities and a sharp increase in bond yields in the US, which could then spill over into impacting bond yields around the world.
- The Bank of England is too slow in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflation pressures to build up too strongly within the UK economy, which then necessitates a later rapid series of increases in Bank Rate faster than we currently expect.

UK inflation, whether domestically generated or imported, returning to sustained significantly higher levels causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

**Crynodeb Benthyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2018/19**
**Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2018/19**

| | 30 Medi / Sept 2018 | | 30 Mehefin / June 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | % (ei dalu ar fenthyca a'i dderbyn ar fuddsoddiad) | £m | % (ei dalu ar fenthyca a'i dderbyn ar fuddsoddiad) |
| Benthyca – graddfa sefydlog<br>Borrowing – fixed rate | 111.4 | 5.15 | 114.4 | 5.15 |
| Benthyca – graddfa amrywiol<br>Borrowing – variable rate | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod<br>Deposits – Call to 30 days | 6.1 | 0.65 | 8.7 | 0.38 |
| Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl.<br>Deposits – Fixed Term < 1 year | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. +<br>Deposits – Fixed Term 1 year + | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Cyfanswm Adneuon<br>Total Deposits | 6.1 | 0.65 | 8.7 | 0.38 |
| Adneuon Uchaf yn y Chwarter<br>Highest Deposits in the Quarter | 14.8 | d/b / n/a | 22.5 | d/b / n/a |
| Adneuon Isaf yn y Chwarter<br>Lowest Deposits in the Quarter | 6.1 | d/b / n/a | 5.5 | d/b / n/a |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Average Deposits in the Quarter | 10.4 | 0.48 | 14.2 | 0.31 |

Ni dorwyd unrhyw un o'r dangosyddion trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
None of the treasury indicators were breached during the first half of the year.

**ATODIAD / APPENDIX 4**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2018*
## Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2018*

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw / tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O / I)/ Period (From / To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **6.086** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.65** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A+** | **A-1** | **Glas – 12 mis/ Blue -12m months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **0.001** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc (Part / Nationalised) | **0.002** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **Baa2** | **P-2** | **BBB-** | **A-3** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |

* Ceir y Rhestr Benthyca Cymeradwyedig yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol/ The Approved Lending List can be found at Appendix 6 of the 2018/19 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment

**ATODIAD / APPENDIX 5**

**Gwledydd Cymeradwyedig ar gyfer buddsoddiad**

Yn seiliedig ar y raddfa credyd sofran isaf ar gael

AAA
- Awstralia
- Canada
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Isel Diroedd
- Norwy
- Singapôr
- Sweden
- Y Swistir


AA+
- Y Ffindir
- U.D.A.

AA
- Abu Dhabi (UAE)
- Ffrainc
- Hong Kong
- D.U.

AA-
- Gwlad Belg
- Qatar


## Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs

Cymhariaeth o baramedrau benthyca i fenthyca allanol gwirioneddol





**Amrywiaethau Cyfraddau Sicrywdd PWLB i 30-09-18**

**PWLB Certainty Rate Variations to 30.9.2018**




| | Bank Rate | 7 day | 1 mth | 3 mth | 6 mth | 12 mth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| High | 0.75 | 0.59 | 0.60 | 0.68 | 0.78 | 0.94 |
| High Date | 02/08/2018 | 14/09/2018 | 18/09/2018 | 06/08/2018 | 03/08/2018 | 21/09/2018 |
| Low | 0.50 | 0.35 | 0.37 | 0.48 | 0.59 | 0.75 |
| Low Date | 01/04/2018 | 19/07/2018 | 30/05/2018 | 30/05/2018 | 30/05/2018 | 30/05/2018 |
| Average | 0.58 | 0.43 | 0.47 | 0.61 | 0.71 | 0.87 |
| Spread | 0.25 | 0.24 | 0.23 | 0.21 | 0.19 | 0.19 |




***Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from:  Link Asset Services***

**ATODIAD / APPENDIX 7**

**Gwybodaeth Ychwanegol / Additional information**

**1. UK banks – ring fencing**
The largest UK banks, (those with more than £25bn of retail / Small and Medium-sized Enterprise (SME) deposits), are required, by UK law, to separate core retail banking services from their investment and international banking activities by 1st January 2019. This is known as “ring-fencing”. Whilst smaller banks with less than £25bn in deposits are exempt, they can choose to opt up. Several banks are very close to the threshold already and so may come into scope in the future regardless.

Ring-fencing is a regulatory initiative created in response to the global financial crisis. It mandates the separation of retail and SME deposits from investment banking, in order to improve the resilience and resolvability of banks by changing their structure. In general, simpler, activities offered from within a ring-fenced bank, (RFB), will be focused on lower risk, day-to-day core transactions, whilst more complex and “riskier” activities are required to be housed in a separate entity, a non-ring-fenced bank, (NRFB). This is intended to ensure that an entity’s core activities are not adversely affected by the acts or omissions of other members of its group.

While the structure of the banks included within this process may have changed, the fundamentals of credit assessment have not. The Council will continue to assess the new-formed entities in the same way that it does others and those with sufficiently high ratings, (and any other metrics considered) will be considered for investment purposes.

**2. IFRS9 accounting standard**
This accounting standard came into effect from 1st April 2018. It means that the category of investments valued under the available for sale category will be removed and any potential fluctuations in market valuations may impact onto the Surplus or Deficit on the Provision of Services, rather than being held on the balance sheet. This change is unlikely to materially affect the commonly used types of treasury management investments but more specialist types of investments, (e.g. pooled funds, third party loans, commercial investments), are likely to be impacted.

**3. Changes in risk appetite**
The 2018 CIPFA Codes and guidance notes have placed enhanced importance on risk management. Where an authority changes its risk appetite e.g. for moving surplus cash into or out of certain types of investment funds or other types of investment instruments, this change in risk appetite and policy should be brought to members’ attention in treasury management update reports.

**4. LOBOs**

a) **Inverse LOBOs**- Any authority which has these LOBOs may wish to update members on developments in the current financial year.

b) **Rescheduling of LOBOs** into fixed rate debt. We already have paragraph 8. Debt rescheduling so that may be a suitable point to add in information to update members on developments in the current financial year.

**5. WELSH AUTHORITIES**

Treatment of Money Market Funds and investments involving the purchase of loan capital etc
LAS comment: clients may need to check their current TMSS in order to ascertain whether some additions to approved investments can be made as a result of the updated 2018 regulations. If so, a specific resolution requesting member approval for specific additions of types of investment should be added to this report.

The 2018 No.325 (W.61) Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) (Amendment) Regulations 2018 have been issued which have introduced some changes to the treatment of certain types of treasury management investments. Paragraph 9 now makes clear that the following types of investment are not to be treated as being capital expenditure: -

**1.** A treasury investment involving the acquisition of loan capital, through a bond issued via grant or for financial assistance for a capital purpose will remain capital expenditure;

**2.** An investment in a money market fund;

**3.** An investment in the shares of a company to which Part 12 of the Corporation Tax Act 2010(1) (real estate investment trusts) applies;

**4.** The acquisition of shares in an investment scheme approved by the Treasury under section 11(1) of the Trustee Investments Act 1961(2) (local authority investment schemes).

***Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services***

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Ionawr 2019** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Cyfranogiad Lleol Tenantiaid 2018-23** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Elliw Llŷr**<br>**01248 752137**<br>**ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dd/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**A1.** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-
Strategaeth Cyfranogiad Lleol Tenantiaid

**Rhesymau**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod Landlordiaid Cymdeithasol yn cytuno a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad ar gyfer Gwasanaethau Tai. Drwy ddarparu Strategaeth sydd yn cynnig amrediad o ddulliau cymryd rhan gall Tenantiaid ddewis sut a phryd maent yn dymuno cymryd rhan.

**1.0 Cefndir**

Mae gan bob tenant tai cymdeithasol a phrydles hawl i gael eu hymgynghori ac i fod yn rhan o weithgareddau cyfranogiad tenantiaid. Pwrpas y Strategaeth Cyfranogiad Lleol Tenantiaid yw sicrhau bod Tenantiaid yn deall beth yw cyfranogiad tenantiaid a sut gallant gymryd rhan.
Fel landlord cymdeithasol mae angen i Gyngor Ynys Môn gael SCLLT er mwyn cydymffurfio gyda Strategaeth Genedlaethol LLC ar Gyfranogiad, 2007.
Mae Tenantiaid a Staff wedi cymryd rhan i ddatblygu'r Strategaeth hon drwy gyfres o gyfarfodydd a holiaduron.
Nod ac Amcanion y Strategaeth yw:
**Annog tenantiaid i weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn i ddylanwadu ar, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir**
Byddwn yn gwneud hynny drwy:

- Darparu ystod o opsiynau ystyrlon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisïau, amodau a gwasanaethau tai
- Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid
- Rhoi gwybod i denantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt
- Sicrhau y caiff Cyfranogiad Tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr Adran
- Cefnogi Tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt

| |
|---|
| Gweler **Atodiad 1 a 2** am gopi o’r Strategaeth yn ogystal ag fersiwn hawdd i’w ddarllen<br>Mae cyfres o 5 gweithdy wedi ei gynnal ar y cyd a dyma sylwadau un o’r tenantiaid:<br>*‘mi rydwyf wedi cael cyfle i roi mewnbwn a dylanwadu'r Strategaeth’*<br>*‘Mae gen i well dealltwriaeth sut mae Gwasanaethau Tai yn gweithio rŵan’.*<br><br>**Ymgynghori**<br>Gan fod y Strategaeth wedi cael ei ysgrifennu ar y cyd gyda staff a thenantiaid cafwyd cyfle i dderbyn ymatebion ehangach lluniwyd holiadur ar lein ar gyfer derbyn ymatebion. Mae **Atodiad 3** yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd**.** Derbyniwyd 23 o ymatebion gyda 100% yn cytuno gydag amcanion y Strategaeth. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Bydd peidio cael Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid cyfredol mewn lle yn golygu na fyddai modd mesur effaith mae tenantiaid yn ei gael ar wella gwasanaethau tai |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Fel bod y Cyngor wedi rhoi sêl bendith bod Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn bwysig |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi, wedi ei gynnwys o fewn Cynllun Refeniw Tai |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Dim sylwadau |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Sgriwtini** | Cyflwynwyd y Strategaeth drafft i'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar y 8 Mawrth 2018. Penderfynwyd y Pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth i fynd i ymgynghoriad |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Ddim wedi eu hadnabod |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Ddim wedi eu hadnabod |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim wedi eu hadnabod |
| 4 | **Amgylcheddol** | Ddim wedi eu hadnabod |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Ddim wedi eu hadnabod |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim wedi eu hadnabod |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 Strategaeth Cyfrangoiad Lleol Tenantiaid<br>Atodiad 2 Fersiwn Hawdd i'w ddarllen o'r Strategaeth<br>Atodiad 3 Ymatebion i'r Ymgynghoriad |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Ynys Môn
THE ISLE OF
# Anglesey

# Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid





## 2018 / 2023

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

## CYNNWYS


| Eitem | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagair | 2 |
| 2 | Cyflwyniad | 3 |
| 3 | Nodau ac amcanion Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2023 | 4 |
| 4 | Monitro'r Strategaeth | 5 |
| 5 | Adnoddau i gyflawni'r Gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid | 5 |
| 6 | Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 5 |
| 7 | Datblygu Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 | 6 |
| 8 | Y cyd-destun cenedlaethol a lleol | 7 |
| 9 | Cyfleoedd i gymryd rhan | 8 |
| 10 | Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2015 – 2018; Pa mor dda berfformion ni? | 12 |
| | Cynllun Gweithredu 2018/19 | 16 |


## 1. RHAGAIR



"Rwy'n falch o gyflwyno Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 - 2023 Ynys Môn.

Fel Cyngor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid i wella gwasanaethau. Mae tenantiaid wedi bod wrth wraidd ein gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi ein helpu i weithio tuag at ein gweledigaeth, 'cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy'.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant y strategaethau blaenorol ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gyfranogiad tenantiaid.

Mae hwn yn amser arbennig o gyffrous i gymryd rhan mewn cyfranogiad tenantiaid gan fod llawer o newidiadau yn digwydd o fewn y Gwasanaethau Tai. Yn dilyn diwygio'r Cyfrif Refeniw Tai, rydym yn ariannu'n hunain, sy'n golygu bod gennym lawer mwy o hyblygrwydd i reoli ein stoc dai a gwella amodau tai. Mae gan denantiaid rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol a'n bod yn rhoi gwerth am arian.

Yn ogystal, mae angen cefnogaeth ein tenantiaid a'n partneriaid arnom i'n helpu ni i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau a ddaw gan Ddiwygiad Lles a lleihau gwariant cyhoeddus, gan ddefnyddio arloesedd.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth newydd. Rwy'n gobeithio y bydd yn annog mwy o denantiaid i gymryd rhan. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol ".

**Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai**


# 2. CYFLWYNIAD

**Beth yw Cyfranogiad Tenantiaid?**

Mae Cyfranogiad Tenantiaid yn golygu tenantiaid a landlordiaid yn cydweithio i rannu gwybodaeth a syniadau i wella gwasanaethau tai.

Gall tenantiaid ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch:
- Polisïau tai
- Amodau tai
- Gwasanaethau tai

Gall Cyfranogiad Tenantiaid fod o fantais i denantiaid a landlordiaid







**Beth yw'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid (LTPS)?**

Mae gan yr holl denantiaid tai cymdeithasol a lesddeiliaid yr hawl i gael ymgynghoriad a chymryd rhan mewn gweithgaredd cyfranogiad tenantiaid. Pwrpas y Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid yw sicrhau bod tenantiaid yn deall beth yw cyfranogiad tenantiaid a sut y gallant gymryd rhan.

Fel landlord cymdeithasol mae'n rhaid i Gyngor Ynys Môn fod ag LTPS yn ei lle i gydymffurfio â Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid Llywodraeth Cymru 2007.

Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu ymrwymiad Cyngor Ynys Môn i gyfranogiad tenantiaid a'i nod yw:

✔ Rhoi gwybod i denantiaid beth yw cyfranogiad tenantiaid a'r manteision allweddol
✔ Amlygu ystod y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan
✔ Egluro sut caiff y gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid ei gyflwyno a'i gefnogi a sut y caiff adnoddau ar ei gyfer yn ystod 2018 - 2023 (yn cynnwys cynllun gweithredu 12 mis)
✔ Egluro sut caiff y gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid ei fonitro

## 3. NOD AC AMCANION LTPS 2018 – 2023

Nod Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 - 2023 yw:

"'Annog tenantiaid i weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn i ddylanwadu ar, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir".

Y pum amcan allweddol a fydd yn helpu i gwrdd â'r nod cyffredinol yw

| | **Amcanion allweddol** | **Canlyniadau arfaethedig** |
|---|---|---|
| A | Darparu ystod o opsiynau ystyrlon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisïau, amodau a gwasanaethau tai. | • Gwasanaeth gwell.<br>• Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.<br>• Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau<br>• Gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn hawdd cael atynt.<br>• Ymgynghoriadau'n cynrychioli'r tenantiaid yn ehangach. |
| B | Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid. | • Mae tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.<br>• Mae tenantiaid yn deall yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfraniad.<br>• Gwasanaeth gwell.<br>• Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.<br>• Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau<br>• Tenantiaid yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn well yn ddigidol a'u cysylltu drwy'r dechnoleg.<br>• Gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn hawdd cael atynt.<br>• Ymgynghoriadau'n cynrychioli'r tenantiaid yn ehangach. |
| C | Rhoi gwybod i denantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. | • Mae tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.<br>• Mae tenantiaid yn deall yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfraniad.<br>• Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.<br>• Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau |
| CH | Sicrhau y caiff Cyfranogiad Tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr Adran. | • Gwasanaeth gwell.<br>• Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.<br>• Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau<br>• Swyddogion yn deall pwysigrwydd Cyfranogiad Tenantiaid. |
| D | Cefnogi Tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt | • Tenantiaid yn dysgu mwy am Ddiwygiad Lles<br>• Tenantiaid yn cael mwy o hyder i ymdrin â heriau Diwygiad Lles<br>• Llai o ddyledion Rhent |

Bob blwyddyn bydd gan yr LTPS Gynllun Gweithredu cyfredol yn ei le i esbonio sut caiff y gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid ei gyflawni. Bydd yn cynnwys:

• Y tasgau a wneir i gyflawni pob amcan.

• Amserlenni; pa bryd gaiff y dasg ei chwblhau.

• Canlyniadau arfaethedig pob tasg (pa wahaniaeth fydd yn cael ei wneud).

• Sut bydd y canlyniadau'n cael eu mesur.

## 4. MONITRO'R STRATEGAETH

Bydd Cynllun Gweithredu 12 mis y Strategaeth yn cael ei fonitro'n chwarterol gan y grŵp monitro SLCT a bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd Tai.

Mae'r grŵp Monitro SLCT yn grŵp ffurfiol a sefydlwyd i fonitro gweithrediad y Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid. Mae aelodaeth wedi ei chyfyngu i 10 aelod ac mae'n cynnwys yr un nifer o Swyddogion Tai a thenantiaid.

I fonitro'r cynnydd, bydd y grŵp yn cyfarfod unwaith bob tri mis i edrych ar y cynllun gweithredu a phenderfynu:

- A ydym wedi cyflawni'r hyn y dywedasom y byddem yn ei gyflawni? Os ddim, pam ddim?
- A ydym ni wedi sicrhau gwerth am arian? Os ddim, pam ddim?

Bydd y grŵp hefyd yn cytuno:

- Yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y tri mis nesaf.
- A oes angen newid y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu.

Mae copi o gylch gorchwyl y grŵp ar gael ar wefan y Cyngor www.anglesey.gov.uk

## 5. ADNODDAU I GYFLAWNI'R GWASANAETH CYFRANOGIAD

Er mwyn cydlynu gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid mae yna ddau Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, y 'Tîm Cyfranogiad Tenantiaid'.

Mae cyllideb flynyddol o £ 102,000 i ariannu gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid ac adnoddau staff. Er mwyn ychwanegu at y gyllideb, bydd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn anelu at weithio mewn partneriaeth i gynnal gweithgareddau, bydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn helpu i sicrhau adnoddau anariannol megis offer ac amser a sgiliau swyddogion.

## 6. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae gan bob tenant yr hawl i gyfranogi ac am y rheswm hwnnw nod y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yw sicrhau bod gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn agored ac ar gael i bawb:

- Cynhelir gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid mewn lleoliadau hygyrch
- Cynhelir gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoliadau.
- Cynigir cludiant am ddim a gofal plant.
- Mae gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn ddwyieithog ac mae tenantiaid yn gallu defnyddio'u dewis iaith.
- Darperir gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau megis print bras a braille (ar gais).

Mae Gwasanaethau Tai wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a chael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon mewn perthynas â'r naw nodwedd warchodedig fel y cyfeirir atynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010; Oedran, Ailbennu rhywedd, Hil, Rhyw, Cyfeiriadedd rhywiol, Anabledd, Priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Crefydd neu gred.

# 7. DATBLYGU STRATEGAETH 2018

Gan fod Cyfranogiad Tenantiaid yn golygu tenantiaid a landlordiaid yn cydweithio, roedd yn bwysig bod y strategaeth yn cael ei hysgrifennu mewn partneriaeth â thenantiaid.

Er mwyn datblygu'r strategaeth, estynnwyd gwahoddiad i denantiaid a Swyddogion Tai gymryd rhan mewn grŵp ffocws.

Math o weithgaredd cyfranogiad tenantiaid yw grŵp ffocws a ddefnyddir i gasglu adborth a barn ar bwnc penodol. Cynhelir grŵp ffocws dros gyfnod byr o amser ac fe'i bwriedir i sicrhau y cyflawnir y canlyniad terfynol.

Hwyluswyd y grŵp ffocws a sefydlwyd i ysgrifennu'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid gan TPAS Cymru, corff annibynnol sy'n cefnogi landlordiaid a thenantiaid i ddarparu gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid effeithiol:

Amlinellir camau grŵp ffocws yr LTPS isod:

| | |
|---|---|
| CAM 1 | • Cefnogi aelodau yn eu rôl yn y grŵp ffocws. Bwriad cam 1 oedd rhoi hyfforddiant 'cyflwyniad i gyfranogiad tenantiaid'<br>• Roedd yr hyfforddiant hwn yn helpu aelodau i ddeall beth yw cyfranogiad tenantiaid a pham yr ydym yn ei wneud |
| CAM 2 | • Trafod dulliau cyfredol o gyfranogiad tenantiaid - sut gall tenantiaid gymryd rhan, yn cynnwys cryfderau a gwendidau. Ceir disgrifiad o weithgarwch Cyfranogiad Tenantiaid ar dudalen 8<br>• Trafod rhesymau pam nad yw tenantiaid, o bosib, yn dymuno na/neu'n medru cymryd rhan mewn gweithgaredd cyfranogiad tenantiaid ac atebion i sicrhau bod modd cael mynediad at gyfranogiad tenantiaid. Ceir crynodeb o ganlyniad y drafodaeth hon ar dudalen 11 |
| CAM 3 | • Trafod polisi cenedlaethol a lleol a allai gael effaith ar y strategaeth (gweler tudalen 7). |
| CAM 4 | • Adolygu'r strategaeth flaenorol (2015 - 2018 LTPS) - pa mor dda berfformion ni, yn cynnwys llwyddiannau allweddol a meysydd i'w gwella<br>• Ceir crynodeb o ganlyniad y drafodaeth hon ar dudalennau 12-14. |
| CAM 5 | • Cytuno ar gyfeiriad strategaeth 2018 - beth sydd eisiau ei gyflawni arnom, beth yw'r blaenoriaethau (gweler tudalen 4). |
| CAM 6 | • Adolygu'r Strategaeth ddrafft derfynol cyn yr ymgynghoriad ffurfiol a chytuno arni<br>• Datblygu cynllun cyfathrebu i hyrwyddo'r SLCT<br>• Ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a chytuno ar y strategaeth derfynol |

Mae gweithio mewn partneriaeth fel hyn:
1. Yn dangos ein hymrwymiad i gyfranogiad tenantiaid,
2. 2.Yn dangos sut gall tenantiaid rannu eu barn a chael dylanwad ar
   a. polisi tai a
   b. darparu gwasanaethau tai.

Beth ydym yn gobeithio'i gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r LTPS?
1. Mae tenantiaid yn teimlo'n hyderus y gallant rannu eu barn ac y byddir yn gwrando arnynt.
2. Mae blaenoriaethau'r strategaeth yn adlewyrchu anghenion y tenantiaid a'r landlord.
3. Mae Swyddogion Tai yn deall manteision cyfranogiad tenantiaid.
4. Mae'r strategaeth yn ystyriol o'r tenant ac yn hawdd ei deall.

Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y grŵp Monitro SLCT (gweler tudalen 5).

## 8.Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL A LLEOL

Er mwyn sicrhau bod Cyfranogiad Tenantiaid wrth wraidd darparu gwasanaethau, rhaid datblygu gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid yn unol â blaenoriaethau busnes y Gwasanaethau Tai. Dylanwadir ar y blaenoriaethau hyn gan bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**Polisi a deddfwriaeth genedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru sy'n cael effaith ar flaenoriaethau busnes y Gwasanaethau Tai ar hyn o bryd:**

Mae'r **Diwygiad Lles**

Yn newid y system budd-daliadau lles a gweithredir arno mewn camau

→ Mae newidiadau y mae Diwygiad Lles (DLI) yn cael dylanwad arnynt yn debygol o gael effaith ar allu tenant i dalu ei rent

Mae angen i weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid baratoi tenantiaid am DLI

Mae **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2018**

Bydd Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

→ Yn newid yr holl gytundebau tenantiaeth yng Nghymru

Yn dod â'r Hawl i Brynu i denantiaid Awdurdodau Lleol i ben

Bydd rhaid i denantiaid gael gwybod am y newidiadau hyn

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Yn rhoi pobl wrth wraidd eu gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth

→ Mae gan Awdurdodau rôl i'w chwarae mewn gwella iechyd a lles a chryfhau'r cysylltiadau rhwng iechyd a thai

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Nod deddf tai gyntaf erioed Cymru yw gwella'r cyflenwad tai yng Nghymru, eu hansawdd a'u safonau

→ Blaenoriaethau cyfredol sy'n debygol o gael effaith ar yr LTPS:

Mae'n ofynnol i ALlau fod â Strategaeth Atal Digartrefedd yn ei lle erbyn 2018.

Angen targedu adnoddau'n effeithiol a dangos gwerth am arian

Mae **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**


Yn defnyddio dull gweithredu newydd I ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

→ Mae angen I bolisïau tai a gwaith cyflawni gwasanaeth adlewyrchu'r newidiadau y mae'r Ddeddf yn dylanwadu arnynt.

# 9. CYFLEOEDD I GYMRYD RHAN

**Mae'r isod ymhlith blaenoriaethau busnes cyfredol y Gwasanaethau Tai:**

- ✔ Paratoi tenantiaid ar gyfer Diwygiad Lles
- ✔ Lleihau tlodi tanwydd
- ✔ Gweithio tuag at Safon Amgylcheddol Ansawdd Tai Cymru
- ✔ Gwella'r defnydd a wneir o TG i gyflawni gwasanaethau tai a gwella cyfathrebu
- ✔ Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- ✔ Datblygu a gweithredu Strategaeth Ranbarthol ar Atal Digartrefedd
- ✔ Gweithredu Deddf Rhenti Cartrefi (Cymru) 2016
- ✔ Gweithredu Deddf Diddymu Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018




Nod y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yw cynnig ystod eang o weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn gallu 'cymryd rhan' mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Y 'ddewislen opsiynau' yw'r enw ar hwn.

Cynigir gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid ar bedair lefel:

- ✔ Cyfarfodydd ffurfiol lefel uchel
- ✔ Cyfarfodydd anffurfiol lefel canolig
- ✔ Digwyddiadau cymunedol yn eich ardal
- ✔ Lefel isel yng nghysur eich cartref eich hun

Mae'r tabl ar dudalen 9 yn disgrifio'r dulliau Cyfranogiad Tenantiaid sydd ar gael ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **Cyfranogiad lefel isel – yng nghysur eich cartref** | |
| Llenwi holiadur neu arolwg (arolygon post, drws i ddrws, dros y ffôn neu ar lein) | Fe'u defnyddiwyd at ddibenion ymgynghori a chael adborth tenantiaid. |
| Darllen Cylchlythyr Llais Môn i Denantiaid ac anfon adborth atom | Fe'u defnyddiwyd i rannu gwybodaeth gyda thenantiaid. |
| **Cyfranogiad lefel isel – digwyddiad yn eich ardal** | |
| Sioe Deithiol yr Adran Dai yn cynnwys cerdded o amgylch stadau | Mae sioeau teithiol yn gweithredu o drelar ar stad a'r nod yw codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau, y wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i denantiaid.<br><br>Mae'r daith gerdded o amgylch y stad yn gyfle i denantiaid ddweud wrthym am unrhyw faterion amgylcheddol sy'n peri pryder i bobl leol, mae hyn yn ein helpu i weithio tuag at sicrhau bod tenantiaid yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o'u hardal. |
| Diwrnod glanhau'r gymuned. | Nod diwrnod Glanhau'r Gymuned yw grymuso tenantiaid i ymfalchïo yn eu hardal leol.<br><br>Mae sgipiau ar gael trwy gydol y digwyddiad a chaiff tenantiaid (o'r ardal benodol) eu hannog i ddefnyddio'r sgipiau i gael gwared ag eitemau o'r cartref nad oes eu hangen mwyach.<br><br>(Cais trwy'r gronfa gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned) |
| Prosiectau amgylcheddol | Nod digwyddiadau cymunedol yw cefnogi tenantiaid i deimlo'n falch o lle maent yn byw a theimlo'n ddiogel yno er enghraifft, creu rhandiroedd cymunedol neu ardd synhwyraidd.<br><br>(Cais trwy'r gronfa gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned) |
| Cronfa Gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned | Mae'r Gronfa Gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned yn fodd i denantiaid wneud cais am grant gwerth hyd at £5000 o welliannau amgylcheddol neu sefydlu prosiect amgylcheddol yn cynnwys diwrnod glanhau'r gymuned |
| Hyfforddiant i denantiaid | Mae hyfforddiant ar gael i denantiaid i'w cefnogi. Gall yr hyfforddiant gynnwys cefnogaeth i gyfranogi'n effeithiol e.e. hyfforddiant i aelod o bwyllgor neu gymorth i gynnal eu tenantiaethau megis sgiliau cyllidebu. |
| Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr | Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr yw grŵp o denantiaid a phreswylwyr sy'n dod at ei gilydd i gynrychioli stad, cymdogaeth, stryd neu floc o fflatiau, ei aelodau fydd yn penderfynu ar yr union rôl. Er enghraifft gall Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr weithio gyda'r Cyngor i wella'r amgylchedd a'r cyfleusterau ar eu stad neu helpu i wella gwasanaethau tai rheng flaen. |
| Prosiect rhwng cenedlaethau | Mae Prosiectau Rhwng Cenedlaethau'n cynnwys cenedlaethau gwahanol o'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nod, er enghraifft, pobl ifanc yn dysgu pobl hŷn sut i ddefnyddio cyfrifiadur. |

| Cyfranogiad lefel canolig– cyfarfodydd anffurfiol | |
|---|---|
| Fforwm Tai Gwarchod | Sefydlwyd Fforwm Tai Gwarchod Môn yn 2007 ac mae'n agored i bob tenant sy'n byw mewn llety gwarchod.<br><br>Nod y Fforwm Tai Gwarchod yw: rhannu gwybodaeth am wasanaethau a gwella iechyd a lles tenantiaid trwy godi hyder tenantiaid sy'n cymryd rhan a lleihau arwahanrwydd. |
| **Cyfranogiad lefel uchel– cyfarfodydd ffurfiol** | |
| Grŵp Tasg a Gorffen | Math o weithgaredd cyfranogiad tenantiaid yw grŵp ffocws a ddefnyddir i gasglu adborth a barn ar bwnc penodol. Cynhelir grŵp ffocws dros gyfnod byr o amser ac fe'i bwriedir i sicrhau y cyflawnir y canlyniad terfynol. |
| Grŵp Cyhoeddi | Mae'r grŵp cyhoeddi'n sicrhau fod yr holl ddogfennau a lunir gan y Gwasanaethau Tai ar ffurf sy'n hawdd ei deall ac yn ystyrlon o denantiaid.<br><br>Gallai dogfennau gynnwys yr isod: Cylchlythyr i Denantiaid, Taflenni, Llawlyfr i Denantiaid, Taflenni Ffeithiau'r Adran Dai |
| Fforwm Trwsio a Chynnal | Mae'r fforwm trwsio'n monitro'r gwasanaeth trwsio a chynnal gan gynnwys bodlonrwydd cwsmeriaid. Y nod yw sicrhau fod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus ac adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol. |
| Archwiliwr-Denant | Mae'r Grŵp Archwilio Tenantiaid yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Tai i wella gwasanaethau i'r tenantiaid a'r landlord |
| Panel Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn | Panel strategol yw Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn o'r enw MOTV ac mae arno denantiaid a swyddogion tai sy'n cyfarfod yn chwarterol i fonitro cynnydd yr LTPS. Mae'r panel yn cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid ac ar neilltuo'r gyllideb Cyfranogiad Tenantiaid er mwyn "sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus" |

## Rhwystrau tenantiaid i gyfranogiad tenantiaid

Mae'r tabl isod yn crynhoi barn y grŵp ffocws LTPS ar y rhesymau pam na fydd tenantiaid yn gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid a sut bydd y Gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei addasu i geisio annog mwy o denantiaid i gymryd rhan.

| | **Rhwystr** | **Sut bydd y Gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei addasu** |
|---|---|---|
| **Mewnol** | Hyder y tenant | Bod yn groesawgar<br>Cynnig system 'cyfaill' |
| | Iaith – gallai denantiaid deimlo nad ydynt yn deall y jargon | Defnyddio iaith glir wrth wahodd tenantiaid i gymryd rhan ac yn ystod cyfarfodydd |
| | Iechyd corfforol | Sicrhau fod lleoliadau a thrafnidiaeth yn ystyriol o'r anabl. |
| | Sgiliau llythrennedd - efallai y bydd tenantiaid yn meddwl y gofynnir iddynt ddarllen mewn cyfarfod neu efallai na fyddant yn deall y gwahoddiad i fynychu gweithgaredd. | Esbonio'r yr hyn a ddisgwylir gan denantiaid yn ystod cyfarfod.<br>Sicrhau fod yr holl Swyddogion Tai yn ymwybodol o weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid i hyrwyddo'r opsiynau i gymryd rhan. |
| | Efallai y bydd tenantiaid yn amheus - na fydd y Cyngor yn gwrando ar eu barn. | Adborth ar yr holl weithgarwch cyfranogiad tenantiaid; dywedoch, gwnaethon neu dywedoch, nid oeddem yn gallu gwneud, oherwydd. |
| **Allanol** | Ymrwymiadau gwaith | Amrywiol amseroedd cyfarfodydd |
| | Diffyg gwybodaeth | Angen hysbysebu mwy ar weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid. |
| | Ymrwymiadau teuluol | Hyrwyddo'r cymhelliant gofal plant. |
| | Lleoliad - diffyg cludiant tenantiaid neu eu bod yn anfodlon teithio oherwydd ymrwymiadau. | Amrywio lleoliad y cyfarfodydd. |
| | Arian | Hyrwyddo'r cymhelliant cost teithio |
| | Cod gwisg - efallai y bydd tenantiaid yn poeni am yr hyn i'w wisgo. | Dweud beth sydd i'w ddisgwyl o denantiaid yn ystod cyfarfod |

## 10. 2015 – 2018 PA MOR DDA BERFFORMION NI?

Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, cyn datblygu'r strategaeth hon roedd yn bwysig adolygu'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid a gyflwynir ar hyn o bryd a'r perfformiad yn erbyn LTPS 2015 - 2018.

Er mwyn adolygu'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid ymgynghorwyd â'r prif randdeiliaid rhwng 1 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2017 a dadansoddwyd y canlyniadau gan y grŵp ffocws LTPS.

Yn y drydedd strategaeth canolbwyntiwyd ar wella cyfathrebu â thenantiaid, hyfforddi tenantiaid i gymryd rhan ar lefel strategol a monitro effaith cyfranogiad tenantiaid.

Gosodwyd 6 tharged allweddol:

1. **Cymryd rhan;** Darparu ystod o opsiynau cymryd rhan i sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried barn tenantiaid.
2. **Cymorth;** Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder tenantiaid i sicrhau y cymerir rhan yn effeithiol.
3. **Ymgynghori;** Cynyddu cyfranogiad tenantiaid o grwpiau na chânt eu cynrychioli ddigon i sicrhau bod canlyniadau ymgynghori'n adlewyrchu proffil tenantiaid Ynys Môn.
4. **Rhannu Gwybodaeth;** Gwella gwaith cyfathrebu â thenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn cael gwybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt ar ffurf sy'n addas iddynt.
5. **Gweithio mewn Partneriaeth;** Gweithio gyda phartneriaid i wella a chynyddu canlyniadau i'n tenantiaid a'r gymuned.
6. **Prif-ffrydio;** Sicrhau y caiff cyfranogiad tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd
   Crynhoir canlyniadau'r adolygiad yn yr adran hon, copi llawn o adolygiad LTPS 2015 -2018;
   Pa mor dda wnaethom ni berfformio?, mae adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk

## Cymryd rhan

Cwblhaodd y grŵp Archwilio Tenantiaid ddau archwiliad o'r Siarter Gofal Cwsmer corfforaethol a rhoi gwybod i'r Bwrdd Gofal Cwsmeriaid Corfforaethol am eu canfyddiadau, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant.

**Canlyniad: Roedd tenantiaid wedi dylanwadu ar wneud penderfyniadau ac mae gwasanaethau wedi gwella.**

Sefydlu dau fforwm newydd; Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth. Ymgynghorwyd â'r fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ynghylch y polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac mae'n monitro'r modd y cyflwynir gwasanaethau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Ymgynghorwyd â'r fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth ynghylch y Strategaeth Atal Digartref Interim ac mae'n monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu.

**Canlyniad: Dylanwadodd tenantiaid ar bolisi tai, mae adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol ac mae gwasanaethau wedi gwella.**

## Gweithio mewn partneriaeth

Cynhaliwyd rhan helaethaf gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol. Bu hyn yn help i gynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan a chyfranogiad gan grwpiau nad oeddent yn cael eu cynrychioli ddigon, fel pobl ifanc.

**Canlyniad: Hysbyswyd tenantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn gynrychioliadol o'r corff tenantiaid ehangach. Gwasanaethau gwell a mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.**

## Cymorth

Derbyniwyd £ 10k

Arian Gofal Canolraddol; i gefnogi gwaith datblygu dau hyb cymunedol; 1 yn Llangoed a'r llall yn Llanddona (gan gynnwys wifi a gliniaduron am ddim).

Wedi darparu offer cyfrifiadurol a rhyngrwyd am ddim am ddwy flynedd yn lolfa gymunedol Aberffraw a neu-add gymunedol Llanfaes.

Wedi prynu wyth ciosg cyfrifiaduron (sgrîn gyffwrdd) â mynediad at y rhyngrwyd, mae'r rhain ar gael i'w defnyddio (yn rhad ac am ddim) mewn ardaloedd gwledig.

Canlyniad: Mae'r prosiectau hyn wedi helpu i gael mwy o foddhad ymhlith cwsmeriaid gan fod gan denantiaid y mae eithrio digidol yn cael effaith arnynt fynediad at offer. Mae ôl-ddyledion rhent yn llai wrth i denantiaid allu hawlio Credyd Cynhwysol.

Yn dilyn cais gan denantiaid sy'n defnyddio tanc nwy cymunedol am gymorth i leihau eu biliau tanwydd, datblygwyd prosiect menter, 'y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd' a helpodd dros 250 o denantiaid y Cyngor oedd yn defnyddio nwy Calor, i ostwng eu biliau o 42c yr uned i 21c ac allan o dlodi tanwydd.

**Canlyniad: Roedd tenantiaid wedi cael dylanwad ar gyflenwi gwasanaethau. Mae adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol. Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.**

## Ymgynghoriad

Tenantiaid yr ymgynghorir â nhw ynghylch Safonau Amgylcheddol Ansawdd Tai Cymru ac a gwblhaodd:

22 diwrnod glanhau cymunedol a

Phum prosiect amgylcheddol.

Ymgynghorwyd â fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth ynghylch y Strategaeth Ddigartref Interim a'r Cynllun Gweithredu, a'r fforwm ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghylch y polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd.

**Canlyniad: Mae tenantiaid wedi cael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau. Mae adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol. Mwy o foddhad ymhlith cwsmeriaid; mae tenantiaid yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o ble maent yn byw. Mae tenantiaid wedi cael eu grymuso i ymfalchïo yn eu hardal.**

## Prif-ffrydio

Lansio bwletin staff chwarterol i rannu gwybodaeth am weithgareddau cyfranogiad tenantiaid ac adborth sut roedd cyfranogiad swyddogion wedi gwneud gwahaniaeth. Cynyddodd hyn ymrwymiad staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid.

**Canlyniad: Mae tenantiaid yn cael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau. Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol. Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid. Hysbyswyd tenantiaid o wasanaethau oedd yn cael effaith arnynt.**

## Rhannu Gwybodaeth

Lansio Porth Hunanwasanaeth Tenantiaid a helpodd i wella cyfathrebu â thenantiaid.

Sefydlu grŵp Ti a Fi cymunedol i gefnogi cydlyniant cymunedol a rhoi cyfle i famau ifanc ddatblygu eu medrau a'u hyder trwy gymryd rhan mewn sesiynau grŵp anffurfiol.

Parhau i hwyluso fforwm tai gwarchod llwyddiannus, a ddefnyddiwyd fel enghraifft o arfer da mewn sesiwn hyfforddi TPAS Cymu. Mae'r fforwm wedi helpu i hysbysu tenantiaid am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.

**Canlyniad: Hysbyswyd tenantiaid am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. Mae tenantiaid yn cael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau. Gwasanaethau gwell a mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.**

## Gwobrau TPAS Cymru

Yn ystod 2015 – 2018 enillodd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid bedair gwobr TPAS Cymru:




Y Wobr Gweithredu Cymunedol (nad yw'n amgylcheddol); Y frwydr yn erbyn y fenter tlodi tanwydd.

Gwobr Gwella Gwasanaethau; Y frwydr yn erbyn y fenter tlodi tanwydd.

Y Wobr Cynnwys Digidol; Porth Hunanwasanaeth Tenantiaid 'Fy Nghartref'

Gwobrau Gwella Gwasanaethau; Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth

## Meysydd i'w gwella

Mae'r meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan y grŵp ffocws LTPS yn cynnwys yr isod:

- Adolygu'r holl weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid; a ydyn nhw'n cyflawni gwerth am arian?
- Rhaid cynllunio a gwerthuso gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid. Cofnodi'r canlyniadau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau - beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r gweithgaredd cyfranogiad tenantiaid?
- Adborth i denantiaid, swyddogion a phartneriaid ynghylch sut mae eu cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth.
- Rhaid i'r panel MTOV fod yn glir ynghylch eu rôl wrth fonitro cynnydd y LTPS.
- Rhaid cwblhau a chyhoeddi adroddiadau cynnydd chwarterol LTPS ar wefan y Cyngor.
- Ail-lansio bwletinau chwarterol y staff.
- Rhaid i aelod o'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid fynd i gyfarfodydd tîm staff i roi adborth ar y gwaith a wnaed ac i drafod cyfleoedd i gymryd rhan.
- Moderneiddio Cyfranogiad Tenantiaid i annog mwy o denantiaid i gymryd rhan.
- Ail-lansio'r grŵp cyhoeddiadau tenantiaid i wella cyfathrebu.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Tîm Cyfranogiad Tenantiaid

Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Cysylltwch a ni ar:**
Ffôn: 01248 752166
Ebost: tenant@ynysmon.gov.uk

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Cyfranogiad Tenantiaid Lleol CSYM
# Strategaeth 2018 – 2023




www.ynysmon.gov.uk

## Beth yw Cyfranogiad Tenantiaid?

Ystyr Cyfranogiad Tenantiaid yw tenantiaid a landlordiaid yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth a syniadau ar sut i wella gwasanaethau tai.

Gall Tenantiaid ddylanwadu penderfyniadau yn ymwneud â:

- Polisïau Tai
- Amodau Tai
- Gwasanaethau Tai

## Gall Cyfranogiad Tenantiaid elwa tenantiaid a Chyngor Sir Ynys Môn




## Beth yw'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol?

Fel landlord cymdeithasol, mae'n rhaid i Gyngor Ynys Môn sicrhau bod ganddo Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn ei le er mwyn cydymffurfio â Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2007 Llywodraeth Cymru.

Mae gan yr holl denantiaid tai cymdeithasol yr hawl i gael eu hymgynghori â nhw ac i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid. Pwrpas y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid lleol yw sicrhau bod tenantiaid yn deall beth yw cyfranogiad tenantiaid a sut gallant gymryd rhan.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid hon a'r Cynllun gweithredu hwn yn amlinellu ymrwymiad Cyngor Ynys Môn i gyfranogiad tenantiaid. Bob blwyddyn, bydd Cynllun Gweithredu cyfredol yn cael ei baratoi ar gyfer y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol er mwyn egluro sut bydd y gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei ddarparu: bydd hyn yn cynnwys; tasgau, amserlenni, canlyniadau arfaethedig a sut bydd canlyniadau'n cael eu mesur.

## Nod y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol yw;



'Annog tenantiaid i weithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn dylanwadu ar a gwella'r gwasanaeth a ddarparwyd'.

Mae'r 5 amcan allweddol a fydd o gymorth er mwyn bodloni'r nod cyffredinol yn cynnwys;

A. Darparu amrywiaeth o opsiynau cyfranogiad tenantiaid er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau mewn perthynas â polisïau, amodau a gwasanaethau tai.
B. Defnyddio technoleg ddigidol (lle mae hynny'n bosibl) er mwyn moderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid.
C. Hysbysu tenantiaid am wasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw.
D. Sicrhau bod cyfranogiad tenantiaid yn cael ei gydnabod fel gweithgaredd craidd o fewn yr adran.
E. Cefnogi tenantiaid a effeithir gan Ddiwygio Lles

## Monitro'r Strategaeth



Bydd Cynllun Gweithredu 12 mis y Strategaeth yn cael ei fonitro bob 3 mis gan y grŵp monitro Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol a bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd Tai.

Mae'r Grŵp Monitro yn grŵp ffurfiol sydd wedi'i sefydlu er mwyn monitro cynnydd y Strategaeth.

Mae'r Aelodaeth yn gyfyngedig i 10 o aelodau ac mae'n cynnwys yr un nifer o Swyddogion Tai a Thenantiaid.

**Er mwyn monitro cynnydd, bydd y grŵp yn cyfarfod unwaith bob tri mis er mwyn edrych ar y cynllun gweithredu a phenderfynu:**

- A ydym wedi cyflawni'r hyn y gwnaethom ei ddweud? Os ddim, pam ddim?
- A ydym ni wedi sicrhau gwerth am arian? Os ddim, pam ddim?

**Bydd y grŵp hefyd yn cytuno:**

- Beth fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y tri mis nesaf
- A oes angen newid y blaenoriaethau o fewn y weithred.



## Adnoddau er mwyn darparu'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid




Mae dau Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ymroddedig yn gyfrifol am gydlynu'r gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid.

Mae cyllideb flynyddol o £102,000 ar gael i ariannu gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid ac adnoddau staff.


## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan yr holl denantiaid yr hawl i gymryd rhan ac am y rheswm hwnnw mae'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn anelu at sicrhau bod gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn agored ac ar gael i bawb;



## Cyfleoedd i gymryd rhan

Nod y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yw cynnig rhestr eang o weithgareddau i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn ffordd sy'n addas iddynt, rydym yn galw hyn yn 'dewislen opsiynau.



## Llwyddiannau a Chanlyniadau:

### YMRWYMIAD

Sefydlu dau fforwm newydd; fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth.
Canlyniadau: Dylanwadodd tenantiaid ar y polisi tai, mae adnoddau wedi eu targedu'n effeithiol ac mae gwasanaethau wedi gwella.
Canlyniad: Dylanwadodd y tenantiaid ar y penderfyniadau ac mae gwasanaethau wedi gwella.

### CEFNOGAETH

Cyllid Gofal Canolraddol; er mwyn cefnogi datblygiad dau hyb cymunedol; y naill yn Llangoed a'r llall yn Llanddona (yn cynnwys WiFi a gliniaduron am ddim)
Wedi darparu offer cyfrifiadurol a rhyngrwyd am ddim am ddwy flynedd mewn lolfa gymunedol yn Aberffraw ac yn neuadd gymunedol Llanfaes.
Canlyniad: Mae'r prosiectau hyn wedi helpu i wella bodlonrwydd cwsmeriaid gan fod tenantiaid a effeithir gan eithrio digidol â mynediad i offer. Llai o ôl-ddyledion gan fod tenantiaid yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol.
Yn dilyn cais gan denantiaid a oedd yn defnyddio tanc nwy cymunedol am gymorth i leihau eu biliau tanwydd, datblygwyd prosiect 'y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd' a gefnogodd dros 250 o denantiaid y Cyngor, a oedd yn defnyddio nwy Calor, i leihau eu biliau o 42c yr uned i 21c yr uned ac i gael allan o dlodi tanwydd.
Canlyniad: Cafodd y tenantiaid ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau. Mae adnoddau wedi cael eu targedu'n effeithiol. Gwell bodlonrwydd ymysg cwsmeriaid.

### YMGYNGHORI

Canlyniad: Cafodd y tenantiaid ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau. Mae Adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol. Gwell bodlonrwydd cwsmeriaid; mae tenantiaid yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o lle maent yn byw.
Mae tenantiaid wedi cael eu grymuso i gymryd balchder yn eu hardaloedd.

### PRIF LIF

Lansiwyd bwletin staff chwarterol er mwyn rhannu gwybodaeth am weithgareddau cyfranogiad tenantiaid ac er mwyn rhoi adborth ar y ffordd yr oedd cyfranogiad swyddogion wedi gwneud gwahaniaeth. Cynyddodd hyn yr ymrwymiad gan staff i gyfrannu at weithgareddau.
Canlyniad: Mae tenantiaid yn cael dylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau. Targedir adnoddau yn effeithiol. Gwell gwasanaeth a'r cwsmeriaid yn fwy bodlon. Hysbyswyd tenantiaid am y gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw.

### RHANNU GWYBODAETH

Parhau â'r fforwm tai Gwarchod, a gafodd ei ddefnyddio fel esiampl o arfer dda mewn sesiwn hyfforddiant TPAS Cymru. Mae'r fforwm wedi helpu i hysbysu tenantiaid am y gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw.
Sefydlu grŵp cymunedol Ti a Fi er mwyn cefnogi a darparu cyfleoedd i famau ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u hyder drwy gymryd rhan mewn sesiynau grŵp anffurfiol.
Canlyniad: Hysbyswyd tenantiaid am y gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r tenantiaid yn dylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau. Gwell gwasanaeth a chwsmeriaid yn fwy bodlon.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Tîm Cyfranogiad Tenantiaid

Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Cysylltwch a ni ar:**
Ffôn: 01248 752166
Ebost: tenant@ynysmon.gov.uk

# CYFRANOGIAD TENANTIAID CYNLLUN GWEITHREDU 2018/19

**Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid 2018/19**

1 Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid

| Rhif | Gweithred | Dyddiad targed | Canlyniad gofynnol | Mesurwyd gan | Sylwadau | Statws CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Mewn partneriaeth â thîm TG Orchard a thenantiaid, uwchraddio porth hunanwasanaeth y Tenantiaid. | Medi 2018 | Gwella cyfathrebu gyda thenantiaid | Cynyddu canran y tenantiaid sy'n defnyddio'r porth<br><br>Mwy o ddefnydd<br><br>o'r porth Adborth<br><br>tenantiaid | Rydym wedi sefydlu Panel Digidol, sy'n cynnwys 8 tenant a 5 Swyddog Tai o wahanol adrannau o'r Gwasanaeth. Bydd y Panel yn gweithio tuag ar: AppMon Tasg Gorffen a Gorchwyl, adolygu Sustem Ffôn Shoretel, adolygu gwe-dudalennau Gwasanaethau Tai, Digidol Gwasanaethau Tenantiaid . Mae dyddiadau wedi eu roi drwy'r flwyddyn gan gychwyn ar y 18fed o 2019. Rydym yn gobeithio gweld cyrhaeddiad 50% yn defnyddio'r portal o fewn y flwyddyn cyntaf ac yn cynyddu i 70% o fewn 3 blynedd | O fewn y chwe mis nesaf |
| 1.2 | Nodi cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad digidol megis ffurflenni adborth ar lein / negeseuon testun / ap ffôn symudol Cyfranogiad Tenantiaid | Parhaus | Mae ymgynghoriadau'n gynrychioliadol o'r corff tenantiaid ehangach. | Newid yn ystod oedran y tenantiaid sy'n cymryd rhan. | Rydym wedi trefnu sesiynau 'Te, Teisan a Thechnoleg' yn ein lolfeydd cymunedol. Bydd tenantiaid yn cael gwahoddiad i ddysgu sut i ddefnyddio y dechnoleg sydd ganddynt o ddydd i ddydd a hynny'n ddiogel (ffonau symudol, llechen, gliniaduron.) Drwy wneud hyn byddwn yn cyflwyno AppMon a'r Portal (nid yw hwn yn fyw ar hyn o bryd gan bod ambell beth angen ei newid) | Byddwn yn parhau i drefnu'r rhain yn ôl yr angen. Ni fydd dyddiad penodol i'r weithred yma oherwydd hyn. |
| 1.3 | Mewn partneriaeth â'r tîm TG corfforaethol a thenantiaid, uwchraddio'r tudalennau | Medi 2018 | Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. | Mwy o ddefnydd o'r wefan (ymweliadau â'r wefan).<br><br>Adborth tenantiaid | Mae unrhyw wybodaeth parthed Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei ychwanegu pan fo wybodaeth newydd ar gael. Bod tro byddwn yn hyrwyddo gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfranogiad Tenantiaid ar wefan y Cyngor. | | Mae tenantiaid yn deall sut mae'r ffaith eu bod nhw'n cymryd rhan wedi gwneud gwahaniaeth | | y Cyngor, byddwn bob amser yn cynnwys linc i'n tudalennau gwe. | |
| 1.4 | Cynnwys Cyfranogiad Tenantiaid ar AP MÔN - er enghraifft, ffurflen gais / cofrestr cronfa amgylcheddol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a dolen i'r Porth Hunanwasanaeth. | Mehefin 2018 | Mae modd cael mynediad at weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid<br><br>Gwella<br><br>cyfathrebu<br><br>gyda<br><br>thenantiaid<br><br>Caiff adnoddau<br><br>eu targedu'n<br><br>effeithiol | Cynnydd yng nghanran y tenantiaid sy'n defnyddio'r porth.<br><br>Mwy o ddefnydd ohono<br><br>Newid yn ystod oedran y tenantiaid sy'n cymryd rhan<br><br>Adborth tenantiaid | Rydym wedi cwblhau rhestr o ddogfennau sydd angen eu lawr lwytho i AppMon. Bydd hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o waith Tasg gorffen a gorchwyl y Panel Digidol. Byddwn yn edrych i orffen hyn erbyn diwedd Ionawr / dechrau Chwefror 2019. | Chwefror 2019 |

Tudalen 120

2 Darparu ystod o opsiynau ystyrlon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisïau, amodau a gwasanaethau tai

| Rhif | Gweithred | Dyddiad targed | Canlyniad gofynnol | Mesurwyd gan | Sylwadau | Statws CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisïau** | | | | | | |
| 2.1 | Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth i fonitro gwaith gweithredu strategaeth atal digartrefedd interim 2017/18 a chefnogi gwaith datblygu strategaeth ranbarthol 2018. | Mehefin 2018<br><br>Medi 2018<br><br>Rhagfyr 2018<br><br>Mawrth 2019 | Tenantiaid wedi dylanwadu ar bolisi tai<br><br>Caiff adnoddau eu targedu'n<br><br>effeithiol Gwasanaeth gwell | Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ddigartref<br><br>Gostyngiad yn y defnydd a wneir o lety brys<br><br>Adborth tenantiaid | Cawsom gyfarfod gyda Fforwm Atal Digartref Cyngor yr Ifanc Ynys Môn a Llais Ni, er mwyn ymgynghori am y Strategaeth Leol i Atal Digartrefedd. Cafodd hyn ei adrodd nôl i Reolwr Gwasanaeth Strategaeth, Comisiynu a Pholisi. Rydym yn parhau i gyfarfod yn fisol gyda Fforwm Digartref. Rydym wedi newid 3 o lythyr opsiynau Tai. Arferant fod yn hir ac yn anodd ei deall. Maent yn haws i'w darllen erbyn hyn. Rydym hefyd yn gweithio | |

Tudalen 121

Tudalen 122

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ar fidio a fydd yn targedu pobl ddigartref neu gyda'r potensial i fod yn ddigartref er mwyn cael mynediad at wybodaeth am linellau ffôn defnyddiol / Shelters ayyb. Bydd hwn ar gael 24/7 a rhoi'r wybodaeth hanfodol tu allan i oriau swyddfa. | |
| 2.2 | Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fonitro gweithredu'r polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Mehefin 2018<br><br>Medi 2018<br>Rhagfyr 2018<br><br>Mawrth 2019 | Tenantiaid wedi dylanwadu ar bolisi tai<br><br>Caiff adnoddau eu targedu'n<br><br>effeithiol Gwasanaeth gwell | Gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol<br><br>Gostyngiad yn yr amser a gymerwyd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol<br><br>Adborth tenantiaid | Rydym yn parhau i gyfarfod pob chwarter i fonitro gweithredu'r polisi ASB. Ar hyn o bryd, mae gennym 9 tenant a 4 Swyddog Tai yn mynychu'r fforwm<br><br>Dengys bod lleihad o adroddiadau YGG flwyddyn yma. Danfonwyd cylchlythyr i holl denantiaid ym mis Rhagfyr 2018. Bydd y wybodaeth am YGG yn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | parhau i fod ym mhob rhifyn o'r cylchlythyr – dwy waith y flwyddyn. (Hydref / Gaeaf a Gwanwyn /Haf) | |
| 2.3 | Ymgynghori â thenantiaid ynghylch unrhyw bolisïau a gaiff eu cyflwyno | Parhaus | | | Byddwn bob amser yn ymgynghori gyda'r tenantiaid pan fo gennym bolisïau newydd. Cawsom ymgynghoriad teithiol i drafod y polisi Sgwter. Buom o amgylch yr holl lolfeydd cymunedol ar yr Ynys gan wahodd tenantiaid ac i rannu gwybodaeth ac i glywed eu barn. | |

**Cyflwr Tai**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.4 | Hyrwyddo'r gronfa gwella amgylcheddol a chymunedol i gefnogi gwelliannau amgylcheddol. | Mehefin 2018<br><br>Mawrth 2019 | Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol<br><br>Tenantiaid yn teimlo y cânt eu grymuso i ymfalchïo yn eu hardal | Boddhad<br><br>tenantiaid Llai<br><br>o gwynion<br><br>Golwg gwell ar stadau | Rydym wedi hysbysebu'r broses ymgeisio am Arian Grant Amgylcheddol a Chymunedol rhwng y 7fed Ionawr - 29ain Mawrth 2019 (Yr un fath pob blwyddyn). Mae hyn yn rhoi cyfle i denantiaid, lles deiliad a Chynghorwyr i gwblhau'r ffurflen gais. Bydd yr holl geisiadau yn mynd gerbron y Panel Amgylcheddol, sy'n gymysg o 8 tenant a 2 swyddog. Bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu cyn adrodd yn ôl. Rydym yn cydweithio gyda'r prosiectau llwyddiannus drwy'r haf ac yn gwahodd aelodau'r panel draw hefyd. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.5 | Gwahodd tenantiaid newydd i gymryd rhan mewn grŵp tasg a gorffen i adolygu'r safon sylfaenol y gellir ei gosod. | Medi 2018 | Gwasanaeth gwell<br><br>Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol | Llai o achosion o<br><br>wrthod Llai o<br><br>gwynion<br><br>Cymryd llai o amser i osod eiddo<br><br>Llai o eiddo sy'n anodd<br><br>eu gosod Adborth<br><br>tenantiaid | Mae grwp tasg gorffen a gorchwyl wedi sefydlu gyda 6 thenant arno.<br><br>Gobeithir gosod dyddiad yn ystod Mai 2019. Byddwn yn canolbwyntio ar gynhwysiad digidol yn ystod y tri mis nesa ac nid ydym am roi ormod o bwysau a'r tenantiaid. | |
| 2.6 | Sefydlu fforwm atgyweirio i fonitro'r gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw gan gynnwys boddhad cwsmeriaid. | Mehefin 2018<br><br>Medi 2018 Rhagfyr 2018<br><br>Mawrth 2019 | Gwasanaeth gwell<br><br>Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol | Llai o gwynion<br><br>Llai o waith trwsio ymatebol<br><br>Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid | Ailsefydlwyd y fforwm atgyweirio ar y 6ed o Awst. Mae dyddiadau wedi ei rhoi yn y dyddiadur pob chwarter yn ystod 2019/20.<br><br>Mae angen adolygu taflenni Boddhad Cwsmeriaid. Bydd angen grŵp Tasg gorffen a gorchwyl i wneud hyn. | |

| **Gwasanaethau Tai** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.7 | Sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu'r gweithdrefnau polisi gosod a ganlyn:<br><br>Llythyr i roi gwybod i ymgeiswyr pan fydd eu cais am dai wedi bod yn llwyddiannus.<br><br>Adolygiad o restrau aros chwe mis am dŷ.<br><br>Monitro cynnydd ceisiadau tai. | Mai 2018 | Llythyrau'n hawdd eu deall<br><br>Mae'r broses adolygu<br><br>wedi gwella Mwy o<br><br>gwsmeriaid yn fodlon<br><br>Cyfathrebu gwell | Llai o gwynion<br><br>Llai o bobl yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr / yn ailymgeisio<br><br>Llai o<br><br>ymholiadau<br><br>Adborth<br><br>tenantiaid | Rydym wedi adolygu ac addasu 3 llythyr Opsiynau Tai yn llwyddiannus gan eu bod yn arfer bod yn hir ac anodd i'w deall. Maent yn hawdd i'w darllen erbyn hyn. Rydym hefyd yn gweithio ar fidio a fydd yn targedu pobl digartref neu gyda'r potensial i fod yn ddigartref er mwyn cael mynediad at wybodaeth am linellau ffôn defnyddiol / Shelters ayyb. Bydd hwn ar gael 24/7 a rhoi'r wybodaeth hanfodol tu allan i oriau swyddfa. | |
| 2.8 | Grŵp Archwilio Tenantiaid i gynnal dau archwiliad yn unol â blaenoriaethau cynllun Busnes y Gwasanaethau Tai. | Mehefin 2018<br><br>Mawrth 2019 | Tenantiaid yn dylanwadu ar welliannau i wasanaethau<br><br>Gwasanaeth gwell | Gweithredwyd ar yr argymhellion yn dilyn yr archwiliad | Cwblhawyd archwiliad gan Digartref Ynys Môn yn ystod 2018: Galwadau ffôn i'r | |

Tudalen 126

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwasanaeth cwsmer, ymweliad i'r dderbynfa a cheisio darganfod gwybodaeth ar y wefan gorfforaethol Rydym yn gobeithio y bydd y panel digidol yn gallu archwilio App Môn a'r Portal Tenantiaid yn fuan | |
| 2.9 | Datblygu cynllun i sicrhau bod yr wybodaeth proffilio tenantiaid yn gywir ac yn gyfredol yn barod ar gyfer gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) Act 2016 | Medi 2018 | Gwasanaeth gwell | Sicrhau bod yr wybodaeth am denantiaid yn gyfredol.<br><br>Rhoi contractau newydd i denantiaid. | Cynllun Cyfathrebu wedi gwblhau.<br><br>Gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol parthed gweithredu Deddf Rhentu Tai (Cymru)<br><br>Holiadur Tenantiaid wedi ei ddanfon i bob tenant Tachwedd 2018. | |

Tudalen 127

3 Rhoi gwybod i denantiaid am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt

| Rhif | Gweithred | Dyddiad targed | Canlyniad gofynnol | Mesurwyd gan | Sylwadau | Statws CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Datblygu cynllun cyfathrebu i roi gwybod i denantiaid am newidiadau i'w cytundebau tenantiaeth yn dilyn gweithredu Deddf Cartrefi Rhentu (Cymru) 2016 | Medi 2018 | Caiff tenantiaid wybod am newidiadau arfaethedig | Adborth tenantiaid | Cynllun Cyfathrebu wedi'i gwblhau. | |
| 3.2 | Datblygu cynllun cyfathrebu i roi gwybod i denantiaid am newidiadau i'w Hawl i Brynu yn dilyn gweithredu Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. | Mai 2018 | Caiff tenantiaid wybod am newidiadau arfaethedig | Adborth tenantiaid | Cynllun Cyfathrebu wedi'i gwblhau. | |
| 3.3 | Hwyluso fforwm tai gwarchod ddwywaith y flwyddyn | Mehefin 2018<br><br>Rhagfyr 2018 | Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.<br><br>Llai o arwahanrwydd.<br><br>Tenantiaid yn dylanwadu ar welliannau i wasanaethau | Adborth tenantiaid | Mehefin 2018 a Rhagfyr 2018, cawsom ddau Fforwm Tai Gwarchod llwyddiannus gyda 65 o denantiaid yn mynychu pob fforwm. Rydym yn parhau i gael | |

Tudalen 128

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adborth cadarnhaol gan y fforymau hyn. Mae hyn yn gostwng unigedd i rai tenantiaid nad ydynt byth yn dod allan ac yn dod i gymdeithasu ac fel hyn maent hefyd yn dysgu gwybodaeth newydd sy'n helpu eu hiechyd a'u lles. Rydym yn parhau i drefnu'r rhain ddwywaith y flwyddyn (Haf a Gaeaf) | |
| 3.4 | Mewn partneriaeth â grŵp cyhoeddi tenantiaid, datblygu cylchlythyr tenantiaid Llais Môn | Mehefin 2018<br><br>Rhagfyr 2018 | Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. | Adborth tenantiaid | Oherwydd peidio â chael Grŵp Cyhoeddiadau sefydledig yn 2018, roedd yn rhaid i'r Tîm TP gwblhau cylchlythyr yr Hydref / Gaeaf. Yn 2019, mae gennym grŵp sefydledig nawr, felly mae dyddiadau yn y dyddiadur i gwrdd ym mis Chwefror i baratoi ar gyfer | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cylchlythyr y Gwanwyn / Haf. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i greu a chwblhau'r cylchlythyr hwn sy'n cynnwys gwybodaeth newydd, iechyd a diogelwch, cystadlaethau, datblygiadau newydd ac ati. Rydym hefyd wedi prynu 2 gliniadur ar gyfer y Panel hwn, fel hyn bydd ein tenantiaid yn cael y cyfle i gynyddu eu medrau digidol a chael cyfle i roi eu marc eu hunain ar y gwaith. Bydd gennym hefyd ein logo ein hunain ar bob dogfen a fydd yn cael ei gyhoeddi; 'Tic y Tenant' | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.5 | Sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu’r llawlyfr tenantiaid | Hydref 2018 | Llawlyfr yn ystyriol o denantiaid ac yn hawdd i’w ddarllen<br><br>Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy’n cael effaith arnynt. | Adborth tenantiaid<br>Llai o ymholiadau gan gwsmeriaid | Bydd hyn yn rhan o'r Grŵp Cyhoeddiadau ar 12fed Chwefror 2019. Roedd gennym grŵp gorchwyl a gorffen yn 2018 i adolygu'r llawlyfr, ond oherwydd newidiadau o fewn polisïau / rheoleiddio / gwybodaeth newydd y mae angen i ni ei hadolygu eto ym mis Chwefror a chymeradwyo'r fersiwn derfynol er mwyn argraffu. | |

4 Sicrhau y caiff cyfranogiad tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr adran

| Rhif | Gweithred | Dyddiad targed | Canlyniad gofynnol | Mesurwyd gan | Sylwadau | Statws CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Datblygu bwletin staff chwarterol i rannu gwybodaeth am weithgareddau cyfranogiad tenantiaid ac adborth ynghylch sut oedd cyfranogiad swyddogion wedi gwneud gwahaniaeth | Mehefin 2018<br><br>Medi 2018<br>Rhagfyr 2018<br><br>Mawrth 2019 | Mae'r staff yn deall manteision cyfranogiad tenantiaid.<br><br>Cydnabyddir Cyfranogiad Tenantiaid fel gweithgaredd craidd. | Adborth / sylwadau staff ar ôl darllen bwletin / cyfarfodydd staff / mynd i'r panel MTOV<br><br>Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn yr yn yr adran. | Mae / wedi parhau i anfon bwletin staff at yr holl Staff Tai ac Aelodau etholedig y Cyngor (bydd hyn yn cychwyn yn 2019 i'r Aelodau) i'w hysbysu o'r gwaith sy'n parhau i ddigwydd. | |
| 4.2 | Cyfranogiad Tenantiaid i fod yn eitem agenda safonol mewn cyfarfodydd tîm a thîm Cyfranogiad Tenantiaid i fynd i'r cyfarfodydd yn rheolaidd. | Misol | | | Yn anffodus, nid yw'r cam hwn wedi'i gwblhau. Nid ydym wedi derbyn unrhyw ddyddiadau ynglŷn â chyfarfodydd tîm er gwaethaf anfon negeseuon e-bost yn gofyn. Bydd hyn yn digwydd yn 2019 gan ein bod yn gobeithio trwy gylchredeg ein bwletin a rhannu gwybodaeth ac adborth gyda'r Adran bydd yn cynyddu cyd- | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithio. | |
| 4.3 | Adolygu cylch gorchwyl y panel MTOV | Ebrill 2018 | | | Wedi ei gymeradwyo gan y panel | |

Tudalen 133

5 Cefnogi tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt



| Rhif | Gweithred | Dyddiad targed | Canlyniad gofynnol | Mesurwyd gan | Sylwadau | Statws CAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Sefydlu grŵp tasg a gorffen gyda thenantiaid y mae credyd cynhwysol yn cael effaith arnynt er mwyn deall y rhwystrau a sut y gellir cefnogi tenantiaid. | Mehefin 2018 | Mae modd targedu adnoddau'n effeithiol.<br><br>Mae modd i denantiaid ddylanwadu ar ddarparu gwasanaethau. | Llai o ddyledion rhent<br><br>Mwy o denantiaid yn talu eu rhent trwy ddebyd uniongyrchol<br><br>Mwy o denantiaid yn agor cyfrifon banc | Ni wnaethom sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gan fod gennym amrywiaeth eang o denantiaid wedi ei effeithio ac y byddai diwrnod sioe deithiol / gwybodaeth yn fwy buddiol. Cwblhawyd 3 diwrnod gwybodaeth ym mis Hydref / Tachwedd 2018 cyn y dyddiad gweithredu ym mis Rhagfyr 2018. Mynychodd Swyddog TP a Swyddog Cynhwysiant Ariannol a Digidol. | |
| 5.2 | Adolygu'r defnydd a wneir o'r ciosgau cyfrifiaduron a gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth. | Mehefin 2018 | Defnyddir ciosgs gan y gymuned i gymharu prisiau / sefydlu bancio ar y rhyngrwyd / gwneud cais am Gredyd Cynhwysol. | Mwy o ddefnydd o'r ciosgs<br><br>Monitro gwefannau yr ymwelwyd â nhw<br><br>Adborth tenantiaid | Mae'r holl giosgau bellach wedi'u tynnu o bob lleoliad gan nad oeddent yn gydnaws â'r systemau. | |
| 5.3 | Hyfforddi tenantiaid i ddod yn hyrwyddwyr digidol a hwyluso cyfleoedd i leihau | Parhaus | Lleihau eithrio digidol<br><br>Hyrwyddo'r defnydd o'r ciosgs gan y gymuned | Hyrwyddwyr i gofnodi'r defnydd a wneir o giosgs | Gan ein bod yn canolbwyntio ar Gynhwysiant Digidol yn 2019, cafodd hyn ei gario drosodd a | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | eithrio digidol. | | | Adborth tenantiaid | bydd yn cael ei gwblhau o fewn y 6 mis nesaf. Rydym yn gobeithio hyfforddi pob tenant ar y Panel Digidol i ddod yn Hyrwyddwyr Digidol yn eu hystâd | |
| 5.4 | Mewn partneriaeth â'r tîm cynhwysiant ariannol ac asiantaethau lleol, codi ymwybyddiaeth o Ddiwygiad Lles a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i denantiaid | Parhaus | Teimla'r tenantiaid y cânt gefnogaeth i ymateb yn bositif i heriau Diwygiad Lles.<br><br>Mae tenantiaid yn deall y gwahanol ffyrdd o dalu eu rhent ac maent yn hyderus yn talu eu rhent. | Llai o ddyledion rhent<br><br>Mwy o denantiaid yn talu eu rhent trwy ddebyd uniongyrchol<br><br>Mwy o denantiaid yn agor cyfrifon banc | Bellach mae gennym ail Swyddog Cynhwysiant Ariannol wedi ei benodi. Byddwn yn sefydlu grŵp ffocws ym mis Ebrill 2019 ymlaen i weithio gyda'n tenantiaid sydd wedi ei effeithio gan Credyd Cynhwysol ar Ynys Môn. Mae'r Adran Dai wedi buddsoddi £20k ar gyfrifiaduron a fydd yn cael eu lleoli mewn llyfrgelloedd ar draws yr Ynys. Gobeithiwn y bydd tenantiaid yn cymryd rhan yn y grŵp ffocws ac yn cymryd rhan ynddynt, ond os nad yw tenantiaid yn fodlon cyfranogi, rydym yn gobeithio defnyddio astudiaethau achos | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | bywyd go iawn yn ddienw. Mae'r ddau swyddog cynhwysiant ariannol wedi'u lleoli yn y Ganolfan DWP ddwywaith yr wythnos. Rydym hefyd yn monitro defnydd banc bwyd i fonitro'r cynnydd yn y defnydd ers i UC gael ei weithredu. Yn nghylchlythyr mis Rhagfyr oedd wedi ei bostio i holl denantiaid Cyngor Ynys Môn, roedd yn cynnwys sylw helaeth i Credyd Cynhwysol**.** | |
| 5.5 | Datblygu prosiect menter i gefnogi tenantiaid y mae tlodi tanwydd yn cael effaith arnynt. | Mehefin 2018 | Caiff tenantiaid gefnogaeth i ddod allan o dlodi tanwydd | Canran y tenantiaid sydd wedi cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd<br><br>Adborth tenantiaid | Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y syniad o weithio mewn partneriaeth â Grwp Cynefin, sy'n defnyddio 'Energy Angels' i helpu i leihau amserau troi tai gwag, costau ynni a biliau tenantiaid. Mae'r cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 14eg Chwefror 2019. | |

Tudalen 136